Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
40/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/07/2024

# Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): Gwerthusiad o gefnogi'r GIG a gofal cymdeithasol trwy coronafeirws (COVID-19)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in Welsh.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-187-3

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): Gwerthusiad o gefnogi'r GIG a gofal cymdeithasol trwy coronafeirws (COVID-19)

Awdur(on): Lock, K., Moore, N., Davies, A. (Gwasanaethau Ymchwil Barn)

Lock, K., Moore, N., Davies, A. (2024). *Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): Gwerthusiad o gefnogi'r GIG a gofal cymdeithasol trwy coronafeirws (COVID-19).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 40/2024.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cronfa-gymdeithasol-ewrop-esf-gwerthusiad-o-gefnogir-gig-gofal-cymdeithasol-trwy-coronafeirws-covid-19

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 8099

E-bost: Research.Evaluation@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....2
Geirfa ....3
1. Cyflwyniad....6
2. Methodoleg ....13
3. Canfyddiadau'r gwerthusiad....20
4. Casgliadau ....68
Atodiad A: Canllawiau Pwnc Cyfweliad....71
Atodiad B: Damcaniaeth Newid y Gweithrediad ....78
Atodiad C: Astudiaethau Achos ....79

**Rhestr o dablau**

Tabl 1.1: Targedau Allbwn a Rhagolygon Gweithredu (WEFO, 31/10/2022) ........................ 12
Tabl 2.1: Rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan mewn cyfweliadau manwl .................................. 15
Tabl 3.1: Targedau Allbwn a'r Gweithrediad a wnaethpwyd hyd yma (WEFO, 31/7/2023) .. 26
Tabl 3.2: Prynu Cyfarpar Diogelu Personol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ........................................................... 33
Tabl 3.3: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Math o Gontract (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) .................... 38
Tabl 3.4: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid ESF yn ôl Amser Llawn/Rhan-amser (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ..................................... 38
Tabl 3.5: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl rôl sy'n gysylltiedig â Covid/nad yw'n gysylltiedig â Covid (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ......................................................................... 38
Tabl 3.6: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan y Bwrdd Iechyd (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ................ 39
Tabl 3.7: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Math o Waith (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ......................... 40
Tabl 3.8: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Dyddiad Dechrau'r Contract (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ........................................................................................................... 41
Tabl 3.9: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Dyddiad Gorffen y Contract (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ........................................................................................................... 41
Tabl 3.10: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Rheswm dros ddod â Chontract i ben (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ...................................................................................................... 43
Tabl 3.11: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Hyd y Gyflogaeth (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ................. 44
Tabl 3.12: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Oedran (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ......................... 49

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | Proffesiynau gofal iechyd sy'n darparu ystod o wasanaethau diagnostig, technegol, therapiwtig a chymorth yng nghyswllt gofal iechyd. |
| Archwilio Cymru | Corff cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd gan y Senedd yn 2005 i archwilio ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar draws pob sector o lywodraeth yng Nghymru, ac eithrio'r rheini a gedwir yn ôl i lywodraeth y DU. Roedd yn arfer cael ei alw'n Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru). |
| British Medical Journal (BMJ) | Cyfnodolyn meddygol rhyngwladol a adolygir gan gymheiriaid. |
| Sefydliad Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Caffael a Logisteg (BSO PaLS) | Cynnal y gwaith o osod a rheoli nwyddau a gwasanaethau ar ran Sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. |
| Themâu Trawsbynciol | Materion neu feysydd ychwanegol sy'n croestorri â'r prif brosiect neu y gellir eu hintegreiddio'n hawdd i'r prosiect heb golli ffocws y prif nod. |
| Y Comisiwn Ewropeaidd (CE) | Cangen weithredol wleidyddol annibynnol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n gyfrifol am lunio cynigion ar gyfer deddfwriaeth Ewropeaidd newydd, ac mae'n gweithredu penderfyniadau Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd. |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) | Cronfa strwythurol gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n ceisio creu gwell cyfleoedd gwaith a gwella cyflogadwyedd dinasyddion Ewrop. |
| Undeb Ewropeaidd (UE) | Undeb economaidd a gwleidyddol uwchgenedlaethol o 27 o wledydd, a elwir yn aelod-wladwriaethau. Mae'n gweithredu |

| | |
|---|---|
| | marchnad fewnol sy’n caniatáu symud nwyddau, cyfalaf, gwasanaethau a phobl yn rhydd rhwng aelod-wladwriaethau. |
| Dwyrain Cymru (DC) | Rhanbarth Cronfa Strwythurol Ewrop yng Nghymru, sy’n cynnwys y rhannau mwyaf dwyreiniol o’r wlad. Fe’i diffinnir fel Powys, Sir y Fflint a Wrecsam, Sir Fynwy a Chasnewydd, a Chaerdydd a Bro Morgannwg. |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) | Rheoleiddiwr statudol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn y DU a sefydlwyd i amddiffyn y cyhoedd. |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) | Corff gweithlu strategol GIG Cymru. Dyma’r unig Awdurdod Iechyd Arbennig yn GIG Cymru ac mae’n goruchwylio ac yn darparu addysg, hyfforddiant a datblygiad i’r gweithlu gofal iechyd cenedlaethol. |
| Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) | Corff Seneddol annibynnol yn y Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol am archwilio adrannau llywodraeth ganolog, asiantaethau’r llywodraeth a chyrff cyhoeddus anadrannol. |
| Opinion Research Services (ORS) | Yr asiantaeth ymchwil gymdeithasol a benodwyd i gynnal y gwerthusiad annibynnol hwn. |
| Gwasanaethau Cenedlaethol y GIG yn yr Alban (NSS y GIG) | Sefydliad sy’n atebol i Lywodraeth yr Alban sy’n darparu gwasanaethau cymorth strategol a chyngor arbenigol i GIG yr Alban. |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) | Sefydliad annibynnol sy’n eiddo i GIG Cymru ac yn cael ei gyfarwyddo ganddo. Mae’r sefydliad yn cefnogi GIG Cymru drwy ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau a swyddogaethau cymorth o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar y cwsmer. |
| Cyfarpar Diogelu Personol | Cyfarpar sy’n cael ei wisgo i leihau’r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â pheryglon sy’n achosi anafiadau difrifol yn y gweithle ac sy’n lledaenu heintiau a salwch. |

| | |
|---|---|
| Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) | Rhan o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'n asesu ceisiadau am gyllid, yn dosbarthu cyllid i ymgeiswyr llwyddiannus ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau monitro |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | Corff sy'n cynrychioli buddiannau'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. |
| Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Rhanbarth Cronfa Strwythurol Ewrop yng Nghymru, sy'n cwmpasu cyrion gorllewinol a de-orllewinol Cymru, ynghyd â hen gymoedd diwydiannol De Cymru. Mae'n cynnwys awdurdodau unedol Ynys Môn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Gorffennaf 2023, penodwyd Opinion Research Services (ORS) gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'i gweithrediadau 'Cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy Covid'. Y nod oedd llunio gwerthusiad sy'n fethodolegol gadarn ac annibynnol, gan asesu'r ddarpariaeth a'r canlyniadau a gyflawnwyd gan y gweithrediad.

1.2 Amcanion y gwerthusiad oedd:

- Adolygu theori newid y gweithrediad.
- Adolygu data monitro a pherfformiad y gwasanaeth er mwyn asesu'r ddarpariaeth a'r canlyniadau a gyflawnir.
- Cynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid (e.e. Llywodraeth Cymru, ymddiriedolaethau/byrddau iechyd y GIG, ac awdurdodau lleol) i archwilio eu profiad a'u canfyddiadau o ddyluniad, darpariaeth a pherfformiad y gweithrediad.
- Asesu llwyddiant y gweithrediad o ran cyflawni'r nodau a'r targedau penodol a nodir yn y cynllun busnes.
- Asesu i ba raddau yr oedd y gweithrediad yn gallu cyfrannu at yr amcanion a bennwyd ar gyfer y Themâu Trawsbynciol[1].
- Asesu gwerth am arian y gweithrediad.
- Nodi graddfa a natur effaith y gweithrediad, gan gynnwys unrhyw effeithiau anfwriadol.
- Nodi gwersi a ddysgwyd ar gyfer gweithrediadau yn y dyfodol.
- Asesu cyfraniad y gwaith at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[2].

1.3 Mae'r prif allbynnau ar gyfer y gwerthusiad hwn yn cynnwys yr adroddiad terfynol cynhwysfawr hwn a phedair astudiaeth achos annibynnol gyda themâu gwahanol yn ymwneud â'r gwerthusiad[3].

[1] Dyma nhw ar gyfer Cymru: Cyfle Cyfartal; Prif-ffrydio Rhywedd a'r Gymraeg; Datblygu Cynaliadwy; a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.
[2] Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau mwy cydlynol; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
[3] Themâu'r astudiaeth achos yw profiad WEFO; y themâu trawsbynciol; cymharu archwiliadau cyfarpar diogelu personol cenedlaethol; a staffio yn Ardal Bae Abertawe.

**Cyd-destun y Gwerthusiad**

*Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-20*

1.4 Mae WEFO, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, yn rheoli'r gwaith o gyflwyno Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru. Cafodd Cymru fudd o fuddsoddiad o Gronfeydd Strwythurol Ewrop gwerth tua £2 biliwn yn ystod cyfnod rhaglen 2014-2020.

1.5 Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn elfen o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Ei nod yw buddsoddi mewn pobl i helpu i gynyddu cyflogaeth, lleihau tlodi, a gwella cyflawniad addysgol, gan felly wella cyfleoedd gwaith a bywyd pobl. Rhannwyd ESF 2014-2020 yn ddwy raglen weithredol yng Nghymru yn seiliedig ar ddau ranbarth daearyddol: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru[4].

1.6 Cytunwyd ar amcanion penodol rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE cyn y pandemig. Cafodd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei eithrio rhag cael ei ystyried yn flaenorol oherwydd bod dulliau cliriach a mwy uniongyrchol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau penodol a nodir yn y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd[5].

*Dechrau Covid-19*

1.7 Rhoddodd bandemig Covid-19 straen digynsail ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn gynnar, nododd Llywodraeth Cymru bedwar niwed allweddol[6] y gallai'r pandemig eu hachosi i bobl Cymru:

- Niwed uniongyrchol i unigolion rhag haint a chymhlethdodau gan gynnwys i'r rhai a ddatblygodd glefyd difrifol ac, mewn rhai achosion, yn anffodus, rhai a fu farw o ganlyniad.
- Y niwed a achosir petai gwasanaethau gan gynnwys y GIG yn cael eu llethu oherwydd unrhyw gynnydd mawr sydyn yn y galw gan gleifion â Covid-19 ar ysbytai, cyfleusterau gofal critigol a gwasanaethau allweddol eraill.
- Niwed o salwch nad yw'n gysylltiedig â Covid, er enghraifft, os nad oedd unigolion wedi gofyn am sylw meddygol ar gyfer eu salwch yn gynnar a bod eu cyflwr wedi gwaethygu, neu'n fwy cyffredinol o ganlyniad i'r newidiadau

[4] Crynodeb o Raglenni Cronfa Strwythurol ERDF ac ESF yng Nghymru
[5] Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd Cronfeydd Ewropeaidd (llyw.cymru)
[6] Arwain Cymru allan o Bandemig y Coronafeirws, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2020

angenrheidiol yn narpariaeth gwasanaethau'r GIG a wnaethpwyd yn ystod y pandemig yng Nghymru i atal gweithgarwch nad yw'n hanfodol.

- Niwed economaidd-gymdeithasol a niwed cymdeithasol arall fel yr effaith economaidd ar rai grwpiau o fethu gallu gweithio, effeithiau ar fusnesau o fod ar gau neu wynebu gostyngiad yn y galw gan gwsmeriaid, niwed seicolegol i'r cyhoedd o gadw pellter cymdeithasol, a llawer mwy.

*Mynd i'r afael â'r niwed posibl*

1.8 Gan gydnabod brys y pandemig, roedd ffocws y Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar ddiogelu bywydau a bywoliaeth, sicrhau bod cyllid ar gael i brynu offer meddygol, defnyddio hyblygrwydd ariannol, a mabwysiadu cannoedd o benderfyniadau newydd a gweithredoedd eraill ar frys. Roedd hyn yn adlewyrchu'r angen i symud o gyflawni amcanion hirdymor i reoli argyfwng ar unwaith i sicrhau cymorth a buddsoddiad cyflym a hyblyg lle'r oedd ei angen fwyaf[7].

1.9 Rhoddodd y Comisiwn Ewropeaidd wybod i Awdurdodau Rheoli y gellid defnyddio arian Cronfeydd Strwythurol i ymateb i Bandemig Covid-19. Aeth WEFO ati wedyn i adolygu'r opsiynau a oedd ar gael a nodwyd gan y CE a chynnig Echel Blaenoriaeth newydd – 'Cyfyngu Covid drwy Gapasiti' – a gafodd ei gynnig i Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru a'i gymeradwyo ganddo.

1.10 Sefydlwyd Pwyllgor Monitro Rhaglen Cymru gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020. Ar y dechrau, roedd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn cynnwys 27 o Aelodau o'r sectorau cyhoeddus, preifat, addysg uwch a'r trydydd sector; cymdeithas sifil; a chyrff amgylcheddol a chydraddoldeb. Caiff ei gadeirio gan Aelod o'r Senedd.

1.11 Prif swyddogaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yw monitro gweithrediad Rhaglenni ESI 2014-2020 sy'n gweithredu yng Nghymru yn unol â gofynion rheoleiddiol yr Undeb Ewropeaidd (UE)[8]. Yr hyn sy'n arbennig o bwysig i'r gwerthusiad hwn o Flaenoriaethau Iechyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw'r gofyniad rheoleiddiol i

---

[7] COMMUNICATION FROM THE COMMISSION TO THE EUROPEAN PARLIAMENT, THE COUNCIL, THE EUROPEAN ECONOMIC AND SOCIAL COMMITTEE AND THE COMMITTEE OF THE REGIONS Adjusted Commission Work Programme 2020 - Publications Office of the EU (europa.eu)

[8] Rheoliad UE 1304/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('Rheoliad ESF'), yn benodol erthygl 13(3) a 19. Rheoliad UE 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('Rheoliad EAFRD'), yn benodol erthygl 74.

Bwyllgor Monitro'r Rhaglen archwilio'r gwerthusiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

1.12 Cyflwynwyd addasiad i'r Rhaglen i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2020 er mwyn ailddyrannu'r cyllid o Flaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop o 1, 2, 3 a 5 i'r Echel Blaenoriaeth 6 newydd hon. Dyrannwyd y flaenoriaeth oddeutu 7 y cant, neu £65m o gyllideb Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Cafodd ei chymeradwyo gan y CE ym mis Ionawr 2021.

1.13 Roedd cyfiawnhad dros ddefnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop fel hyn gan fod argyfwng Covid-19 wedi cael effaith economaidd-gymdeithasol sylweddol ar Gymru[9] gan niweidio'n sylweddol y gwaith o gyflawni canlyniadau Cronfeydd Strwythurol yr UE ac effeithio'n anghymesur ar gymunedau economaidd difreintiedig[1010]. Mae'r effaith ar addysg hefyd wedi bod yn sylweddol, gyda'r rheini o gefndiroedd tlotach yn wynebu mwy o darfu ar eu haddysg[11]. Mae tystiolaeth o argyfyngau blaenorol yn dangos y gallai'r effeithiau hyn waethygu'r anghydraddoldebau presennol ac arwain at niwed tymor hir i iechyd, perfformiad cyflogaeth a llesiant y genhedlaeth nesaf. Mae'r pandemig hefyd wedi dwysáu'r anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru ar draws amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010[12], fel rhywedd, oedran, anabledd ac ethnigrwydd.

*Cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy Covid-19*

1.14 Yng Nghymru, roedd pandemig Covid-19 wedi cynyddu'n sylweddol y lefelau gofynnol o staff a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) oedd eu hangen i gefnogi'r systemau iechyd a gofal i ddarparu mynediad at wasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel. Nid dim ond ar staff y GIG a ymatebodd i Covid-19 y cafodd hyn effaith. Roedd gweithwyr iechyd a gofal a oedd yn gweithio ar wardiau eraill, mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, ac yn y parth cyhoeddus hefyd angen cyfarpar diogelu personol ychwanegol a heb weithredu roedd risg o brinder a risg uwch o drosglwyddo'r clefyd ar draws pob lleoliad. Ar ben hynny, roedd cynnydd sylweddol hefyd mewn pris a gostyngiad yn ansawdd yr offer, wrth i wledydd ar draws y byd

---

[9] Twf GDP misol yn y DU 2021 | Statista
[10] Diweddariad yr Hydref (llyw.cymru)
[11] Yr astudiaethau ymchwil - Hwb (llyw.cymru)
[12] Deddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk)

gystadlu i sicrhau'r cyfarpar diogelu personol angenrheidiol a darparwyr dibrofiad newydd symud i'r gadwyn gyflenwi. Petai gwasanaethau'n cael eu llethu, roedd hyn yn peryglu triniaethau ac arbenigeddau eraill wrth ymyl y llwybr triniaeth ar gyfer Covid-19, er enghraifft iechyd meddwl a ffisiotherapi, a allai waethygu problemau iechyd.

1.15 O'r herwydd, prif flaenoriaeth y gwaith oedd prynu cyfarpar diogelu personol gydag elfen eilaidd ar yr amod bod cyllid ar gael i recriwtio staff dros dro. Y rhesymeg oedd bod caffael cyfarpar diogelu personol yn caniatáu defnydd effeithlon o adnoddau'r GIG a gofal cymdeithasol tra oeddent yn gweithredu o dan bwysau digynsail. Amcan Penodol Echel Blaenoriaeth 6 oedd 'Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol' drwy sicrhau'r canlynol:

- Cynyddu mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol drwy gynyddu capasiti'r sector iechyd a gofal yn wyneb Covid-19.
- Diogelu'r GIG rhag cael ei lethu.
- Cefnogi endidau i gyfyngu ar effaith y pandemig, er mwyn achub bywydau a lleihau effeithiau iechyd, economaidd a chymdeithasol negyddol hirdymor Covid-19.
- Darparu gwasanaeth diogel a digonol i gleifion yn ystod y pandemig.
- Darparu cyfarpar diogelu personol priodol i staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'w hamddiffyn rhag dal a throsglwyddo'r clefyd.

1.16 Roedd canolbwyntio ar brynu cyfarpar diogelu personol a recriwtio staff dros dro wedi helpu i ddiogelu'r GIG rhag cael ei lethu. Roedd yn sicrhau bod gwasanaethau i gefnogi pobl â Covid-19 ar gael i gleifion, a bod staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael cyfarpar diogelu personol priodol i'w diogelu rhag dal a throsglwyddo'r clefyd. Roedd hefyd yn helpu i liniaru effaith Covid-19 ar gyfraddau absenoldeb y GIG [13] [14] [15] drwy gynyddu nifer y staff a dod o hyd i gyfarpar diogelu personol priodol. Yn 2019, roedd y gyfradd absenoldeb cyffredinol ar gyfer staff GIG Cymru yn 5.5 y cant, ac roedd hyn wedi cynyddu i 6 y cant yn 2020, 6.3 y cant yn 2021 ac roedd wedi cyrraedd uchafbwynt o 6.9 y cant

[13] Absenoldeb oherwydd salwch y GIG yn ystod pandemig covid-19
[14] Absenoldeb oherwydd salwch y GIG
[15] Absenoldeb staff y GIG a'r gyfradd hunanynysu, yn ôl dyddiad (wedi'i archifo - nid yw'n cael ei ddiweddaru mwyach)

yn 2022.[16] Casglwyd ffigurau absenoldeb a hunanynysu wythnosol manylach y GIG yn ystod y pandemig, gan dynnu sylw'n benodol at absenoldeb oherwydd COVID a hunanynysu.[17] Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, roedd dros 4 y cant o staff yn absennol oherwydd hunanynysu ac roedd rhwng 1 a 2.4 y cant yn absennol oherwydd COVID. O'i ystyried ynghyd ag absenoldeb oherwydd salwch am resymau eraill, roedd hyn yn rhoi cyfanswm cyfradd absenoldeb wythnosol o rhwng 11.5 ac 8.7 y cant rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020.

*Canlyniadau gweithrediadau*

1.17 Dewiswyd y dangosyddion allbwn canlynol ar gyfer y gweithrediadau:

- Nifer y staff iechyd neu ofal cymdeithasol ychwanegol a recriwtiwyd.
- Gwerth y cyfarpar diogelu personol a brynwyd (cyfanswm y gost gyhoeddus).
- Nifer yr eitemau o gyfarpar diogelu personol (gan gynnwys masgiau untro, cyfarpar diogelu'r llygaid, gorchuddion ac ati) a brynwyd.
- Nifer yr endidau a gefnogir i frwydro yn erbyn effeithiau pandemig Covid-19 a'u gwrthweithio.

1.18 Mae'r targedau a'r rhagolygon yng nghyswllt y rhain i'w gweld yn Nhabl 1.1. Roedd y targedau ar gyfer yr amcan penodol hwn yn seiliedig ar y sefydliadau a nodwyd ym maes y Rhaglen fel blaenoriaeth i'w cefnogi i wella capasiti i ymateb i bandemig Covid-19, gan gynnwys y pum Bwrdd Iechyd (Betsi Cadwaladr, Hywel Dda, Bae Abertawe, Cwm Taf Morgannwg, Aneurin Bevan); Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Ar sail amcangyfrifon cost rhagamcanol, roedd disgwyl i bron i 40 y cant o'r dyraniad ariannol ar gyfer yr Amcan Penodol gael ei ddyrannu i brynu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ac ychydig dros 60 y cant i'w ddyrannu i recriwtio staff.

[16] Absenoldeb oherwydd salwch (llyw.cymru)
[17] Absenoldeb staff y GIG a'r gyfradd hunanynysu, yn ôl dyddiad (wedi'i archifo - nid yw'n cael ei ddiweddaru mwyach) (llyw.cymru)

**Tabl 1.1: Targedau Allbwn a Rhagolygon Gweithredu (WEFO, 31/10/2022)**

| Amcan Penodol | Allbynnau | Targed | Rhagolwg o'r Prosiect |
|---|---|---|---|
| SO6.1 Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol | Nifer y staff iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol a recriwtiwyd | 2,400 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>1,800 yn Nwyrain Cymru | 2,584 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>1,391 yn Nwyrain Cymru |
| | Gwerth y cyfarpar diogelu personol a brynwyd (cyfanswm y gost gyhoeddus) | €39.0m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>€30.0m Dwyrain Cymru | €71.4m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>€57.6m Dwyrain Cymru |
| | Cyfarpar diogelu personol (PPE) (gan gynnwys masgiau tafladwy, cyfarpar diogelu'r llygaid, gorchuddion ac ati) (eitemau) | 36m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>27m Dwyrain Cymru | 165m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>134m Dwyrain Cymru |
| | Nifer yr endidau a gefnogir i frwydro yn erbyn effeithiau pandemig Covid-19 a'u gwrthweithio. | 7 WWV<br>6 EW | 8 WWV<br>7 EW |

*Model cyflawni*

1.19 Roedd y gweithrediadau 'Cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy Covid' yn ymateb brys i argyfwng Covid-19. Oherwydd yr angen i fod yn gyflym, cafodd penderfyniadau eu gwneud yn gyflym iawn ac nid oedd amser i ddatblygu'r matrics opsiynau arferol a'r ymarfer cwmpasu. Yn wir, gwnaethpwyd llawer o'r gwaith cyn i'r UE gytuno ar yr echel flaenoriaeth newydd ym mis Ionawr 2021. Cafodd y gweithrediadau eu harwain gan dîm Iechyd Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid a grwpiau strategol i sicrhau bod yr opsiynau mwyaf effeithiol yn cael eu dewis.

1.20 Yr her fwyaf i WEFO oedd cysoni ei safonau uchel i sicrhau bod polisi penodol yn cael ei integreiddio; er enghraifft, integreiddio Themâu Trawsbynciol ar y cam cynharaf o'r broses cynllunio busnes, a'r angen dybryd oherwydd brys y pandemig i ddefnyddio'r systemau mwyaf effeithiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd risg sylweddol o ganlyniad i greu beichiau ychwanegol fel systemau newydd a phwrpasol ar gyfer cofnodi gweithgarwch ac allbynnau prosiectau. Gallai'r rhain fod wedi tynnu sylw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol oddi wrth y tasgau uniongyrchol o ymateb i'r argyfwng drwy greu systemau neu fiwrocratiaeth newydd, yn enwedig gan nad oedd y maes hwn wedi cael Cyllid Ewropeaidd o'r blaen. Yn unol â hynny, ac o ystyried yr angen i fod yn gyflym, roedd WEFO wedi blaenoriaethu gweithio drwy strwythurau sefydledig, dibynadwy a chost-effeithiol i sicrhau bod cymorth ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol.

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd y gwaith maes gwerthuso rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2023 ac roedd yn cynnwys cyfweliadau cwmpasu, adolygiad data a dogfennau, a chyfweliadau manwl rhithiol gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams. Defnyddiwyd dull sy'n seiliedig ar theori wrth ddylunio'r gwerthusiad, gyda theori newid a ddatblygwyd gan WEFO yn sail iddo. Mae hyn i'w weld yn Atodiad B ac un o amcanion allweddol y gwerthusiad hwn oedd ei adolygu.

2.2 Mae gweddill y bennod hon yn rhoi rhagor o fanylion am y dull methodolegol a fabwysiadwyd.

**Cyfweliadau cwmpasu gyda staff WEFO a gafodd eu cyfweld: Mai/Mehefin 2023**

2.3 Cynhaliwyd tri chyfweliad cwmpasu rhithiol gyda staff WEFO (presennol a blaenorol) a oedd yn ymwneud â chynllunio a chyflawni'r gweithrediad. Nod y cyfweliadau hyn oedd casglu gwybodaeth gychwynnol am gyd-destun a swyddogaeth y gweithrediad. Roedd hyn yn sail i'r dogfennau a'r adolygiad data, yn rhoi cyd-destun ychwanegol i'r theori newid, ac yn llywio dyluniad y canllawiau pwnc ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid.

2.4 Roedd pob cyfweliad â rhanddeiliaid yn para tua 60 munud ac yn ceisio casglu gwybodaeth gan gyfranogwyr am y canlynol:

- Eu rhan yn y gwaith.
- Y rhesymeg gyffredinol dros y gweithrediad.
- Nodau a thargedau penodol a bennwyd ar gyfer y gweithrediad.
- Sut cafodd y Themâu Trawsbynciol eu hystyried wrth ddylunio'r gweithrediad.

- Yr heriau a'r rhwystrau a wynebwyd yn ystod y camau cynllunio a darparu.
- Unrhyw alluogwyr neu gyfleoedd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y camau cynllunio a darparu.
- I ba raddau y cyflawnodd y gweithrediad ei nodau arfaethedig, ac unrhyw effeithiau anfwriadol.
- Y prif wersi a ddysgwyd o'r profiad.

**Adolygu data a dogfennau**

2.5 Rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2023, cynhaliodd uwch gydweithwyr ORS adolygiad manwl o ddogfennau i ddeall y cyd-destun ar gyfer y gweithrediad, yn ogystal â dadansoddi'r data rhifol sy'n ymwneud ag ef. Roedd yr adolygiad yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r rhesymeg dros y gweithrediad, y broses o'i roi ar waith a'i effeithiolrwydd, yn ogystal â gwerth am arian.

2.6 Y dogfennau a'r ffynonellau data a adolygwyd oedd:

- Cynlluniau Busnes Gweithredol ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- Crynodeb o Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Strwythurol ESF yng Nghymru.
- Dogfennau Llywodraeth Cymru: Adnodd Asesu Risg Covid-19; Dadansoddiad Economaidd-Gymdeithasol o Gymru (Tachwedd 2020).
- Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd (2020).
- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gweithredu data perfformiad a monitro, Adolygiad Blynyddol 2021-22, a chylchgrawn 'Mewn Partneriaeth' (Ebrill 2021).
- Nodyn Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet ar ymateb i Covid-19, Mawrth 2020.
- Mae Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon yn adrodd ar weithgarwch caffael gan y llywodraeth yn ystod y pandemig.
- Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22.
- Adroddiad y Coleg Nyrsio Brenhinol ar Effaith Lefelau Staffio ar Ofal Cleifion Diogel ac Effeithiol.

- Adroddiadau academaidd ar brofiadau gweithwyr gofal iechyd yn ystod y pandemig[18] [19] [20].

**Cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid**

2.7 Cynhaliwyd saith cyfweliad rhithiol manwl gyda rhanddeiliaid allweddol rhwng mis Awst a mis Hydref 2023. Roedd y cyfweliadau'n para rhwng 45 a 90 munud, yn dibynnu ar ddyfnder gwybodaeth yr unigolyn am y gweithrediad a'i gysylltiad ag ef.

2.8 Yn seiliedig ar brofiad, ystyriwyd mai dull lled-strwythuredig a naratif o gynnal y cyfweliadau oedd fwyaf priodol. Roedd y canllawiau pwnc yn ddigon hyblyg i hwyluso hyn, gan gynnwys cyfres o gwestiynau ac awgrymiadau uniongyrchol i roi rhywfaint o ryddid a pherchnogaeth i'r rhai a gyfwelwyd yn ystod y cyfweliad, gan sicrhau bod y cwestiynau gwerthuso'n cael sylw llawn.

2.9 Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio o restr o oddeutu 20 o randdeiliaid a ddarparwyd gan dîm WEFO. Roedd y rhestr yn cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd yng Nghymru, darparwyr addysg uwch a rhanddeiliaid strategol o Iechyd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ac o dîm WEFO.

2.10 Cysylltwyd â phob un o'r 20 a'u gwahodd i gyfweliad a gofynnwyd a oedd ganddynt unrhyw gydweithwyr a allai gymryd rhan yn y gwerthusiad hefyd. Drwy'r dull caseg eira hwn, y gobaith oedd y byddai 28 cyfweliad yn cael eu cynnal i gyd.

2.11 Mae'r canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r cyfweliadau a gwblhawyd a'u meysydd arbenigedd.

**Tabl 2.1: Rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan mewn cyfweliadau manwl**

| Sefydliad Rhanddeiliaid | Maes diddordeb | Nifer y cyfweliadau |
|---|---|---|
| WEFO | Goruchwyliaeth strategol – gweithrediad cyfan | 2 |
| Llywodraeth Cymru | Goruchwyliaeth strategol - PPE | 1 |

[18] Profiadau gweithwyr gofal iechyd rheng flaen gydag offer diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 yn y DU (BMJ Open)

[19] Mynediad at gyfarpar diogelu personol ymysg gweithwyr gofal iechyd yn ystod pandemig COVID-19 yn y Deyrnas Unedig: canlyniadau astudiaeth o garfan genedlaethol (UK-REACH)

[20] Canfyddiadau gwahaniaethol ynghylch defnydd cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y GIG yn seiliedig ar ethnigrwydd, rhyw a phrofiad proffesiynol.

| | | |
|---|---|---|
| CLILC | Goruchwyliaeth strategol - PPE | 1 |
| Bwrdd Iechyd | Recriwtio Staff | 1 |
| Darparwr addysg uwch | Recriwtio Staff | 2 |

2.12 Ar ben hynny, darparwyd un cais ysgrifenedig am dystiolaeth gan fwrdd iechyd. Roedd hyn yn canolbwyntio ar recriwtio staff ac mae wedi cael ei ddadansoddi ochr yn ochr â chanfyddiadau'r cyfweliad. Cytunwyd ar y dull hwn yn dilyn ymdrechion sylweddol i recriwtio rhanddeiliaid drwy nifer o negeseuon e-bost a galwadau ffôn, yn ogystal â dull caseg eira, yn ystod mis Gorffennaf ac Awst.

2.13 Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom adolygu deunyddiau recriwtio ac ychwanegu gwybodaeth i bwysleisio nad oedd angen gwybodaeth flaenorol am gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gymryd rhan. Fe wnaethom hefyd rannu rhai sleidiau â chyfranogwyr a oedd yn rhoi trosolwg o'r gweithrediad a'i amcanion.

2.14 Defnyddiwyd dau ganllaw pwnc ar wahân yn ystod y cyfweliadau: un ar gyfer rhanddeiliaid strategol o WEFO, Llywodraeth Cymru a CLILC; ac un ar gyfer rhanddeiliaid o fyrddau iechyd a'r sector addysg uwch gyda gwybodaeth fwy gweithredol am sut cafodd staff eu recriwtio a PPE eu caffael. Mae'r canllawiau pwnc wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

2.15 Roedd y canllaw pwnc strategol yn archwilio'r canlynol:

- Trosolwg o rôl y cyfranogwr yn ystod y pandemig.
- Eu dealltwriaeth o'r gweithrediad a'i resymeg.
- Eu barn ar amcanion y gweithrediad.
- Unrhyw heriau a wynebwyd yn ystod y pandemig.
- Safbwyntiau ar ystyried Themâu Trawsbynciol yn y gweithrediad.
- I ba raddau y mae'r gweithrediad wedi cyflawni ei nodau.
- Unrhyw effeithiau anfwriadol a welwyd.
- Y prif wersi a ddysgwyd.

2.16 Roedd y canllaw pwnc gweithredol yn archwilio'r canlynol:

- Trosolwg o rôl y cyfranogwr yn ystod y pandemig.
- Prif anghenion Cyfarpar Diogelu Personol a/neu staffio eu sefydliad yn ystod y pandemig.

- Eu barn ar sail resymegol ac amcanion y gweithrediad (ar ôl cael sioe sleidiau ragarweiniol).
- Sut aeth eu sefydliad ati i gaffael cyfarpar diogelu personol neu recriwtio staff.
- Graddfa prynu / recriwtio.
- Unrhyw ystyriaeth a roddir i faterion ansawdd, cynaliadwyedd a chydraddoldeb staff.
- Effaith cyfarpar diogelu personol/staff ychwanegol ar y sefydliad.
- Unrhyw ymwybyddiaeth bod cyllid wedi'i ddyfarnu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Effaith cyllid ôl-weithredol a'r sefyllfa wrthffeithiol (h.y. beth fyddai'r effaith pe na bai'r cyllid wedi bod ar gael).
- Y prif wersi a ddysgwyd.

**Dadansoddi ac adrodd**

2.17 Dadansoddodd uwch ymchwilwyr ORS yr holl ddata yn fewnol. Cafodd y cyfweliadau eu hysgrifennu a'u dadansoddi'n thematig yn unig gan yr ymchwilwyr a gynhaliodd y cyfweliadau, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cyd-destun. Cafodd unrhyw ddadansoddiad ei adolygu gan arweinydd y prosiect er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a thrafododd yr ymchwilwyr y themâu sy'n dod i'r amlwg ar lafar, er mwyn galluogi'r tîm i dynnu sylw at themâu allweddol yr ymchwil yn gynnar, a dechrau ffurfio sail ar gyfer yr adroddiad.

2.18 Mae prif ganfyddiadau'r ddogfen ac adolygiadau data yn ogystal â'r holl gyfweliadau, gan gynnwys gwaith cwmpasu, a'r ymateb ysgrifenedig a gafwyd, yn cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn a'u defnyddio i lywio'r pedair astudiaeth achos annibynnol. Dewiswyd y rhain yn bwrpasol gyda'r nod o ddarparu disgrifiad manwl o brosesau caffael PPE a recriwtio staff. Mae'r pedair astudiaeth achos yn canolbwyntio ar brofiad WEFO; y themâu trawsbynciol; cymharu archwiliadau cyfarpar diogelu personol cenedlaethol; a staffio yn Ardal Bae Abertawe.

2.19 Mae enwau a sylwadau y gellir adnabod pobl ohonynt wedi cael eu tynnu o'r sylwadau air am air er mwyn sicrhau eu bod yn anhysbys.

**Nodyn rhybudd data**

2.20 Mae'n bwysig nodi, oherwydd natur ôl-weithredol y gwaith, bod nifer y rhanddeiliaid a nodwyd a chanddynt rywfaint o ddealltwriaeth o sut mae Cronfa Gymdeithasol

Ewrop yn gweithio yn gyfyngedig. Nid oedd disgwyl i rai o'r rhanddeiliaid ar y rhestr, yn enwedig y rheini sydd â rôl fwy gweithredol, fod â gwybodaeth am y gweithrediad, ond rhagwelwyd y gallent rannu eu barn am y broses o gaffael cyfarpar diogelu personol a recriwtio staff ar ddechrau'r pandemig.

2.21 Ar ben hynny, roedd y gronfa o randdeiliaid a oedd ar gael i'w cyfweld yn gyfyngedig o'r cychwyn cyntaf, gan mai dim ond saith bwrdd iechyd sydd yng Nghymru. O ganlyniad, ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnal arolwg ystadegol ddilys o randdeiliaid, ac felly mae'r adroddiad yn dibynnu ar farn nifer fach o'r rhai a gyfwelwyd, sydd i'w ddisgwyl.

2.22 Yn gyffredinol, mae'r ymateb i wahoddiadau i gymryd rhan – a anfonwyd dros e-bost ac a gynhaliwyd dros y ffôn ac mewn cyfarfodydd ar sawl achlysur gan dîm ORS, ac a gefnogwyd gan gydweithwyr yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru – wedi bod yn is na'r disgwyl. Fel ymgais i gynyddu nifer y cyfranogwyr, dosbarthwyd cais am dystiolaeth ysgrifenedig gyda phrofforma yn cynnwys y cwestiynau ymchwil allweddol i'r holl randdeiliaid a nodwyd gan WEFO a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ond dim ond un ymateb a ddaeth i law drwy'r sianel hon. Felly, ni ellir ystyried bod barn rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwerthusiad hwn yn cynrychioli holl randdeiliaid y gwaith.

2.23 Yn ein barn ni, roedd natur ôl-weithredol y gweithrediad, a'r diffyg ymwybyddiaeth ohono wedyn, yn golygu bod rhanddeiliaid yn credu nad oedd ganddynt lawer i'w gyfrannu at y gwerthusiad, er gwaethaf ymdrechion dro ar ôl tro i'w sicrhau nad oedd angen gwybodaeth ymlaen llaw i gymryd rhan. Mae'n ymddangos bod hyn, ynghyd â sensitifrwydd dealladwy ynghylch ymchwiliad Covid-19 parhaus y DU[21] a sefydlu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru[22] mewn ymateb i alwadau gan ymgyrchwyr i deuluoedd mewn profedigaeth, wedi arwain at amharodrwydd i gymryd rhan ymysg rhanddeiliaid. Yn wir, gofynnodd rhai rhanddeiliaid a wahoddwyd i gymryd rhan am gyngor cyfreithiol ynghylch a ddylent gymryd rhan oherwydd pryderon yn ymwneud ag Ymchwiliad Covid, a'i broffil cyhoeddus uchel pan oedd y gwerthusiad yn cael ei gynnal. Roedd hyn yn golygu

[21] Mae gwrandawiadau Modiwl 2B sy'n canolbwyntio ar Gymru yn dechrau ym mis Chwefror 2024, a gwrandawiadau Modiwl 3 sy'n canolbwyntio ar systemau gofal iechyd yn y pedair gwlad yn ystod hydref 2024.
[22] Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru (senedd.cymru)

nad oedd modd cyfweld cymaint o randdeiliaid ag yr oedd y gwerthuswyr wedi gobeithio ei wneud.

2.24 Fodd bynnag, rhoddodd y rhai a gymerodd ran gyfrifon llawn a manwl o'u profiadau, sy'n rhoi darlun da o'r gweithrediad a'i effaith drwy ein dadansoddiad.

2.25 Sylwch y gall y safbwyntiau a fynegir gan gyfranogwyr yn y cyfweliadau gael eu hategu neu beidio gan dystiolaeth sydd ar gael; hynny yw, efallai y byddant yn rhoi adroddiadau cywir llawn o'r ffeithiau neu ddim. Ni all ORS farnu ar gywirdeb neu ddiffyg barn pobl wrth adrodd amdanynt, a dylid cadw hyn mewn cof wrth ystyried y canfyddiadau.

## 3. Canfyddiadau'r gwerthusiad

3.1 Adroddir ar brif ganfyddiadau'r adolygiad data a dogfennau a'r cyfweliadau manwl yn y bennod hon. Maent wedi'u strwythuro'n thematig o amgylch y themâu allweddol canlynol: y rhesymeg dros y gweithrediad; y ffordd y cafodd ei ddylunio; ac allbynnau a chanlyniadau'r gweithrediad fel y cânt eu hamlygu yn y Ddamcaniaeth Newid. Rydym hefyd wedi ceisio tynnu sylw at sut, ac i ba raddau, roedd modd ystyried y themâu trawsbynciol drwy gydol y cam gweithredu a sut roedd y gweithrediad yn gallu cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Y rhesymeg dros y gweithredu

3.2 Oherwydd natur ôl-weithredol y dyfarniad cyllid, roedd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y cyfweliadau manwl yn ystyried bod rhesymeg gyffredinol y gweithrediad yn syml: "rhoi arian i'r GIG i dalu am gyfarpar diogelu personol a mwy o staff yn ystod y pandemig" (cyfwelai WEFO).

3.3 Er bod rhai wedi dweud bod y cyllid wedi'i gynllunio i gefnogi mwy o gapasiti staff, roedd eraill yn ofalus wrth ddweud ei fod yn cwmpasu is-set fach o'r nifer fawr o bobl, ac yn wir proses gaffael cyfarpar diogelu personol, a oedd yn rhan o ymateb Covid-19 Cymru.

> *'Oherwydd ei bod yn broses gyfateb, yr hyn nad oeddem yn ei wneud oedd cynnwys pawb. Felly, dim ond pobl a gafodd eu recriwtio fel rhan o ymgyrch recriwtio Covid y gwnaethom eu cynnwys yn ein rhan ni... Yr unig beth rwy'n meddwl y dylem fod yn ei fesur yw a wnaethom gynyddu nifer y bobl, ac a wnaethom gynyddu'r cyfarpar diogelu personol... Ar wahân i hynny, nid oedd unrhyw beth arall erioed wedi'i fwriadu i fod yn ganlyniad i'r prosiect.'* (Cyfwelai WEFO)

3.4 Felly, roedd y targedau'n rhai rhifiadol ar y cyfan, yn canolbwyntio ar nifer yr unigolion a recriwtiwyd a nifer y cyfarpar diogelu personol a brynwyd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i'r gwerthusiad hwn ddeall unrhyw effaith yng nghyd-destun y ffocws cul y bu'n rhaid ei fabwysiadu.

3.5 Roedd rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn teimlo i raddau helaeth bod y rhesymeg a roddwyd i'r gweithrediad yn gywir gan ei fod yn bodloni'r galw ar y pryd, gan

gydnabod bod hon yn sefyllfa na welwyd ei thebyg o'r blaen a bod byrddau iechyd yn gweithredu yn ôl y gofyn o ran maint eu gweithrediadau caffael a recriwtio.

3.6 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo mai PPE oedd y llinell amddiffyn gyntaf cyn i'r strategaeth frechu ddechrau ac felly roedd angen gwneud buddsoddiad sylweddol yn y maes hwn. Dywedwyd bod yr amcanion hefyd yn cyd-fynd â'r hyn oedd gan wledydd eraill yn eu lle. Roedd eraill yn cytuno ei bod yn iawn gwneud PPE yn brif ffocws, gyda recriwtio staff yn ail i hynny, ond na fyddai wedi bod yn bosibl canolbwyntio ar un heb y llall.

> *'PPE yn gyntaf a staff yn ail oherwydd bod cymaint o ddiffyg PPE ar ddechrau'r pandemig ac mae'n siŵr ein bod i gyd yn cofio pa mor bryderus oedd hi ar y dechrau... Gallai llawer o bobl fod wedi cael eu recriwtio nad ydynt wedi gweithio ers blynyddoedd, efallai bod ganddyn nhw anghenion hyfforddi ac mewn gwirionedd, rwy'n credu bod angen blaenoriaethu'r PPE yn gyntaf cyn iddynt ddod yn ôl i'r gweithlu.'* (Rhanddeiliad addysg uwch)

*Anghenion allweddol sefydliadau yn ystod Covid-19*

3.7 Dywedodd un rhanddeiliad mai'r angen ar unwaith i fyrddau iechyd oedd cynyddu capasiti staff yn gyflym ar ddechrau'r pandemig; nyrsys a gweithwyr gofal iechyd yn bennaf ond meddygon hefyd. Dywedodd un o randdeiliaid y bwrdd iechyd eu bod yn chwilio am 1,000 o staff ychwanegol ar unwaith, a oedd yn y pen draw yn troi'n 10 rownd recriwtio a phenodi cyfanswm terfynol o 2,500 o unigolion.

> *'Dyna oedd ein prif ffocws o'r dechrau oherwydd roeddem yn gwybod y gallai fod gennym lawer o bobl yn dod dros drothwy'r ysbyty ac y byddai angen i ni gynyddu ein gwelyau a gwneud yn siŵr bod gennym staff priodol'* (Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd)

3.8 Yn naturiol, roedd angen i fyrddau iechyd hefyd gynyddu eu stociau o PPE i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y staff a recriwtiwyd a'r mewnlifiad o gleifion. Fel y nodir yn fanylach yn nes ymlaen yn y bennod hon, roedd pryderon cynnar ynghylch priodoldeb y cyfarpar diogelu personol sy'n cael ei gaffael ar gyfer y gweithlu amrywiol a rhai pryderon ynghylch gwaredu eitemau halogedig, yn enwedig y tu allan i leoliadau clinigol. Yn ddiweddarach, dechreuodd cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd gael eu codi, gyda llawer o'r stoc PPE yn cael ei wneud o blastig untro.

3.9 Ar gyfer darparwyr addysg, roedd eu hanghenion cynnar yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch myfyrwyr. Wrth ddarparu staff ar gyfer ymarfer clinigol, roeddent yn chwilio am sicrwydd gan fyrddau iechyd y byddai myfyrwyr yn cael profion ffitrwydd ar gyfer PPE[23], gan nad oedd ganddynt y gallu na'r offer i wneud hynny mewn prifysgolion. Roedd modd gwneud unrhyw waith paratoi arall yn fewnol.

3.10 Roedd un rhanddeiliad yn teimlo bod hyn wedi bod yn "frwydr galed" i ddechrau gan fod y galw am brofion ffitrwydd yn uchel ymysg byrddau iechyd. Fodd bynnag, wrth i fyfyrwyr ymsefydlu'n gyflym yn y gweithlu a chael eu rhoi ar gyflogres byrddau iechyd ar y cyd â'u rhaglenni astudio, cawsant eu cynnwys mewn profion ffitrwydd ochr yn ochr â staff eraill y byrddau iechyd fel mater o drefn.

> *'Oherwydd y galw enfawr am brofion ffitrwydd ar gyfer eu staff eu hunain, roedd ychydig o amharodrwydd i ymgysylltu â'n myfyrwyr hefyd, ond fe wnaethom drafod ein ffordd drwy hynny... Roedd llawer o weithio agos rhyngom ni a'n darparwyr iechyd lleol ac fe wnaethom oresgyn hynny'n eithaf cyflym. Ein prif bryder wrth gwrs oedd diogelwch ein myfyrwyr.'* (Rhanddeiliad addysg uwch)

3.11 Soniodd un rhanddeiliad - darlithydd a ddychwelodd i ymarfer clinigol yn ystod y pandemig - am bryderon cynnar ynghylch y cyfaddawd rhwng rhoi amser clinigol i helpu'r ymateb, a sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer addysgu myfyrwyr a sicrhau y byddent yn graddio.

3.12 Ar lefel strategol, roedd dealltwriaeth nad oedd digon o gyfarpar diogelu personol, ac y gallai'r canllawiau ar iechyd y cyhoedd a gyhoeddwyd ar y dechrau un newid. Er enghraifft, tynnodd rhanddeiliad sylw at y canllawiau cynnar ar gyfer gweithwyr gofal cartref a ddywedodd nad oedd angen cyfarpar diogelu personol os nad oedd unigolyn yn dangos symptomau.

3.13 Er bod rhanddeiliaid bellach yn ymwybodol bod cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cael ei ddyfarnu'n ôl-weithredol i dalu am gost Cyfarpar Diogelu Personol a staff, roedd gwybodaeth ymysg staff byrddau iechyd a darparwyr addysg uwch am argaeledd cyllid yn gyfyngedig yn nyddiau cynharach y pandemig. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddealltwriaeth y byddai cymorth yn debygol o fod ar gael, gan Lywodraeth Cymru mae'n debyg, ac felly byddai'n rhaid bod yn ofalus wrth gofnodi unrhyw wariant ar y cam hwn.

---

[23] Cyfarpar Diogelu Resbiradol - Profion Ffitrwydd Sylfaenol (HSE)

*'Pan ddaeth y pandemig, daeth y sgwrs am arian i ben. Roedd yn rhaid i ni 'fwrw iddi a gwneud'. Felly, er nad oeddwn i'n meddwl y byddem yn gwybod mai cyllid Ewropeaidd fyddai hwn ar y pryd, roeddem yn gwybod y byddai'n rhaid dod o hyd i arian ryw ffordd neu'i gilydd.'* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

**Dylunio'r gweithrediad**

3.14 Rhannodd staff strategol a oedd yn ymwneud â datblygu Echel Blaenoriaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ddefnyddiwyd i ariannu'r gweithrediad hwn eu profiadau o ffurfio'r achos busnes, sicrhau cymeradwyaeth, a chyflawni'r gweithrediad yn ôl-weithredol.

3.15 Yn nyddiau cynharaf y pandemig, cafodd y tîm y dasg o ystyried a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud o fewn rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop o ran ailgyfeirio cyllid i gefnogi argyfwng Covid-19. Ar y cam hwnnw, adolygodd y tîm y canllawiau gan y CE i weld beth oedd yn bosibl, cyn dechrau cynllunio sut y gellid creu blaenoriaeth newydd.

*'Roedden ni eisiau gweld beth allai'r rhaglenni ei wneud i'w gefnogi. Roedd y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn gwneud yr un fath ar yr un pryd yn union, gan ddwyn ynghyd a cheisio deall sut y gallai eu rhaglenni a'u holl ffrydiau cyllido gefnogi'r argyfwng hwn i weld beth oedd yn bosibl.'* (Cyfwelai WEFO)

3.16 Roedd cyfranogwyr rhanddeiliaid mewnol yn teimlo bod y dull yn un pragmatig, a oedd yn cefnogi dull gweithredu'r llywodraeth gyfan mewn ffordd gadarnhaol. Hwyluswyd hyn gan y ffaith bod y CE wedi cyhoeddi canllawiau ac eglurder yn gyflym wrth esbonio beth oedd o fewn paramedrau'r cyllid, yn enwedig ac ystyried nad oedd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector iechyd yng Nghymru o'r blaen.

3.17 Ar y cam hwn, nodwyd bod prynu cyfarpar diogelu personol a recriwtio staff yn anghenion allweddol ac felly nhw oedd ffocws y gweithrediad. Roedd ymwybyddiaeth y gallai newid yn y rhaglen gymryd 12-18 mis i'w gymeradwyo gan y CE, er gwaethaf sicrwydd y byddai'r Comisiwn yn symleiddio'r broses gymaint â phosibl ac, yn bwysig, yn caniatáu i raglenni fod yn ôl-weithredol.

*'Mae dull ôl-weithredol newydd agor y drws i, gallem gymryd yr amser i wneud hyn, newid y rhaglen, cael y prosiect a'i gymeradwyo a pheidio â phoeni am yr amser roedd yn ei gymryd cyhyd â'n bod ni'n ei wneud erbyn diwedd y prosiect,*

*sef y flwyddyn nesaf [2024]...Yn sydyn cafodd hynny wared ar un o'r rhwystrau uniongyrchol.'* (Cyfwelai WEFO)

3.18 Ar y cam hwn, dechreuodd tîm WEFO adeiladu'r achos busnes. Yn naturiol, nododd cyfranogwyr rai heriau yn ymwneud â chynllunio a chyflawni'r gweithrediad ar hyn o bryd.

3.19 Yr her gyntaf oedd penderfynu sut i ailgyfeirio arian a oedd eisoes wedi'i ddynodi i un o amcanion penodol y Cronfeydd Strwythurol, ac ar gam cymharol hwyr yn y cyfnod rhaglennu. Roedd angen hefyd rhoi cynllun busnes ar waith a fyddai'n gwrthsefyll prosesau craffu ac archwilio gan y CE, a byddai'r gwaith paratoi hwnnw'n cael effaith ar lwyth gwaith. Yn y bôn, gyda chydweithwyr iechyd Llywodraeth Cymru eisoes yn neilltuo amser sylweddol i faterion sy'n gysylltiedig â'r pandemig, roedd hi'n anodd dod o hyd i amser i drefnu'r gwaith yn iawn.

3.20 Ac ystyried y byddai dibyniaeth ar fyrddau iechyd unigol i ddarparu data i gefnogi'r hawliad am gyllid, roedd risg y byddai hyn yn dilyn fformat anghyson. Yn gysylltiedig â hyn roedd trafodaethau ynghylch a ddylai'r cyllid hefyd gefnogi'r sector gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch yr amrywiaeth o ddarparwyr ym maes gofal cymdeithasol, y cymhlethdod y gallai hyn ei achosi, ac anghysondeb posibl o ran data. O ganlyniad, gwnaethpwyd penderfyniad, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn y sector cymdeithasol, i ddarparu cyllid i fyrddau iechyd yn unig.

3.21 Roedd risg ariannol ar y cyd hefyd rhwng WEFO a Llywodraeth Cymru o ymrwymo gormod o arian cronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop, neu ddim digon, a oedd angen ei reoli'n ofalus.

> *"Yn y pen draw, roedd yn mynd i fod yn risg ariannol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â WEFO oherwydd... dim ond hyn a hyn y gallwn ei gael gan y Comisiwn Ewropeaidd...ac mae'n rhaid i ni ddal ati i roi arian i brosiectau sydd eisoes yn bodoli... Os byddwn yn gwneud pethau'n anghywir ac yn gwario mwy nag sydd gennym ar y gwaith hwn...Llywodraeth Cymru sy'n gorfod talu'r bil hwnnw. Felly ... yn y bôn, dyna oedd ein terfyn yn y pen draw.'* (Cyfwelai WEFO)

3.22 Er gwaethaf yr heriau, roedd llawer o ffactorau galluogi a oedd yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r gwaith.

3.23 Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod y tîm wedi mynd ati'n ofalus i gwmpasu posibiliadau a chyfyngiadau ariannol y gwaith yn ystod y camau cynllunio. Roeddent

hefyd yn sicrhau bod yr achos busnes a godwyd ar gyfer yr Echelin Blaenoriaeth newydd mor gynhwysfawr â phosibl, ac yn ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb, cyn ei rannu â'r CE, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl iddo gael cymeradwyaeth.

3.24 Roedd dau beth yn allweddol i'r llwyddiant hwn o safbwynt cynllunio: cael gweithgor 'agos', da yn ei le; a manteisio ar y bartneriaeth strategol effeithiol sydd eisoes ar waith rhwng WEFO a chydweithwyr iechyd Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, dywedwyd bod yr hyblygrwydd a'r eglurder a gynigir gan y CE wrth egluro pa gostau fyddai'n gymwys a sut y dylai hyn ddigwydd yn hanfodol.

3.25 O safbwynt gweithredol, ystyriwyd bod cadw'r gweithrediad yn 'syml' gyda nodau ac amcanion clir yn bwysig o ran sicrhau ei fod yn llwyddiannus, yn ogystal â chael yr adnoddau a'r sgiliau staff cywir ar waith.

3.26 Ar ben hynny, roedd natur ôl-weithredol y broses o ddarparu cyllid hefyd yn golygu nad oedd yn rhaid i staff byrddau iechyd ddarparu data rhifiadol ar PPE a staff ar adeg fwyaf heriol y pandemig. Roedd hyn yn golygu y gellid casglu data mwy cyson a chywir ar ôl caffael neu recriwtio.

> *'Rôl y comisiwn... Eglurder ac arweiniad a hyblygrwydd a chyflymder, rhanddeiliaid yn cytuno gyda ni a ddim yn gwrthwynebu ac yna'r timau o fewn y llywodraeth yn gweithio mewn ffordd glir ac adeiladol, ond yn herio ei gilydd hefyd.'* (Cyfwelai WEFO)

**Allbynnau**

3.27 Llwyddodd y gwaith i gyflawni ei brif allbynnau: prynwyd mwy o gyfarpar diogelu personol a chynyddwyd capasiti staff yn y sector iechyd, yn unol â'r targedau rhifol a ddangosir isod. Roedd y niferoedd a ragwelwyd yn cyfateb yn weddol agos i'r targedau neu'n rhagori arnynt.

3.28 Roedd y targedau rhifol hefyd yn adlewyrchu'n bennaf lefel y prynu neu'r recriwtio a ariannwyd yn y pen draw, a dywedodd rhanddeiliaid strategol nad yw bob amser yn cael ei weld yng nghyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, lle mae tanwariant yn gyffredin. Yn wir, roedd un cyfranogwr yn teimlo bod gallu Cymru i ddefnyddio bron i 100 y cant o'i ddyraniad ESF ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ganlyniad anfwriadol i'r gweithrediad hwn, ac yn rhywbeth na fyddai'n debygol o fod wedi digwydd heb y pandemig. Mae nifer yr eitemau sydd wedi'u datgan mewn hawliadau i WEFO hyd

yma yn 299 miliwn ond gall y nifer hwn gynyddu ymhellach erbyn yr hawliad terfynol.

**Tabl 3.1: Targedau Allbwn a'r Gweithrediad a wnaethpwyd hyd yma (WEFO, 31/7/2023)**

| Amcan | Allbynnau | Targedau | Wedi'i gyflawni hyd yma |
|---|---|---|---|
| Gwella mynediad at wasanaethau iechyd a chymdeithasol (SO6.1) | Nifer y staff iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol a recriwtiwyd | 2,400 WWV*<br>1,800 EW** | 2,584 WWV<br>1,391 EW |
| | Gwerth y cyfarpar diogelu personol a brynwyd (cyfanswm y gost gyhoeddus) | €39.0m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>€30.0m Dwyrain Cymru | €69.4m WWV<br>€55.9m EW |
| | Cyfarpar diogelu personol (PPE) (gan gynnwys masgiau tafladwy, cyfarpar diogelu'r llygaid, gorchuddion ac ati) (eitemau) | 36m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>27m Dwyrain Cymru | 165m Gorllewin Cymru a'r Cymoedd<br>134m Dwyrain Cymru |
| | Nifer yr endidau a gefnogir i frwydro yn erbyn effeithiau pandemig Covid-19 a'u gwrthweithio. | 7 WWV<br>6 EW | 8 WWV<br>7 EW |

*Gorllewin Cymru a'r Cymoedd **Dwyrain Cymru

### Allbwn: Caffael PPE

3.29 Un mater allweddol ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y gwariant o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yw ei fod yn cael ei wneud yn ôl-weithredol. Digwyddodd gwariant ar PPE yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 ac yna cafodd ei ariannu'n ôl-weithredol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

3.30 Mae hefyd yn bwysig nodi bod Archwilio Cymru eisoes wedi cwblhau adolygiad llawn o'r gwariant ar PPE ledled Cymru yn 2020/21[24]. Mae hyn yn darparu adolygiad manwl o'r broses ar lefel genedlaethol. Mae'r cyfarpar diogelu personol a brynir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn is-elfen o'r gwariant hwn. Felly, nid oes angen ystyried yn fanwl effeithiolrwydd y gwariant ar ESF yn 2020/21 oherwydd ei fod yn ddyraniad ôl-weithredol o wariant ar PPE sydd eisoes wedi cael ei ystyried gan Archwilio Cymru.

3.31 Felly, at ddibenion y gwerthusiad hwn, byddwn yn defnyddio'r data a'r dogfennau sydd ar gael (y cynlluniau busnes gweithredol yn benodol) i adolygu'r gwariant o'r ESF ar PPE a'i roi yng nghyd-destun cyfanswm caffael PPE yng Nghymru. Byddwn hefyd yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd o astudiaeth Archwilio Cymru ac yn cymharu hyn â'r Archwiliadau o gaffael PPE ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

*Datblygu proses ar gyfer caffael cyfarpar diogelu personol*

3.32 Cyn pandemig Covid-19, roedd cynlluniau hirdymor ar gyfer pandemig ffliw yn y DU, y cytunwyd arno gan bob un o bedair gwlad y DU. Yn ogystal â meddyginiaethau a gwrthfesurau eraill, roedd gan y Rhaglen Paratoi ar gyfer Ffliw Pandemig stoc o PPE, yn seiliedig ar yr amcangyfrif o'r angen am bandemig ffliw. Fodd bynnag, nid oedd rhai eitemau – menig a ffedogau yn benodol – yn para cyhyd ag y bo angen wrth ymateb i bandemig Covid-19. Ar ben hynny, ni chafodd gynau llawfeddygol eu cadw yn y pentyrrau stoc, ac roedd y rhain yn hanfodol ar gyfer staff ysbyty a oedd yn trin cleifion Covid-19.

3.33 Felly, ar ddechrau'r pandemig, cydnabuwyd yn gyflym bod y cyflenwadau PPE a'r lefelau stoc oedd yn cael eu cadw yng Nghymru yn annigonol ar gyfer yr ymateb oedd ei angen yn erbyn Covid-19. Nid oedd hyn yn unigryw i Gymru, gyda llawer o wledydd yn cystadlu i brynu cyfarpar diogelu personol o bob cwr o'r byd. Roedd tystiolaeth empirig glir hefyd o'r angen i gael a dosbarthu cyfarpar diogelu personol addas i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol o'r dechrau. Rhwng 9 Mawrth 2020 a 27 Medi 2020 (pan oedd y flaenoriaeth fuddsoddi hon yn cael ei chwblhau) roedd ychydig o dan 356 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol eisoes wedi cael eu rhoi gan PCGC i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Erbyn

[24] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)

2021, roedd y ffigur hwn wedi codi i dros biliwn[25]. Roedd hefyd yn amlwg, cyn belled ag y byddai pandemig Covid-19 yn parhau, y byddai angen sylweddol am gyfarpar diogelu personol ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

3.34 Ym mis Mawrth 2020, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Nodyn Polisi Caffael Swyddfa Cabinet y DU 01/2020[26]. Roedd hyn yn caniatáu caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith heb gystadleuaeth na hysbysebu ar yr amod bod rhesymau dilys dros fod yn eithriadol o frys. Yr argyfwng iechyd oedd yr angen am frys mawr.

3.35 Er mwyn cyflawni'n gyflym, defnyddiwyd PCGC i gaffael a dyrannu cyfarpar diogelu personol ar gyfer y prosiect, yn hytrach na dyblygu prosesau neu greu endid newydd. Ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i'r pandemig ar y cyd, gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn chwarae rôl ehangach o ran cyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r GIG ehangach, gan gynnwys contractwyr annibynnol mewn gofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac optometryddion). Gweithiodd PCGC yn agos gyda CLlLC ac awdurdodau lleol i ddeall y galw am ofal cymdeithasol, ac ymgymerodd â rôl fwy o ran darparu cyfarpar diogelu personol iddynt drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. I ddechrau, cynhaliwyd cyfarfodydd dyddiol i drafod lefelau stoc, galw, caffael a dosbarthu cyflenwadau. Cafodd y cyfarfodydd rheolaidd eu lleihau wrth i'r don gyntaf ddod i ben. Penderfynwyd mai'r ymateb cydgysylltiedig hwn oedd yr un mwyaf priodol gan ei fod yn caniatáu i staff ac adnoddau gael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ar adeg pan oeddent o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig ac wrth i'r cyflenwad o gyfarpar diogelu personol gynyddu'n fawr ar draws y byd.

3.36 Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r NWSSP i brynu PPE. Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda chenhedloedd eraill y DU, gan gynnwys darparu cymorth ar y cyd ar gyfer PPE. Ar adegau, defnyddiodd Cymru gymorth ar y cyd gan wledydd eraill ond, yn y pen draw, rhannodd fwy o gyfarpar diogelu personol na'r hyn a gafodd.

3.37 Roedd y gwaith brys a wnaethpwyd mewn ymateb i'r pandemig yn caniatáu cyflenwadau cadarn a diogel o gyfarpar diogelu personol ledled Cymru ac mae data'n dangos nad oedd stociau wedi dod i ben. Ers yr ymateb cychwynnol, helpodd y prosiect i ddatblygu stoc warchod ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau PPE (Noda

[25] Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2020-21
[26] Nodyn Polisi Caffael 01-20 (publishing.service.gov.uk)

Archwilio Cymru "mae'r system iechyd a gofal bellach mewn sefyllfa llawer gwell, gyda stociau gwarchod o'r rhan fwyaf o eitemau PPE yn eu lle ac archebion yn ddyledus ar eitemau allweddol lle mae'r stociau'n is na'r targed")[27]. Parhaodd y gwaith o fonitro stoc PPE yn agos gydag o leiaf 24 wythnos o gyflenwad ar 30 Mehefin 2021, a gafodd ei leihau i 16 wythnos fel yr amlinellir yn Strategaeth PPE Tymor Hir Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Medi 2021).

3.38 Yn nyddiau cynnar y pandemig, cyflwynodd llawer o sefydliadau gynigion i gyflenwi cyfarpar diogelu personol. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru[28] i gasglu ac adolygu cyflwyniadau gan gyflenwyr sydd eisiau gwerthu cyfarpar diogelu personol a chynnyrch a gwasanaethau eraill. Roedd yr adolygiadau hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion ansawdd a rhai gwiriadau busnes safonol. Anfonwyd cynigion cymwys o gynnyrch ymlaen i'r Cydwasanaethau i symud cynigion ymlaen i'r broses gaffael.

3.39 Profodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rhan o PCGC, ansawdd y cyfarpar diogelu personol a chanfod unrhyw ardystiad twyllodrus. Ar wahân i enghraifft ynysig o fenig wedi'u cam-labelu, ni welodd Archwilio Cymru unrhyw dystiolaeth o enghreifftiau, fel y rhai a ddisgrifiwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr, lle nad oedd cyfarpar diogelu personol a brynwyd yn ganolog yn cael ei ystyried yn addas i'r diben, "*gan wastraffu cannoedd o filiynau o bunnoedd*".

3.40 Ar nodyn cysylltiedig, canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn Lloegr, y bu gostyngiad o £6 biliwn yng ngwerth eitemau a brynwyd mewn ymateb i'r pandemig yn 2021/22. Roedd y rhain yn cynnwys gostyngiad o £2.5 biliwn ar eitemau[29] a oedd yn costio £11.2 biliwn a oedd eisoes wedi cael eu prynu, ond nid oes disgwyl y byddant yn cael eu defnyddio mwyach, neu y mae pris y farchnad bellach yn is na'r pris a dalwyd; a gostyngiad o £3.5 biliwn ar PPE, brechlynnau a meddyginiaethau y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ymrwymo i'w prynu, ond nad yw bellach yn disgwyl eu defnyddio. Roedd £8.9 biliwn arall wedi gostwng yn ei gyfrifon

[27] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)
[28] Corff hyd braich o Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi arloesedd a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd.
[29] Gwerth wedi gostwng yw gwerth ased ar ôl ystyried dibrisiant. Mae'n adlewyrchu gwerth presennol adnodd yn hytrach na'r swm a dalwyd amdano.

2020-21, felly dros ddwy flynedd ariannol, adroddwyd bod cyfanswm o £14.9 biliwn o ostyngiad yn gysylltiedig â chyfarpar diogelu personol ac eitemau eraill.

3.41 O ran y broses gaffael yng Nghymru, er iddi gael ei chyflymu, glynwyd at fesurau llywodraethu da ac mae canfyddiadau Archwilio Cymru yn dystiolaeth o hyn yn ei adroddiad[30] ar y broses gaffael ar gyfer y cyfarpar diogelu personol yng Nghymru, sy'n cymeradwyo'r dull a ddefnyddiwyd. Yn wir, nododd Archwilio Cymru;

> *'Datblygodd y Cydwasanaethau drefniadau da i brynu cyfarpar diogelu personol yn gyflym, gan gydbwyso'r angen brys i gael cyflenwadau ar gyfer staff rheng flaen â'r angen i reoli risgiau llywodraethu ariannol sylweddol mewn maes lle mae gwariant yn tyfu'n gyflym. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys delio â chyflenwyr newydd, gorfod gwneud taliadau mawr ymlaen llaw a chael cynnig symiau sylweddol o offer twyllodrus ac o ansawdd gwael. Roedd pwysau amser yn golygu na ellid cynnal diwydrwydd dyladwy bob amser i'r lefel y byddai'n ei wneud y tu allan i bandemig mewn proses dendro gystadleuol arferol. Ond, ar gyfer pob contract a adolygwyd gennym, gwelsom dystiolaeth o wiriadau diwydrwydd dyladwy allweddol. Ac er bod costau'n gyffredinol yn uwch na chyn y pandemig, gwelsom dystiolaeth o'r Cydwasanaethau'n negodi prisiau is'.*

3.42 Gyda golwg benodol ar daliadau ymlaen llaw, ac ystyried y risgiau ariannol o gaffael cyfarpar diogelu personol ar frys mewn marchnad dameidiog a chystadleuol iawn, sefydlodd PCGC Grŵp Llywodraethu Cyllid traws-broffesiynol (FGG) ar ddechrau mis Ebrill 2020 i reoli'r risgiau hyn ar yr un pryd â galluogi gwneud penderfyniadau cyflym. Wrth gwrs, roedd yr FGG yn monitro archebion a oedd yn cynnwys taliadau ymlaen llaw i sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu derbyn. Roedd naw archeb wedi gwneud taliadau ymlaen llaw drwy gyfrif 'ysgrow', dull a ddefnyddir ar gyfer contractau mawr neu gyflenwyr risg uwch newydd a oedd yn golygu eu bod yn gallu gweld bod y cyllid yn ei le ond nad oedd modd ei ddefnyddio nes bod y nwyddau'n cael eu derbyn a'u gwirio. Ar ben hynny, er bod y costau'n uwch na chyn y pandemig ar y cyfan, gwelodd Archwilio Cymru dystiolaeth bod y Cydwasanaethau yn negodi prisiau ac yn osgoi costau drwy negodi cludo nwyddau cyfarpar diogelu personol dros y môr yn hytrach na drwy'r awyr ar gyfer rhai archebion.

[30] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)

3.43 Nid oes sôn am drefniadau ysgrow yn Lloegr, nac yn yr Alban lle'r oedd NHS National Services Scotland (NSS y GIG), hyd at fis Mawrth 2021, wedi talu bron i £135 miliwn ymlaen llaw, gyda £6.6 miliwn o archebion yn dal yn ddyledus erbyn mis Gorffennaf 2021. Roedd NSS y GIG yn rheoli'r risg hon drwy brosesau caffael arferol ac yn adrodd i fwrdd llywodraethu a rhaglen gaffael cenedlaethol.

3.44 Yng Ngogledd Iwerddon, roedd yr angen brys am offer yn golygu bod Gwasanaeth Caffael a Logisteg y Sefydliad Gwasanaethau Busnes (BSO PaLS) wedi gosod archebion gyda chwe chyflenwr 'risg uchel' ond wedi gwneud hynny heb fod angen unrhyw gymeradwyaeth fewnol ychwanegol. Roedd archwiliadau hefyd yn nodi risgiau eraill sy'n ymwneud â sawl rhagdaliad i'r un cyflenwyr ac asesiadau risg annigonol o gyflenwyr sy'n gofyn am ragdaliadau. Arweiniodd taliadau ymlaen llaw at un cyflenwr (a nodwyd fel risg uchel cyn llofnodi contract) yn derbyn £0.88 miliwn o ragdaliad a methu darparu archeb am 2.5 miliwn o fasgiau Math IIR[31].

3.45 Er bod Archwilio Cymru yn ymwneud â chael gafael ar gyfarpar diogelu personol yn fyd-eang ac ymateb i weithgynhyrchwyr lleol a gweithio gyda nhw, nid oedd yn gweld unrhyw dystiolaeth bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarpar gyflenwyr yn dibynnu ar bwy wnaeth eu cyfeirio (h.y. drwy'r dull 'ffordd flaenoriaeth uchel' dau drac o ganfod cyflenwyr posibl yn wahanol i'r sefyllfa a ddisgrifiwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr[32]. Yn yr un modd, ni chanfu Audit Scotland unrhyw dystiolaeth o atgyfeiriadau blaenoriaeth yn ei adolygiad o'r prosesau a sefydlwyd gan NSS y GIG[33], ac ni wnaeth Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon hynny ychwaith mewn adolygiad o Wasanaeth Caffael a Logisteg y Sefydliad Gwasanaethau Busnes (BSO PaLS[34].

3.46 Ar ben hynny, ni chafwyd hyd i faterion eraill a nodwyd yn Lloegr yng Nghymru, er enghraifft; roedd rhai prosesau caffael yn cael eu cynnal cyn rhoi'r holl ddulliau rheoli allweddol ar waith, dogfennau annigonol ynghylch sut roedd risgiau caffael cyflenwyr heb gystadleuaeth wedi cael eu lliniaru, llwybrau archwilio aneglur i gefnogi penderfyniadau caffael allweddol, a dogfennau annigonol ar benderfyniadau allweddol.

[31] Masgiau wyneb meddygol wedi'u gwneud o bedair haen sy'n atal gronynnau mawr rhag cyrraedd y claf neu arwynebau gweithio.
[32] Cyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19 (nao.org.uk)
[33] Darparu gwasanaethau a chyngor i'r GIG a'r sector cyhoeddus ehangach yn yr Alban.
[34] Darparu gwasanaethau caffael a logisteg proffesiynol i'r holl sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon (GI).

3.47 Yn yr un modd, nododd Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon faterion caffael[35], yn enwedig yng nghyswllt asesiadau risg a dogfennau annigonol, diffyg cymeradwyaeth fewnol yn cael ei cheisio ar gyfer trafodion ‘peryglus’, rhagdaliadau ar gyfer archebion mawr, a diffyg mesurau diogelu ychwanegol i nodi a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer contractau heb eu tendro. Ni nodwyd dim un o’r materion hyn yng Nghymru.

3.48 Fodd bynnag, dywedwyd nad oedd llawer o’r contractau a ddyfarnwyd yn Lloegr yn cael eu cyhoeddi’n brydlon[36] a nodwyd yr un peth gan Archwilio Cymru: “Doedd y Cydwasanaethau ddim yn bodloni’r gofynion o dan reolau caffael brys i gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau o fewn 30 diwrnod”[37]. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod angen i staff flaenoriaethu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol a pheidio â gallu blaenoriaethu cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau. Profwyd problemau tebyg yn yr Alban ac, i raddau llai, Gogledd Iwerddon, eto oherwydd y galw digynsail ar dimau caffael.

*Gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol*

3.49 Canfu Archwilio Cymru fod 630 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol wedi cael eu cyhoeddi gan PCGC rhwng 9 Mawrth 2020 a 7 Chwefror 2021. Gwariwyd dros £300 miliwn ar Gyfarpar Diogelu Personol i Gymru yn ystod 2020-21. Mae hyn yn cymharu â gwariant arferol o tua £8 miliwn ar PPE cyn y pandemig yng Nghymru[38].

3.50 Mae Tabl 3.2 yn nodi lle dyrannwyd cyllideb Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae hyn yn dangos bod cyllideb Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi prynu dros 350 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol, sy’n cynrychioli dros hanner y cyfanswm a brynwyd ledled Cymru, ac wedi cyfrif am wariant o dros £110 miliwn, neu dros draean o gyfanswm y gwariant. Mae hyn yn fwy na’r swm a ragwelwyd ac a amlinellir yn y Ddamcaniaeth Newid.

[35] The Covid 19 Pandemic Supply and Procurement of PPE - Adroddiad | Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (niauditoffice.gov.uk)
[36] Cyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19 (nao.org.uk)
[37] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)
[38] Ni roddir dyddiad penodol fel cymharydd.

**Tabl 3.2: Prynu Cyfarpar Diogelu Personol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)[39]**

| Cwmni | Cynnyrch | Nifer | Gwerth |
|---|---|---:|---:|
| Cwmni 1 | Masgiau Math IIR | 34684000 | £16,301,480 |
| Cwmni 2 | Gynau Gwrthsefyll Hylif | 3000100 | £6,019,355 |
| Cwmni 3 | Masgiau Math IIR | 39936100 | £12,779,552 |
| Cwmni 4 | Masgiau Math IIR | 17023200 | £10,213,920 |
| Cwmni 4 | Menyg | 108000000 | £26,972,000 |
| Cwmni 3 | Menyg | 144000000 | £19,440,000 |
| Cwmni 5 | Feisorau | 3775000 | £15,550,000 |
| Cwmni 6 | Feisorau | 2068250 | £2,966,470 |
| CYFANSWM | | **352486650** | **£110,242,777** |

*Profiadau rhanddeiliaid o gaffael cyfarpar diogelu personol*

3.51 Oherwydd nifer cyfyngedig y cyfweliadau a gynhaliwyd, fel y nodwyd ym mhennod methodoleg yr adroddiad hwn, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o'r cyfweliadau manwl sy'n cofnodi'r broses weithredol a gymerwyd gan fyrddau iechyd unigol i gaffael cyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig.

3.52 Dywedodd un rhanddeiliad o Lywodraeth Cymru a oedd yn rhan o dîm a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod ansawdd a swm y cyfarpar diogelu personol sy'n cael ei gaffael ledled Cymru yn ddigonol, wedi'i ddosbarthu i'r 'lle iawn ar yr adeg iawn', a bod y cadwyni cyflenwi'n briodol, ei bod yn weithred gydbwyso sensitif a oedd yn cynnwys nifer o ffactorau.

> *'Mae gwahanol fathau o gyfarpar diogelu personol ac roedd trafodaethau ynghylch a ddylid dewis 'mwy o gyfarpar diogelu personol', ond roedd y gadwyn gyflenwi yn wannach... Dyna'r mathau o heriau roeddwn i'n delio â nhw.'* (Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)

3.53 Dywedwyd bod rôl PCGC yn rhoi hyder i Lywodraeth Cymru bod trywydd archwilio clir o ran ansawdd y cyfarpar diogelu personol a bod y prosesau cywir ar waith i ddosbarthu cyfarpar yn briodol.

[39] Nid yw enwau cwmnïau wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd sensitifrwydd masnachol

3.54 Roedd rhanddeiliad arall a oedd â rôl strategol ar y pryd yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn teimlo mai'r prif bryder oedd prinder cyfarpar diogelu personol yn y sector gofal cymdeithasol, gan fod darparwyr iechyd wedi cael blaenoriaeth. Buont hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector i ddatrys problemau o ran cael gwared ar gyfarpar diogelu personol.

3.55 Dywedodd darparwr addysg uwch, er bod eu timau caffael wedi dod o hyd i gyfarpar diogelu personol ar gyfer y sefydliad, eu bod wedi gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddod o hyd i'r un cyfarpar diogelu personol sy'n cael ei ddefnyddio yn y gwasanaeth iechyd ar gyfer unrhyw ddarlithoedd sgiliau clinigol. Roeddent am baratoi myfyrwyr ac efelychu'r profiad y byddent yn ei gael yn y GIG mor agos â phosibl.

> *'Hyd yn oed pan oedd myfyrwyr yn ein labordai sgiliau clinigol ar gampws y brifysgol, p'un ai a oedden nhw'n cymryd rhan mewn gofal cleifion efelychiadol, byddent yn gwisgo'r un amddiffyniad â'r hyn y dywedodd y canllawiau y byddai eu hangen arnynt petaech ym maes ymarfer clinigol.'* (Rhanddeiliad addysg uwch)

**Allbynnau: recriwtio staff**

3.56 Cydnabuwyd yn gynnar yn 2020 y byddai pandemig COVID-19 yn rhoi straen digynsail ar staff iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Roedd angen cynyddu lefelau staffio i ddelio â'r galw ychwanegol ac i liniaru yn erbyn y nifer sylweddol o staff na fyddent yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch neu hunanynysu, roedd angen staff ar gyfer meysydd eraill fel canolfannau profi Covid-19 ac ati. Nod yr elfen hon o'r gwaith oedd gwella capasiti yn ystod yr argyfwng COVID 19 drwy staff dros dro ychwanegol.

3.57 Cynhaliwyd y broses ar gyfer recriwtio a phenodi staff newydd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Prifysgolion, Byrddau Iechyd a rheoleiddwyr proffesiynol Gofal Iechyd y DU. Roedd y saith Bwrdd Iechyd Lleol[40] yng Nghymru wedi penderfynu sut roedd staff, a recriwtiwyd mewn ymateb i'r pandemig, yn cael eu dyrannu yn eu sefydliadau. Buont yn gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i roi hyn ar waith. Roedd ganddynt hefyd eu pwerau eu hunain i

[40] Ymddiriedolaethau a byrddau iechyd GIG Cymru - LLYW.CYMRU

recriwtio, adleoli a chyflogi staff banc/asiantaeth i fynd i'r afael â phrinder mewn ysbytai.

3.58 Cyflwynodd rheoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y DU newidiadau brys i safonau addysg hefyd er mwyn gallu lleoli myfyrwyr gofal iechyd. Ar ben hynny, ysgrifennodd y cyrff rheoleiddio at gofrestreion a oedd wedi rhoi'r gorau iddi fel rhan o'r ymgyrch i annog staff a oedd wedi gadael neu wedi ymddeol yn y tair blynedd diwethaf i ddychwelyd i'r gwaith (ar yr amod nad oedd achos addasrwydd i ymarfer yn eu herbyn). Cyhoeddwyd llythyrau gan gyrff rheoleiddio a chyhoeddwyd hysbysiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru ar 21 Mawrth 2020 i hyrwyddo'r ymgyrch recriwtio. Roedd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau hefyd wedi cysylltu'n uniongyrchol â chyn-weithwyr i'w hannog i ddychwelyd i'r gweithle a helpu i fynd i'r afael â'r pandemig. Cafodd yr holl staff a recriwtiwyd eu penodi drwy brosesau recriwtio'r Bwrdd Iechyd ac roedd cyflogau'n cael eu talu drwy systemau talu arferol y Bwrdd Iechyd.

3.59 Pennwyd targedau lefel blaenoriaeth ar gyfer recriwtio staff dros dro ychwanegol ar 2,400 yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 1,800 yn Nwyrain Cymru. Defnyddiwyd y capasiti cynyddol mewn amrywiaeth o leoliadau a chyd-destunau gan gynnwys y gwasanaethau ambiwlans, ysbytai a gwasanaethau gofal dwys, lleoliadau gofal a gwasanaethau i gefnogi adferiad tymor hwy cleifion Covid-19. Cafodd y rhain hefyd eu hymestyn i wasanaethau newydd a gyflwynwyd mewn ymateb i Covid-19, gan gynnwys 'gwasanaethau profi, olrhain a diogelu' ac ysbytai maes dros dro.

*Recriwtio staff: myfyrwyr*

3.60 Roedd y newidiadau a gyflwynwyd gan reoleiddwyr proffesiynol gofal iechyd y DU ar gofrestru gweithwyr iechyd proffesiynol mewn argyfwng yn cynnwys newidiadau i safonau addysg er mwyn gallu lleoli myfyrwyr gofal iechyd a staff sydd wedi ymddeol. Cyflwynodd y newidiadau set o safonau brys a fyddai'n galluogi myfyrwyr nyrsio a bydwragedd yn eu blwyddyn olaf i gwblhau chwe mis olaf eu rhaglen mewn lleoliadau priodol. Gwnaethpwyd newidiadau hefyd i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr iau (h.y. ail flwyddyn) yn gallu cael eu defnyddio'n briodol a'u cefnogi'n ddigonol yn ystod y cyfnod hwn.

3.61 Gwnaethpwyd gwaith gyda phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe ar leoli myfyrwyr meddygol drwy ofyn i fyfyrwyr blwyddyn olaf ymgymryd â gwaith yn y GIG. Roedd

myfyrwyr meddygol yn gallu ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau nad oedd angen cofrestru ar eu cyfer.

3.62 Yn yr un modd, cafodd myfyrwyr parafeddygol a oedd wedi cwblhau eu gofynion clinigol yn llwyddiannus eu hychwanegu at y gofrestr HCPC dros dro i'w defnyddio fel parafeddygon. Cytunodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Phrifysgol Abertawe i gyflymu'r broses o leoli parafeddygon myfyrwyr nad oeddent yn gymwys i gofrestru.

3.63 Cofrestrodd yr HCPC dros dro yr holl fyfyrwyr blwyddyn olaf Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP) a Gwyddor Gofal Iechyd (HCS) a oedd wedi cwblhau eu holl ofynion clinigol yn llwyddiannus. Gohiriwyd cwblhau elfennau academaidd y rhaglen yn derfynol. Cytunwyd ar gynlluniau manwl ar gyfer hyn gydag AaGIC a'r prifysgolion.

*Recriwtio staff: gweithwyr sy'n dychwelyd*

3.64 Gofynnwyd i gyn-aelodau o staff a oedd wedi gadael neu wedi ymddeol yn ystod y tair blynedd flaenorol ailgofrestru gyda'u cyrff proffesiynol. Fel rhan o'r broses, gofynnwyd iddynt pa rôl y gallent ei chwarae a faint o amser y gallent ei neilltuo. Roedd cofrestrau proffesiynol ar gyfer staff sy'n dychwelyd yn manylu ar yr ystod o rolau clinigol ac anghlinigol sydd ar gael ar draws y GIG a gofal cymdeithasol. Cyhoeddwyd llythyrau gan gyrff rheoleiddio a chyhoeddwyd hysbysiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru ar 21 Mawrth 2020 i hyrwyddo'r ymgyrch recriwtio. Roedd ymddiriedolaethau a byrddau iechyd hefyd wedi cysylltu'n uniongyrchol â chyn-weithwyr. Penderfynwyd yn lleol ar nifer y staff a recriwtiwyd i'r byrddau iechyd a sut y defnyddiwyd yr adnodd.

3.65 Y proffesiynau a dargedwyd oedd meddygon, nyrsys, bydwragedd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd, fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Yn ogystal ag ystod lawn o rolau clinigol ac uniongyrchol i gleifion, roedd cyfleoedd hefyd mewn rolau nad ydynt yn ymwneud â chleifion, fel 111.

*Recriwtio staff: gwirfoddolwyr*

3.66 Gwnaethpwyd gwaith hefyd ar draws grwpiau Llywodraeth Cymru i wneud y defnydd gorau o grwpiau gwirfoddolwyr a gwirfoddolwyr unigol.

*Gwariant ar recriwtio staff y GIG*

3.67 Ar gyfer elfen hon y gwerthusiad, rydym wedi cynnal dadansoddiad ôl-weithredol o'r gwariant a ddyrannwyd i recriwtio i'r GIG yn ystod Covid-19. Cafodd cyfanswm o £64,753,095.60 ei wario drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar staffio'r GIG. Roedd y swm hwn yn talu cyflogau'r staff a oedd yn cael eu cyflogi ond nid oedd yn talu am set ehangach o gostau fel hysbysebu'r swyddi, y broses gyflogi, ac unrhyw gostau gweinyddol eraill.

**Dadansoddiad o ddata Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar recriwtio staff a ariennir gan weithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop**

3.68 Nod cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop oedd talu costau cyflogi staff y GIG yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Chwefror 2022. Gyda'i gilydd, talodd cronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop gostau 3,965 o staff yn y pen draw. Y gost gyfartalog fesul aelod o staff a recriwtiwyd oedd £16,331. Nid yw hyn yn cynrychioli'r cyflog blynyddol cyfartalog oherwydd bod 88 y cant o'r rhai a recriwtiwyd ar gontractau cyfnod penodol, llawer am lai na blwyddyn.

**Tabl 3.3: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Math o Gontract (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Math o Gontract | Nifer y Gweithwyr | Canran o'r cyfanswm |
|---|---:|---:|
| Cyfnod Penodol Dros Dro | 3491 | 88% |
| Parhaol | 474 | 12% |
| Cyfanswm | 3965 | |

3.69 Dengys Tabl 3.4 fod 57 y cant o'r rhai a recriwtiwyd ar gontractau rhan-amser. Byddai'r math hwn o gontract wedi bod yn addas i lawer o weithwyr a oedd naill ai wedi ymddeol, neu a oedd â chyfrifoldebau gofalu.

**Tabl 3.4: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid ESF yn ôl Amser Llawn/Rhan-amser (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Amser llawn/rhan-amser | Nifer y Gweithwyr | Canran o'r cyfanswm |
|---|---:|---:|
| Llawn Amser | 1715 | 43% |
| Rhan amser | 2250 | 57% |
| Cyfanswm | 3965 | |

3.70 Mae Tabl 3.5 yn dangos bod 83 y cant o'r swyddi a recriwtiwyd iddynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol ag ymateb Covid-19, a bod yr 17 y cant arall wedi'u cysylltu'n anuniongyrchol ag ef drwy ôl-lenwi swyddi a ddaeth yn wag o ganlyniad i ail-bwrpasu staff. Dylid cofio y bydd nifer sylweddol o swyddi gwag a swyddi'n cael eu hysbysebu yn y GIG ar unrhyw adeg. Felly, byddai angen llenwi nifer o swyddi gwag nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pandemig.

**Tabl 3.5: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl rôl sy'n gysylltiedig â Covid/nad yw'n gysylltiedig â Covid (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Rôl sy'n gysylltiedig â Covid/nad yw'n gysylltiedig â Covid | Nifer y Gweithwyr | Canran o'r cyfanswm |
|---|---:|---:|
| Rôl sy'n gysylltiedig â Covid | 3276 | 83% |
| Rôl nad yw'n gysylltiedig â Covid | 689 | 17% |
| Cyfanswm | 3965 | |

3.71 Dosbarthwyd arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i bob bwrdd iechyd ledled Cymru, gyda nifer fach o weithwyr hefyd yn cael eu recriwtio i Iechyd Cyhoeddus Cymru canolog. Mae Tabl 3.6 yn dangos bod Byrddau Iechyd Hywel Dda, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf wedi recriwtio'r rhan fwyaf o weithwyr drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Roedd y broses recriwtio'n canolbwyntio'n anghymesur ar Hywel Dda, sy'n

cyflogi tua 11 y cant o staff y GIG yng Nghymru, a Chaerdydd a'r Fro sy'n cyflogi tua 15 y cant o staff y GIG. Y bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru yw Betsi Cadwaladr sy'n cyflogi tua 19 y cant o staff y GIG[41].

**Tabl 3.6: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan y Bwrdd Iechyd (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Bwrdd Iechyd | Nifer y Gweithwyr | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 379 | 10% |
| Betsi Cadwaladr | 394 | 10% |
| Caerdydd a'r Fro | 854 | 22% |
| Cwm Taf | 654 | 16% |
| Hywel Dda | 1029 | 26% |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | 140 | 4% |
| Powys | 145 | 4% |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 7 | 0% |
| Bae Abertawe | 347 | 9% |
| Felindre | 16 | 0% |
| Cyfanswm | 3965 | |

3.72 Mae Tabl 3.7 yn dangos y mathau o swyddi a recriwtiwyd drwy gyllid ESF. Roedd tua hanner y swyddi a lenwyd ym maes gwasanaethau clinigol, meddygol a deintyddol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r swyddi eraill ym maes gwasanaethau gweinyddol ac ystadau. Ni fyddai llawer o'r gweithwyr hyn wedi bod yn rhan o'r ymateb uniongyrchol i Covid-19, ond byddent wedi cefnogi'r staff meddygol yn eu gwaith. Mae hefyd yn werth nodi bod 544 o fyfyrwyr wedi cael eu cyflogi. Myfyrwyr meddygol a nyrsio oedd y rhain yn bennaf a recriwtiwyd yn gynharach yn eu hastudiaethau nag sy'n nodweddiadol ac a gafodd fwy o swyddi rheng flaen.

[41] Gan mai dim ond ers mis Rhagfyr 2022 yr adroddwyd am nifer yr absenoldebau staff mewn byrddau iechyd, ac oherwydd anawsterau wrth recriwtio cynrychiolwyr byrddau iechyd ar gyfer cyfweliadau manwl, nid ydym yn gallu rhoi esboniad ar hyn o bryd pam bod y broses recriwtio'n canolbwyntio'n anghymesur ar Fwrdd Iechyd Hywel Dda.

**Tabl 3.7: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Math o Waith (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Math o Waith | **Nifer y Gweithwyr** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---:|---:|
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol Ychwanegol | 12 | 0% |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | 1190 | 30% |
| Gweinyddol a Chlercyddol | 746 | 19% |
| Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 29 | 1% |
| Ystadau a Chymorth | 448 | 11% |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | 10 | 0% |
| Meddygol a Deintyddol | 619 | 16% |
| Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig | 367 | 9% |
| Myfyrwyr | 544 | 14% |
| Cyfanswm | 3965 | |

3.73 Mae Tabl 3.8 dros y dudalen yn dangos bod 30 y cant o holl gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cael ei ddyrannu i weithwyr a ddechreuodd weithio ym mis Ebrill 2020. Roedd hwn yn amlwg yn gyfnod pan oedd yr angen mwyaf dybryd am staff y GIG yn dod i'r amlwg. Digwyddodd swp sylweddol arall o recriwtio ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021 pan oedd ail don Covid-19 ar ei huchaf.

**Tabl 3.8: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Dyddiad Dechrau'r Contract (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Dyddiad Dechrau'r Contract | **Nifer y Gweithwyr** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---:|---:|
| Ebrill 2020 | 1189 | 30% |
| Mai 2020 | 253 | 6% |
| Mehefin 2020 | 386 | 10% |
| Gorffennaf 2020 | 84 | 2% |
| Awst 2020 | 32 | 1% |
| Medi 2020 | 63 | 2% |
| Hydref 2020 | 67 | 2% |
| Tachwedd 2020 | 94 | 2% |
| Rhagfyr 2020 | 131 | 3% |
| Ionawr 2021 | 346 | 9% |
| Chwefror 2021 | 218 | 5% |
| Mawrth 2021 | 261 | 7% |
| Ebrill 2021 | 85 | 2% |
| Mai 2021 | 50 | 1% |
| Mehefin 2021 | 89 | 2% |
| Gorffennaf 2021 | 58 | 1% |
| Awst 2021 | 54 | 1% |
| Medi 2021 | 62 | 2% |
| Hydref 2021 | 81 | 2% |
| Tachwedd 2021 | 111 | 3% |
| Rhagfyr 2021 | 85 | 2% |
| Ionawr 2022 | 127 | 3% |
| Chwefror 2022 | 39 | 1% |
| Cyfanswm | 3965 | |

3.74 Mae Tabl 3.9 yn dangos bod 47 y cant o'r staff a recriwtiwyd yn dal i gael eu cyflogi ym mis Awst 2022. Dyma un o ganlyniadau pwysicaf yr ymarfer recriwtio. Fel y nodwyd uchod, mae gan y GIG bob amser nifer uchel o swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu ac mae gallu recriwtio a chadw staff ychwanegol drwy'r ymateb i Covid-19 yn gallu cael ei ystyried yn fantais hirdymor sylweddol o'r cyllid hwn.

**Tabl 3.9: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Dyddiad Gorffen y Contract (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| **Dal yn gyflogedig/Dyddiad Gorffen y Contract** | **Nifer y Gweithwyr** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---:|---:|
| Dal i gael ei gyflogi ym mis Awst 2022 | 1866 | 47% |
| Daeth y contract i ben rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020 | 1118 | 28% |
| Daeth y contract i ben rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021 | 693 | 18% |
| Daeth y contract i ben rhwng mis Ionawr a mis Awst 2022 | 288 | 7% |
| Cyfanswm | 3965 | 100% |

3.75 Mae Tabl 3.10 dros y dudalen yn dangos bod bron i 1,000 o staff wedi gadael eu swyddi ar ddiwedd eu contract cyfnod penodol. Felly, recriwtiwyd y staff hyn drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, fe wnaethant y gwaith y cawsant eu contractio i'w wneud, ac yna gadael eu rolau. Roedd tua 1,000 arall yn weddill o ganlyniad i ymddiswyddiad gwirfoddol, ond roedd hyn yn cynnwys rhai a aeth yn ôl i fyd addysg, neu a gafodd ddyrchafiad. Mae bob amser yn wir y bydd rhai gweithwyr yn gadael swyddi ac, yn achos yr ymateb i Covid-19, mae'r rhai sy'n gadael yn debygol o gynnwys staff sy'n rhoi'r gorau i'w hymddeoliad a myfyrwyr sy'n dychwelyd i addysg. Ychydig iawn o weithwyr a gafodd eu diswyddo, sy'n dangos nad oedd llawer o'r arian yn cael ei wario ar staff nad oeddent yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig o ran gwaith.

**Tabl 3.10: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Rheswm dros ddod â Chontract i ben (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Rheswm dros ddod â chontract i ben | Nifer y Gweithwyr | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Staff Banc heb gyflawni'r gofyniad gwaith sylfaenol | 14 | 1% |
| Diswyddo/Trosglwyddo | 18 | 1% |
| Diwedd Contract Cyfnod Penodol | 809 | 39% |
| Diwedd Contract Cyfnod Penodol – Cwblhau Cynllun Hyfforddi | 12 | 1% |
| Diwedd Contract Cyfnod Penodol – Gofyniad Diwedd Gwaith | 91 | 4% |
| Diwedd Contract Cyfnod Penodol - Arall | 52 | 2% |
| Heb Weithio | 7 | 0% |
| Oedran Ymddeol | 9 | 0% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol – Pecyn Gwobrwyo Gwell | 16 | 1% |
| Ymddiswyddo Gwirfoddol – Dibynyddion sy'n Blant | 13 | 1% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol - Iechyd | 27 | 1% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol – Diffyg Cyfleoedd | 10 | 0% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol - Arall/Ddim yn Hysbys | 699 | 33% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol - Dyrchafiad | 40 | 2% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol - Adleoli | 81 | 4% |
| Ymddiswyddiad Gwirfoddol – Ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant | 131 | 6% |
| Ymddiswyddo Gwirfoddol – Cydbwyso Bywyd a Gwaith | 70 | 3% |
| Isgyfanswm | 2099 | |

3.76 Dengys Tabl 3.11 fod 27 y cant o'r rhai a gyflogir drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi gadael eu swydd ar ôl llai na thri mis o gyflogaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, un o'r prif resymau bod gweithwyr yn gadael eu swydd oedd bod eu contract wedi dod i ben. Mae'n debygol hefyd y bydd y rhai a ymddiswyddodd yn

wirfoddol yn cael eu gorgynrychioli yn y cyfnodau byrrach o gyflogaeth gan y byddent wedi penderfynu nad oedd y gyflogaeth yn rhywbeth yr oeddent yn dymuno parhau ag ef.

**Tabl 3.11: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Hyd y Gyflogaeth (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Hyd y gyflogaeth | Nifer y Gweithwyr | Canran y cyfanswm a recriwtiwyd | Canran y cyfanswm gyda dyddiadau gorffen y contract |
|---|---|---|---|
| < = 3 mis | 1074 | 27% | 51% |
| >3-a <6 mis | 527 | 13% | 25% |
| >6-a <9 mis | 204 | 5% | 10% |
| >9-a <12 mis | 108 | 3% | 5% |
| >12-a <18 mis | 72 | 2% | 3% |
| >18-a <21 mis | 51 | 1% | 2% |
| >21-a <24 mis | 40 | 1% | 2% |
| >24-a <27 mis | 14 | 0%* | 1% |
| >27 mis a < 30 mis | 8 | 0%* | 0%* |
| >30 mis | 1 | 0%* | 0%* |
| Gwag (dim dyddiad gorffen contract) | 1866 | 47% | - |
| **Cyfansymiau** | **3965** | **100%** | |

*nid yw'r tabl hwn yn cynnwys pwyntiau degol.

*Profiadau rhanddeiliaid o recriwtio staff yn ystod y pandemig*

3.77 Rhannodd rhai rhanddeiliaid a gymerodd ran eu profiadau o recriwtio staff yn ystod y pandemig.

3.78 Dywedodd un fod tîm yn cael ei ddwyn ynghyd o weithlu cyfarwyddiaeth ei fwrdd iechyd, a bod hyfforddiant a datblygiad yn cael eu hatal er mwyn i hyn ddigwydd. Cafodd rhai eu hadleoli'n fewnol, tra bod eraill yn canolbwyntio ar yr ymgyrch recriwtio allanol. Roeddent hefyd yn dibynnu'n drwm ar PCGC i gael cymorth, er bod yn rhaid symleiddio'r prosesau er mwyn cwrdd â'r gofynion o ran amser.

> *'Ar y dechrau roedd yn gymysgedd o ddau wasanaeth mewnol a'r Cydwasanaethau. Wnaethon ni ddim anwybyddu popeth yn llwyr ond mae canfyddiad y gall y broses rhannu gwasanaethau fod yn araf ac roedd angen i ni recriwtio staff yn gyflym, felly i ddechrau roedden ni'n defnyddio dull mwy*

*uniongyrchol, ond wrth fynd ymlaen, fe wnaethom ni ddefnyddio mwy o'r dull Cydwasanaethau.'* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

3.79 Mae hyn yn adleisio profiad bwrdd iechyd arall, yr oedd ei drefn reoli aur[42] yn cytuno y gellid recriwtio staff 'ar eich menter eich hun' i ddechrau a dilyn gan 'wiriadau allweddol' unwaith y bydd yn y swydd i sicrhau diogelwch. Fodd bynnag, roedd sgrinio ar waith o'r cychwyn cyntaf i sicrhau nad oedd unrhyw un â phroblemau iechyd sylweddol a / neu dros 70 oed yn cael ei recriwtio – sef polisi'r Bwrdd Iechyd penodol hwn.

3.80 Soniodd rhanddeiliaid mewn ysgolion meddygaeth am weithio gyda darparwyr lleoliadau presennol i greu llwybr i'r gweithlu ar gyfer myfyrwyr. Roedd rhai eisoes ar leoliadau mewn lleoliadau clinigol fel meddygfeydd ac eisoes wedi'u gwreiddio mewn timau. Roedd hyn yn gwneud y cyfnod pontio yn haws i'r myfyriwr, y brifysgol a'r cyflogwr.

3.81 Cafwyd sawl her wrth recriwtio, gan gynnwys rheoli ac ymateb i'r diddordeb sylweddol gan aelodau o'r cyhoedd pan gyhoeddodd bwrdd iechyd ar draws ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fod rolau ar gael. Soniodd byrddau iechyd eraill hefyd am ddefnyddio hysbysebion yn y wasg leol, ar y radio ac mewn print fel rhan o'u hymgyrch.

3.82 Daeth heriau eraill a nodwyd o lwybrau strategol, gydag amrywiaeth o gynigion cymorth yn aml yn drysu'r broses, yn hytrach na'i hwyluso. Er enghraifft, roedd un rhanddeiliad yn teimlo bod cysylltiadau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnig yr hyn roeddent yn ei weld fel atebion i faterion nad oedd yn bodoli, yn hytrach na darparu cymorth wedi'i deilwra'n well.

> *'Roedd llawer o wahanol rannau o GIG Cymru a oedd yn ceisio helpu, ond wrth wneud hynny roedd hefyd yn cymhlethu pethau... Byddai pobl yn dweud, 'Gallwn roi'r llwyfan hwn i chi recriwtio staff' ond roedd gennym lwyfan eisoes... Byddai wedi bod yn well petai'r staff hynny'n bodoli dim ond i wreiddio staff mewn sefydliadau... Roedd hynny'n dipyn o her.'* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

---

42 Yn ystod Pandemig Covid-19, sefydlodd GIG Cymru hierarchaeth dros dro o orchymyn i fwrw ymlaen â chamau gweithredu a phenderfyniadau. Partneriaid strategol ar lefel aur: Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, aelodau'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, a grŵp Strategol Covid-19. Cafodd hyn ei ailadrodd gan fyrddau iechyd lle'r oedd lefel aur yn dangos y lefel uchaf o'u strwythur gorchymyn a rheoli, a chafodd 'cyfarwyddiadau trefn reoli aur' eu rhoi ar waith yn gyflym.

3.83 Her allweddol arall yn ôl y sôn oedd rheoli'r gwahanol ffrydiau recriwtio sydd ar waith. Roedd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu recriwtio ar eu pen eu hunain, llawer ohonynt ar ffyrlo o swyddi eraill; dod â staff gofal iechyd oedd wedi ymddeol yn ôl i'r gweithle; yn ogystal â chynefino myfyrwyr. Y cymhlethdod ychwanegol oedd bod rhai wedi cael eu cyflwyno fel cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ond yna wedi dod yn weithwyr cyflogedig. Roedd yn rhaid uno pob un o'r grwpiau hyn gan ddefnyddio dull ychydig yn wahanol a oedd yn ychwanegu at anghenion adnoddau byrddau iechyd.

3.84 Ar y cyfan, nid oedd teimlad y gallai'r heriau hyn fod wedi cael eu lliniaru oherwydd eu bod yn rhan o ymateb brys. Teimlai un rhanddeiliad y gallai staff canolog y GIG fod wedi gofyn i gydweithwyr yn y bwrdd iechyd pa fath o gymorth fyddai'n ddefnyddiol iddynt, yn hytrach na dod o hyd i atebion nad oedd eu hangen ar y pryd. Yn y pen draw, ystyriwyd nad oedd modd osgoi'r broses recriwtio gymhleth, ond cafodd ei rheoli cystal â phosibl o dan yr amgylchiadau.

> *'Roedd yn gymhleth, ac roedd yn rhaid i ni wneud ein gorau. Mae'n debyg mai'r hyn a wnaethom wrth i ni ddyrannu pobl i'r meysydd penodol hynny – 'dylech chi ganolbwyntio ar y myfyrwyr, dylech chi ganolbwyntio ar bobl sydd wedi ymddeol, a dylech chi ganolbwyntio ar recriwtio cyffredinol'.* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

**Themâu trawsbynciol**

3.85 Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n rheoli Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn nodi bod yn rhaid i bob gweithred integreiddio Themâu Trawsbynciol. Nod y Themâu Trawsbynciol yw gwella ansawdd a gwaddol pob gweithrediad a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni yn eu cyfanrwydd. Maen nhw'n gofyn am weithredu mewn sawl maes ac felly maen nhw wedi'u gwreiddio yn y gwaith o ddylunio a darparu'r holl weithrediadau. Ar gyfer rhaglenni 2014-2020, roedd tair Thema Drawsbynciol:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a'r Iaith Gymraeg. Nod y thema drawsbynciol hon yw lleihau anghyfiawnder a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, gan roi cyfle i bob buddiolwr cymwys gymryd rhan a defnyddio eu sgiliau a'u galluoedd i godi lefelau GDP yng Nghymru a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd o ran enillion i fenywod a dynion ac eraill sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hefyd yn ceisio herio gwahanu galwedigaethol drwy gynyddu nifer y merched a'r

dynion sy'n hyfforddi neu'n ailhyfforddi mewn meysydd anhraddodiadol (e.e. gofal plant, gofal cymdeithasol), gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae prinder sgiliau.

- Yr Iaith Gymraeg. Mae angen i'r holl weithrediadau, sy'n berthnasol i'w gweithgarwch, gyfrannu at nodau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a nodir yn 'Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr', y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, a'i Chynllun Iaith Gymraeg i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi.
- Datblygu Cynaliadwy. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiffiniad ehangach na'r CE o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r darlun Cymreig o ddatblygu cynaliadwy, sef "pwyslais ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl a chymunedau; ymgorffori ein gwerthoedd o degwch a chyfiawnder cymdeithasol." Mae diffiniad y CE ochr yn ochr â gweledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy yn cael ei gyfuno i gyfrannu'n llawn at integreiddio Themâu Trawsbynciol datblygu cynaliadwy.
- Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol. Mae hwn yn ymrwymiad gan y CE a Llywodraeth Cymru i greu cyfleoedd cyflogaeth a dilyniant a helpu pobl i fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Mae'r rhaglen hefyd yn ceisio cynyddu symudedd y rhai sy'n ddi-waith, yn barod am waith neu wedi'u tangyflogi.

3.86 Mae'r ddwy gyntaf o'r Themâu Trawsbynciol hyn yn orfodol o dan reoliadau'r UE. Mae Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol wedi cael ei chynnwys fel thema ychwanegol yn unol ag ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi.

*Themâu trawsbynciol: recriwtio staff*

3.87 Oherwydd natur argyfwng pandemig Covid-19 a'r ymateb brys a oedd yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, ni ddilynwyd llwybrau datblygu a gweithredu polisi arferol, yn yr un modd ag y cafodd rheolau caffael arferol eu hatal. Gan mai ffocws y prosiect oedd recriwtio cymaint o staff â phosibl, prin oedd y cyfle, os o gwbl, i flaenoriaethu grwpiau o unigolion i gynyddu eu cynrychiolaeth yn y gweithlu. Roedd y ffocws recriwtio wedi'i gyfyngu i'r garfan o fyfyrwyr oedd eisoes yn gweithio yn y GIG a'r boblogaeth staff wedi ymddeol a gynigiodd eu hunain i fod yn rhan o'r ymateb i'r pandemig. Oherwydd natur frys yr ymateb, nid oedd capasiti i ddatblygu Asesiad Effaith Integredig.

3.88 Yn yr adran isod, mae chwe elfen cydraddoldeb wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun recriwtio staff yn ystod Covid-19.

*Oedran*

3.89 Mae Tabl 3.12 yn dangos bod dros hanner y staff a recriwtiwyd yn 30 oed neu'n iau; cyfran llawer uwch o weithwyr yn y grŵp oedran hwn ar draws GIG Cymru yn gyffredinol[43]. Fel y nodwyd yn nhabl 3.7, ychwanegwyd 544 o fyfyrwyr at y gweithlu, a byddent wedi dod yn bennaf o'r rheini sy'n 30 oed neu'n iau. Cafodd 280 o bobl dros 60 oed eu recriwtio hefyd. Byddai llawer o'r rhain wedi ymddeol yn ddiweddar ac yn dychwelyd i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig.

3.90 Roedd tua 8 y cant o'r rhai a recriwtiwyd yn 60 oed neu'n hŷn, oedd yn cynrychioli 280 o bobl. Byddai llawer o'r rhain wedi ymddeol yn ddiweddar ac yn dychwelyd i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig. Mae'n amlwg y byddent wedi bod mewn mwy o berygl o ddal Covid nag aelodau iau'r gweithlu. Fodd bynnag, cafodd llawer o'r recriwtiaid hŷn eu rhoi mewn rolau cefnogi i sicrhau nad oedd ganddynt lawer o gysylltiad â'r feirws.

---

[43] Canran o staff y GIG yn ôl sefydliad, grŵp staff a band oedran (llyw.cymru)

**Tabl 3.12: Nifer Staff y GIG a Gyflogwyd drwy Gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl Oedran (Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)**

| Band Oedran | Nifer y Gweithwyr | Canran y cyfanswm a recriwtiwyd |
|---|---:|---:|
| 20 oed neu iau | 105 | 3% |
| 21-25 oed | 1017 | 26% |
| 26 – 30 oed | 992 | 25% |
| 31-35 oed | 409 | 10% |
| 36-40 oed | 289 | 7% |
| 41-45 oed | 222 | 6% |
| 46-50 oed | 182 | 5% |
| 51-55 oed | 212 | 5% |
| 56-60 oed | 257 | 6% |
| 61-65 oed | 194 | 5% |
| 66-70 oed | 64 | 2% |
| 71 flynedd neu fwy | 22 | 1% |
| Cyfanswm | 3965 | 100% |

*Anabledd*

3.91 Nid oedd y data recriwtio yn cynnwys unrhyw gofnod ynghylch a oedd gan yr unigolyn anabledd neu salwch tymor hir, felly ni allwn adrodd yn llawn ar yr elfen hon. Ar draws y GIG yn gyffredinol, mae 3.7 y cant o staff wedi cofnodi anabledd[44], ond mae hyd yn oed y ffigur hwn yn cynnwys 25.2 y cant arall o staff nad yw eu statws anabledd yn hysbys.

3.92 Yn amlwg, byddai'r rheini sydd â chyflyrau presennol wedi bod mewn mwy o berygl oherwydd Covid. Mae'n bosibl hefyd nad yw'r cyfarpar diogelu personol wedi bod yn addas ar gyfer rhai sydd ag anableddau. Er enghraifft, efallai y bydd unrhyw un sydd â phroblemau clywed ac sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau wedi cael trafferth cyfathrebu â'r rheini sy'n gwisgo masg wyneb. Datblygwyd masgiau tryloyw yn nes ymlaen yn yr ymateb i'r pandemig.

[44] Canran o staff y GIG yn ôl sefydliad, grŵp staff ac anabledd (llyw.cymru)

*Ethnigrwydd*

3.93 Ar gyfer 42 y cant o'r staff a recriwtiwyd, ni chofnodwyd unrhyw grŵp ethnig; ac roedd 94 y cant o'r 58 y cant a gofnododd grŵp ethnig yn dod o gefndir Gwyn. Fodd bynnag, o gofio bod 8 y cant o weithwyr y GIG o gefndir lleiafrifoedd ethnig[45] ac nad yw'r 12 y cant arall wedi cofnodi eu hethnigrwydd, mae'n rhesymol tybio y byddai dros 6 y cant wedi bod o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

3.94 Gyda golwg benodol ar ethnigrwydd, wrth i'r pandemig fynd rhagddo, daeth effeithiau anghymesur COVID-19 ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled y DU yn amlwg, ac roedd llawer o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a fu farw o'r coronafeirws, yn anffodus, o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[46] yn dangos bod y risg o farwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ymysg rhai grwpiau ethnig yn sylweddol uwch na'r risg o ethnigrwydd Gwyn ac nad yw'n cael ei hegluro'n llwyr gan ffactorau eraill fel amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, a lleoliad.

3.95 Cafodd Grŵp Cynghori COVID-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru ei sefydlu i edrych ar y rhesymau pam roedd y coronafeirws yn effeithio'n anghymesur ar bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â'r anghydraddoldebau iechyd ehangach sy'n effeithio ar gymunedau o'r fath. Arweiniodd hyn at ddatblygu a chyflwyno Adnodd Asesu Risg ar gyfer y Gweithlu yng Nghymru. Ym mis Hydref 2021, lluniodd is-grŵp cynghori adroddiad[47] ar yr Adnodd Asesu Risg, gan roi tystiolaeth o'i ddatblygiad, y broses o'i gyflwyno, ei dderbyn a'i fonitro. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod yr adnodd, ers ei ddatblygu, wedi cadw'n gyfredol â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg gyda dim ond mân addasiadau ac wedi profi ei fod yn gadarn ac yn addas i'r diben. Roedd yn rhoi hyder i weithwyr y sector cyhoeddus reoli eu risgiau a pharhau i weithio, gan helpu i gynnal y GIG a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod ail don y pandemig. Roedd dros 71,000 o weithwyr y GIG/Gofal Cymdeithasol a dros 74,000 o weithwyr yn y sector

[45] Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 30 Medi 2022 | LLYW.CYMRU
[46] Diweddaru cyferbyniadau ethnig a chrefyddol mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (COVID-19), Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
[47] Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leafrifol, Is-grŵp Gwyddonol: asesu risg (llyw.cymru)

cyhoeddus wedi defnyddio'r fersiwn ar-lein o'r adnodd, gydag amcangyfrif o 45,000 o fersiynau papur ychwanegol yn cael eu llwytho i lawr a'u defnyddio.[48]

*Rhywedd*

3.96 Mae data PCGC yn dangos bod 73 y cant o'r rhai a recriwtiwyd yn fenywod, ac nid yw'n syndod o ystyried bod tua 77 y cant o holl staff y GIG yng Nghymru yn fenywod[49]. Felly, roedd y broses recriwtio yn adlewyrchu'r rhaniad presennol rhwng y rhywiau yn y gweithlu.

*Cred Grefyddol*

3.97 Dangosir patrwm tebyg i ethnigrwydd ar gyfer crefydd y rhai a recriwtiwyd. Ni wnaeth 41 y cant o'r recriwtiaid gofnodi, ac ni wnaeth 8 y cant arall ddatgelu eu crefydd. Roedd nifer annisgwyl o isel o'r rhai a recriwtiwyd yn Hindŵiaid (14 o weithwyr), Mwslimiaid (36 o weithwyr), neu Sikhiaid (3 o weithwyr) o'i gymharu â chyfanswm y rhai o'r crefyddau hyn sy'n gweithio yn y GIG, ond efallai eu bod ymysg y rhai nad oedd eu cred grefyddol wedi'i chofnodi.

*Rhywioldeb*

3.98 O ran rhywioldeb, roedd cyfanswm o 126 o recriwtiaid (dau y cant) yn hoyw, yn lesbiaidd, yn ddeurywiol, neu o gyfeiriadedd rhywiol arall. Fodd bynnag, nid oedd rhywioldeb 43 y cant o'r recriwtiaid wedi'i gofnodi. Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod tri y cant o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu gyfeiriadedd rhywiol arall.

*Themâu trawsbynciol: Offer Diogelwch Personol*

3.99 Roedd y broses gaffael ar gyfer cyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig yn gweithredu mewn marchnad fyd-eang a oedd wedi gorboethi ac roedd y galw'n llawer mwy na'r cyflenwad. Roedd y gystadleuaeth am gynnyrch yn ddwys ac roedd y ffynhonnell weithgynhyrchu yn gyfyngedig, yn bennaf i'r Dwyrain Pell. Nid oedd cyflenwyr arferol cyfarpar diogelu personol yn gallu cyflenwi cynnyrch ac o ganlyniad roedd yn rhaid i PCGC gael gafael ar gynnyrch yn uniongyrchol gan wneuthurwyr ar draws y farchnad. Y flaenoriaeth allweddol oedd sicrhau na fyddai

[48] Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leafrifol, Is-grŵp Gwyddonol: asesu risg (llyw.cymru), Paragraff 10.
[49] Canran o staff y GIG yn ôl sefydliad, grŵp staff a rhywedd (llyw.cymru)

Cymru yn canfod ei hun heb ddigon o gyfarpar diogelu personol ac y byddai staff rheng flaen a chleifion yn cael eu diogelu. Roedd hyn yn cael ei drosi i'r flaenoriaeth caffael sef argaeledd cyflenwad mewn swmp ac i'r cynhyrchion hyn gael eu hardystio/achredu'n dechnegol ac yn gyfreithiol i'w defnyddio yn y GIG a Gofal Cymdeithasol. Roedd y gallu neu'r cyfle i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd moesegol ac ehangach wedi'i gyfyngu gan yr angen i sicrhau nad oedd Cymru'n rhedeg allan o gyfarpar diogelu personol.

3.100 Ar ben hynny, oherwydd y farchnad gystadleuol ar gyfer cyfarpar diogelu personol, roedd y cyfarpar a brynwyd yn ddyluniad safonol, yn bennaf addas ar gyfer cyrff gwrywaidd generig. Cafodd hyn ei gydnabod yn gyflym fel problem i staff a chafodd canllawiau eu datblygu a'u rhannu â byrddau iechyd / ymddiriedolaethau er mwyn i staff allu mynd i'r afael ag unrhyw broblemau'n briodol. Er enghraifft, yn gynnar yn y pandemig, nodwyd problem gyda sut oedd math penodol o fasg yn ffitio. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddull o wella ffit a lleihau methiannau o ran profion ffitio. Rhannodd fideo ar draws GIG Cymru i helpu i wella ffit y masgiau ar gyfer ystod ehangach o staff gofal iechyd. Roedd y defnydd o beiriannau prawf ffitio hefyd yn gostwng cyfraddau methu[50].

3.101 Mae'r mater olaf yn cael ei ategu gan ymchwil ar draws y DU. Er enghraifft, canfu'r BMJ, yn ei arfarniad ansoddol cyflym o brofiadau gweithwyr gofal iechyd rheng flaen gyda chyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 yn y DU[51], fod llawer o weithwyr gofal iechyd wedi dweud eu bod wedi methu eu prawf ffitio anadlyddion a bod diffyg dewisiadau amgen yn golygu eu bod yn parhau i ofalu am gleifion â COVID-19 gyda'r masgiau hyn neu'n defnyddio lefel is o ddiogelwch. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer menywod lle nad oedd masgiau a sgrybiau bach ar gael iddynt. Mae'r BMJ hefyd yn adrodd ar ddadansoddiad yn y cyfryngau o fwy o broblemau cyflenwi cyfarpar diogelu personol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd o leiafrifoedd ethnig. Roedd cyflau anadlyddion puro aer wedi'u pweru (dewis arall ar gyfer gweithwyr gofal iechyd gyda barfau nad oeddent yn gallu eillio am resymau crefyddol) yn arbennig o ddiffygiol.

[50] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)
[51] Profiadau gweithwyr gofal iechyd rheng flaen gydag offer diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 yn y DU (BMJ Open)

3.102 Mae erthygl gan BMC[52] yn adrodd ar ganfyddiadau'r arolwg sy'n dangos bod y rheini o grwpiau ethnig Asiaidd yn llai tebygol o roi gwybod am fynediad digonol at gyfarpar diogelu personol o'i gymharu â grwpiau Gwyn. Mae'r erthygl hon hefyd yn cyfeirio at arolwg llai yn y DU a welodd fod gweithwyr gofal iechyd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o roi gwybod am ddiffyg mynediad at gyfarpar diogelu personol na'u cydweithwyr Gwyn[53].

3.103 Canfu'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN), mewn arolwg ledled y DU o aelodau sy'n gweithio mewn amgylcheddau risg uchel, fod llai na hanner (43 y cant) yr ymatebwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn dweud bod ganddynt ddigon o warchodaeth llygaid ac wyneb. I'r gwrthwyneb, dywedodd 66 y cant o staff nyrsio gwyn Prydeinig a ymatebodd fod ganddynt ddigon o'r un mathau o gyfarpar diogelu personol. Roedd gwahaniaeth tebyg yn nifer y gynau gwrth-hylif y dywedodd aelodau'r Coleg Nyrsio Brenhinol eu bod yn gallu cael gafael arnynt. Er bod 19 y cant o staff Gwyn Prydeinig wedi dweud nad oedd ganddynt ddigon o ynau ar gyfer shifft, cynyddodd y ganran honno i 37 y cant o'r ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig.

3.104 O ran cynaliadwyedd, mae cynhyrchion PPE yn cael eu defnyddio unwaith ac felly nid oes unrhyw gynhyrchion ar gael ar y farchnad eto sydd wedi bodloni'r safonau technegol a chlinigol gofynnol ar gyfer ailddefnyddio. O'r herwydd, nid oedd caffael cyfarpar diogelu personol yn gallu cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwastraff ac ailgylchu yn ei bolisi 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.

3.105 Mae'r Cydwasanaethau wedyn wedi mynd i'r farchnad i sefydlu Contract Fframwaith ar gyfer unrhyw ofynion a allai ddod i'r amlwg yn y dyfodol, a ddylai sicrhau bod materion fel Caethwasiaeth Fodern ac ôl troed carbon ynghyd â chyfleoedd i gyflenwyr lleol yn cael sylw.

*Barn rhanddeiliaid am ystyried themâu trawsbynciol*

3.106 Fel arfer, mae gan raglenni ESF ddangosyddion monitro sy'n ymwneud â Themâu Trawsbynciol. Soniodd rhanddeiliaid y byddai'r cam gweithredu hwn yn debygol o gynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â mesurau effaith cadarnhaol sy'n cefnogi menywod; pobl o leiafrifoedd ethnig; a gweithwyr hŷn. Byddai ystyriaethau hefyd

---

[52] Mynediad at gyfarpar diogelu personol ymysg gweithwyr gofal iechyd yn ystod pandemig COVID-19 yn y Deyrnas Unedig: canlyniadau astudiaeth o garfan genedlaethol (UK-REACH) (biomedcentral.com)
[53] Canfyddiadau gwahaniaethol ynghylch defnydd cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y GIG yn seiliedig ar ethnigrwydd, rhyw a phrofiad proffesiynol. (ScienceDirect)

ynghylch cefnogi myfyrwyr; ynghylch gosod cyfarpar diogelu personol; rhaglenni yn y gweithle sy'n delio â straen; cadwyni cyflenwi lleol; a chymorth gan gymheiriaid.

3.107 Fodd bynnag, gan fod hwn yn ymateb brys i'r pandemig, a bod arian yn cael ei ddyfarnu'n ôl-weithredol, penderfynwyd peidio â chynnwys dangosyddion 'ffurfiol' ar gyfer Themâu Trawsbynciol yn y cynllun busnes, ac nid oedd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn bosibl ychwaith, sy'n cael ei gynnal fel arfer wrth gynllunio rhaglenni. Fodd bynnag, soniodd rhanddeiliaid fod cydraddoldebau a Themâu Trawsbynciol yn cael eu hystyried yn y cynllun busnes, er nad oeddent yn cael eu ffurfioli mewn dangosyddion – roedd y Tîm Themâu Trawsbynciol yn cymryd rhan mewn arfarniadau o'r cynllun o'r dechrau.

> *'Fy mhwynt i gydweithwyr oedd peidio â rhoi'r [dangosyddion] hynny yn y cynllun busnes nawr gan nad oes ganddyn nhw ffordd o'u cyflawni, mae'n rhaid i ni fod yn onest ac yn agored a dweud, "dyna fydden ni wedi hoffi ei weld ond fydden ni ddim yn gallu eu cynnwys".* (Cyfwelai WEFO)

3.108 Wrth gynllunio'r gweithrediad, yng nghyd-destun y pandemig parhaus, nododd y rhanddeiliaid a oedd yn cymryd rhan nifer o bryderon allweddol yn ymwneud â themâu trawsbynciol.

3.109 Yr oedd y cyntaf yn ymwneud â lles staff - yn enwedig y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen. Rhan allweddol o'r gwaith oedd darparu cyllid i weithwyr sydd wedi ymddeol i ddychwelyd i'r gweithlu. Gan fod pobl hŷn yn gallu bod yn arbennig o agored i effeithiau Covid-19, roedd pryderon ynghylch yr effaith ar y grŵp hwn wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

3.110 Roedd pryderon hefyd ynghylch y cyfraddau uchel o unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu, gyda'r amrywiaeth hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod staff a myfyrwyr sy'n dychwelyd yn cael eu cynnwys yn y gweithlu. Yn ystadegol, roedd yn ymddangos bod y grwpiau hyn yn fwy agored i effeithiau Covid-19.

3.111 Yn gysylltiedig â hyn roedd addasrwydd y cyfarpar diogelu personol a gafodd ei gaffael yn gyflym - dywedwyd bod ffit masgiau a menig wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer 'dynion Ewropeaidd', ac felly nid oeddent yn adlewyrchu proffil amrywiaeth na rhywedd gweithlu'r GIG ar y pryd. Roedd pryderon hefyd ynghylch hygyrchedd

cyfarpar diogelu personol - gall masgiau fod yn rhwystr cyfathrebu i bobl niwrowahanol neu'r rheini sydd â nam ar eu clyw.

3.112 Fodd bynnag, y prif bryder ynghylch PPE oedd ei gynaliadwyedd, gan fod llawer o'r offer wedi'i wneud o blastig untro, hyd yn oed os oedd o ansawdd da. Roedd pryderon ymarferol hefyd ynghylch ei waredu, yn enwedig gan fod angen gadael rhai eitemau ar eu pen eu hunain am 72 awr cyn cael eu trin.

> *'Roedd y feisorau, llawer ohonynt yn gadarn iawn ac o ansawdd da ond cawsant eu marcio fel rhai untro felly cawsom lawer o ddadleuon ynghylch a allwch chi eu glanhau? Gyda beth fyddech chi'n eu glanhau? A fyddai'n well oherwydd plastig a chynaliadwyedd i geisio eu glanhau?... ond wedyn os bydd rhywun yn dal y feirws, pwy sy'n atebol?'* (Rhanddeiliad CLILC)

3.113 Roedd pryderon ynghylch cynaliadwyedd hefyd yn gysylltiedig â pha mor foesegol oedd y cadwyni cyflenwi PPE a oedd yn cael eu defnyddio.

> *'Mae'n debyg bod pryderon hefyd am gaethwasiaeth fodern a rhai o'r safonau yn y ffatrïoedd rydyn ni'n eu defnyddio dramor.'* (Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)

3.114 Mewn ymateb i hyn, roedd ymdrech i adolygu cadwyni cyflenwi yn gyflym a defnyddio mwy o gyflenwyr lleol i gael gafael ar gyfarpar diogelu personol. Roedd yr ymdrechion hyn yn cael eu hystyried yn gam cadarnhaol mewn sefyllfa oedd yn symud mor gyflym ac o ystyried maint y broses brynu. O ran uchelgais yn y dyfodol, teimlid y byddai unrhyw waith a wneir i sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn fwy moesegol ac amgylcheddol gynaliadwy a'u cael yng Nghymru yn ddefnyddiol.

> *'... Dod â'r gadwyn gyflenwi honno yn ôl i Gymru. Felly, chwilio am weithgynhyrchwyr yng Nghymru, gan geisio sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol hwnnw'n cael ei gynhyrchu'n nes at lle'r oedd ei angen. Ac rwy'n dyfalu bod gan hynny fanteision economaidd, felly mae hynny'n cyd-fynd. Mae'n cefnogi gweithgarwch economaidd yng Nghymru, mae'n fwy cynaliadwy gan fod ganddo ôl troed carbon is gan iddo deithio llai o bellter. Mae'n fwy cynaliadwy oherwydd os yw'r cyfan yng Nghymru, rydych chi'n gallu rheoli'n llawer gwell ble mae'n eich cyrraedd chi, a sut.'* (Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)

> *'Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y gellir edrych arno. A all Cymru ddod yn gynhyrchydd y math hwn o offer ar gyfer ei hun yn y dyfodol, yn ogystal â mathau eraill o offer'* (Cyfwelai WEFO)

3.115 Soniodd un rhanddeiliad hefyd am waith a wnaethpwyd ar ddatblygu masgiau wyneb tryloyw i sicrhau eu bod yn fwy addas ar gyfer pobl â nam ar eu clyw a phobl niwrowahanol.

3.116 Teimlwyd bod ymateb wedi bod yng Nghymru i effaith y pandemig ar staff o leiafrifoedd ethnig, gyda thasglu Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu, gan arwain at adroddiad ar effaith Covid ar leiafrifoedd ethnig ac adnodd asesu staff. Yn ddiweddarach, sefydlwyd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y datblygiadau hyn ar waith cyn i'r arian gael ei dalu'n ôl-weithredol.

> *'Rwy'n meddwl, o ran deall amrywiaeth y gweithlu a'r gwahanol fathau o anghenion ac amgylchiadau unigol, bod llawer wedi cael ei wneud yn y maes hwn.'* (Rhanddeiliad CLILC)

3.117 Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r adnodd hunanasesu ar gyfer staff a dywedodd ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn byrddau iechyd yn ystod prosesau recriwtio. Cymysg oedd yr adborth ar ba mor ddefnyddiol ydoedd. Roedd un rhanddeiliad yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol ar y cyfan ac yn rhoi lefel o sicrwydd i rai. Fodd bynnag, teimlent y gallai rhai staff o leiafrifoedd ethnig fod wedi teimlo ei fod yn "niwsans", gan y gallai eu hatal rhag cyfrannu at ddarparu gwasanaethau iechyd yn y ffordd yr oeddent yn dymuno ei wneud ar y pryd.

> *'Mae pobl yn wahanol, maen nhw i gyd yn wahanol. Mae rhai eisiau bwrw ymlaen a gwneud y gorau i'r cleifion ac maen nhw'n ystyried unrhyw beth sy'n rhwystro hyn yn niwsans...ond yn y pen draw roedden ni'n ceisio gwneud y peth iawn gyda'r wybodaeth a gawsom fod Covid yn effeithio ar bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy nag eraill.'* (Rhanddeiliad Bwrdd Iechyd)

3.118 O safbwynt addysg uwch, nid oedd rhanddeiliad yn teimlo bod yr adnodd yn ddigon defnyddiol. Roedd gan rai myfyrwyr anghenion iechyd penodol ac roedd yr asesiad yn cymhlethu'r broses o ganiatáu iddynt weithio. Roeddent hefyd yn teimlo bod gwahanol ddehongliadau o sut i ddefnyddio canlyniadau'r asesiad mewn gwahanol leoliadau clinigol. Fodd bynnag, teimlai un arall ei fod yn ddefnyddiol wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer lleoliad neu gyflogaeth gan eu bod yn cael eu hasesu yn yr un ffordd ag y byddai unrhyw unigolyn arall sy'n ymuno â'r gweithlu.

*‘Roedd yn help, ond dydw i ddim yn meddwl ei fod mor ddefnyddiol ag y gallai fod. Roedd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd iawn o hyd ynghylch rhai o'n myfyrwyr.'* (Rhanddeiliad addysg uwch)

3.119 Er bod rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod yr ymateb brys yn golygu na chafodd ystyriaethau’n ymwneud â’r Gymraeg eu gwneud, soniodd rhai eu bod wedi gwneud hynny. Roedd un darparwr addysg uwch yn teimlo ei fod yn gallu cynnig yr un cyfleoedd i fyfyrwyr o ran y Gymraeg â chyn y pandemig, gan gynnwys mewn lleoliadau clinigol, gan fod y seilwaith yn ei le.

3.120 I randdeiliad arall a oedd yn cynrychioli Bwrdd Iechyd, roedd yn bwysig cadw ei statws dwyieithog arferol, hyd yn oed wrth recriwtio’n gyflym. Nid oedd yr un o’r cyfranogwyr hyn yn teimlo bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn ystod y pandemig.

*‘Roedd ein hymgyrch hysbysebu a denu yn ddwyieithog gyda swyddi gwag yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol a’r Gymraeg yn ddymunol yn cael eu hysbysebu ar gyfer pob swydd. Roedd ansawdd yr ymgeiswyr a ymatebodd yn uchel.’* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

**Canlyniadau tymor byr[54] a thymor hir[55]**

3.121 Byddai gwerthuso canlyniadau ac effaith economaidd-gymdeithasol hirdymor y gwaith hwn yn llawn yn gymhleth iawn ac y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn. Y nod yw adolygu rhesymeg y ddamcaniaeth newid sy’n cysylltu’r broses o gyflawni’r allbynnau â’r canlyniadau tymor byr a thymor hir, ystyried o fewn cyd-destunau ehangach canlyniadau mesurau Covid-19 a Chronfeydd Strwythurol Ewrop, ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

3.122 Yn y cyfweliadau manwl, er gwaethaf y teimlad ymysg rhanddeiliaid bod cwmpas a rhesymeg y gwaith hwn yn fwriadol gul, yn bennaf oherwydd ei natur ôl-weithredol, dywedodd nifer ohonynt eu bod yn teimlo ei fod yn effeithiol a’i fod yn rhan bwysig o’r ymateb cyffredinol i Covid-19 yng Nghymru.

*‘...i achub bywydau; roedd yn gyfnod brawychus. Er ei fod yn ôl-weithredol, roeddech chi’n teimlo eich bod chi’n gwneud eich rhan oherwydd, er ein bod ni*

---

54 Cynyddu capasiti’r sector iechyd a gofal cymdeithasol; cynyddu nifer yr endidau a gefnogir i frwydro yn erbyn effeithiau Covid-19 neu eu gwrthweithio; darparu gwasanaethau’n ddiogel ac yn ddigonol; achub bywydau.

55 Lleihau effeithiau iechyd, economaidd a chymdeithasol negyddol hirdymor y pandemig.

*mewn pandemig, roedden ni'n dal i geisio datrys hyn a ... dod drwyddi ac roeddech chi'n ymwybodol eich bod chi'n cyfrannu.'* (Cyfwelai WEFO)

3.123 Ar ben hynny, er ei bod yn bwysig cydnabod mai dim ond cyfran o wariant cyffredinol y GIG yng Nghymru yr oedd y gwaith yn ei gynnwys, roedd rhanddeiliaid y byrddau iechyd yn cydnabod y byddai'r wybodaeth y byddai cyllid ar gael o 'rhywle' i gael cyfarpar diogelu personol a rhoddodd staff rywfaint o sicrwydd yn ystod dyddiau cynnar y pandemig y byddent yn gallu ymdopi'n well â'r pwysau i ddod.

3.124 Ategwyd hyn gan randdeiliaid Llywodraeth Cymru, a oedd yn gallu cynnig rhywfaint o sicrwydd i fyrddau iechyd y byddai cyllid ar gael ar ryw adeg i gefnogi eu gwariant Covid-19. Dywedodd nifer o randdeiliaid gweithredol fod hyn wedi eu galluogi i gynllunio penderfyniadau cyllido yn fwy effeithiol. Dyma un maes lle gellir dweud bod y gwaith wedi cynnig 'gwerth ychwanegol'.

3.125 Yn wir, roedd yr holl randdeiliaid gweithredol yn cytuno, er bod arian yn cael ei wario ar staff a chyfarpar diogelu personol heb gymaint o'r ystyriaeth arferol i fforddiadwyedd ar ddechrau'r pandemig, mae cael cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ôl-weithredol yn ogystal â ffynonellau cyllid eraill wedi helpu i dalu'r costau annisgwyl hyn. Roeddent yn teimlo y byddai'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch sut byddai'n rhaid cyfaddawdu nawr i dalu am gostau'r pandemig.

*'Yn anffodus, pe na fyddem wedi cael yr arian hwnnw, byddem wedi gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch sut y gallem barhau i weithredu rhai gwasanaethau a byddem wedi gweld gostyngiad yn y gwasanaethau y gallem eu darparu. Byddai wedi cael effaith andwyol ar ofal cleifion.'* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

3.126 Roedd rhanddeiliaid strategol hefyd yn teimlo bod canlyniadau arfaethedig y gwaith, er eu bod yn gul oherwydd natur ôl-weithredol, yn cael eu cyflawni.

*'Fe wnaeth yr hyn a ddywedodd yr oedd yn ei wneud, gan fynd i'r afael â'r ffaith y gellid cynllunio'r angen brys am gyllid gyda COVID a'r argyfwng, yna mynd ymlaen a gwneud yr hyn a ddywedodd yr oedd am ei wneud, nad yw rhai o'n prosiectau'n ei wneud, a dod yn rhan ddefnyddiol o raglen lwyddiannus iawn.'* (Cyfwelai WEFO)

3.127 Dywedodd un rhanddeiliad o'r Bwrdd Iechyd, er bod colli bywyd o ganlyniad i Covid-19 yn anochel, ei fod yn teimlo y byddai mwy o fywydau wedi cael eu colli heb y cyllid hwn a ffynonellau ariannol eraill, a oedd yn ei alluogi i gynyddu capasiti a darparu cyfarpar diogelu personol.

**Canlyniadau anfwriadol**

3.128 Wrth ystyried staffio'n benodol, teimlai rhanddeiliad addysg uwch, er bod risg wedi bod i anfon myfyrwyr i'r gweithlu, mai dyna yr oedd llawer ohonynt yn ei ddymuno ar y pryd. Fel effaith anfwriadol, roeddent yn teimlo bod y myfyrwyr hyn wedi'u paratoi'n well ar gyfer cyflogaeth fel myfyriwr graddedig ar ôl dod i gysylltiad â'r sefyllfaoedd hynny wrth barhau i hyfforddi. Dywedwyd bod hyn yn cael ei ategu gan dystiolaeth o arolwg hyfforddeion y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)[56]. Roedd y rhanddeiliad hwn hefyd yn teimlo ei fod wedi gwella'r graddau y mae myfyrwyr yn cael eu gwerthfawrogi, a allai gael effaith mewn sefyllfaoedd o argyfwng yn y dyfodol.

> *'Petaem yn wynebu pandemig arall, nid wyf yn meddwl y byddai myfyrwyr yn cael eu gorfodi i gadw draw gymaint o leoliadau… rwy'n meddwl ei fod wedi dweud rhywbeth am sut rydym yn gwerthfawrogi ein meddygon dan hyfforddiant, nad oeddem yn eu gwerthfawrogi digon a'r hyn y gallent ei gynnig.'* (Rhanddeiliad addysg uwch)

3.129 Mae ystod ehangach o ymchwil wedi cael ei ddatblygu ledled Cymru hefyd. Er enghraifft, edrychodd Iechyd Cyhoeddus Cymru[57] ar les y gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystod y pandemig. Cynhaliwyd hyn drwy arolwg o'r gweithlu rhwng mis Mehefin a mis Awst 2021 a daeth 2,910 o ymatebion i law. Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

- Dywedodd 71 y cant o'r ymatebwyr fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu ers dechrau'r pandemig ac roedd hyn yn uwch ymysg y rheini a oedd ar ddechrau eu gyrfaoedd nyrsio.
- Roedd gan hanner ein hymatebwyr sgoriau lles meddyliol oedd yn dangos naill ai iselder clinigol tebygol neu iselder ysgafn posibl.

[56] Arolwg y Cyngor Meddygol Cyffredinol
[57] Iechyd a Lles y Gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru yn ystod Pandemig Covid-19 (phw.nhs.wales)

- Dywedodd 51 y cant o'r ymatebwyr fod eu hiechyd corfforol wedi gwaethygu ers dechrau'r pandemig.
- Roedd 29.4 y cant wedi cael Covid-19, ac o'r rhain, dywedodd hanner eu bod wedi dioddef o sgil-effeithiau'r feirws hyd at 16 mis ar ôl yr haint.
- Roedd 8 o bob 10 o'r ymatebwyr wedi dod i'r gwaith o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pan oeddent yn sâl.

3.130 Yn y cyfamser, canfu adolygiad ar wahân gan y Coleg Nyrsio Brenhinol[58] yn 2023 fod lefelau staffio yn effeithio ar ganlyniadau cleifion, gan effeithio hefyd ar lesiant a phrosesau cadw staff presennol. Felly, petai ymateb y Bartneriaeth Cydwasanaethau i'r pandemig wedi helpu i leddfu prinder staff, byddai hyn nid yn unig wedi helpu cleifion, ond byddai hefyd wedi gwella'r amodau i'r staff presennol.

3.131 Yn ôl astudiaeth o fyfyrwyr nyrsio a gafodd eu rhoi ar lwybr carlam i leoliad clinigol fel cynorthwywyr gofal iechyd yn eu hail flwyddyn astudio[59] neu eu blwyddyn olaf, roedd llawer yn ystyried bod y profiad yn ffordd ddefnyddiol o baratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd yn tynnu sylw at yr angen am fwy o gefnogaeth i staff newydd sy'n symud i sefyllfa sy'n datblygu ac yn achosi straen, heb fawr o gefnogaeth ar gael.

3.132 O ran cyfarpar diogelu personol, tynnodd un rhanddeiliad sylw at y ffaith bod y data roedden nhw wedi'i weld yn awgrymu bod gan Gymru ddigon o gyfarpar diogelu personol – a oedd yn arwydd iddyn nhw bod y sianeli caffael a'r partneriaethau oedd yn cael eu hadeiladu o'u cwmpas yn gweithio'n effeithiol.

> *'O'r hyn roeddwn i'n gallu ei weld, roedden ni wir yn deall pa gyfarpar diogelu personol oedd ei angen, roedden ni wedi gwneud trefniadau i wneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Credaf fod yr amcan wedi'i gyflawni – cadw'r gweithlu'n ddiogel.'* (Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)

3.133 Yn fwy cyffredinol, dywedwyd bod y gweithrediadau, er eu bod yn peri risg uchel, wedi bod yn gyfrwng defnyddiol i reoli'r rhaglenni ESF yn ei chyfanrwydd. Roedd hyn yn bwysig oherwydd er bod opsiynau eraill ar gyfer cynnal lefelau ymrwymiad a

---

[58] [Effaith lefelau staffio | Cyhoeddiadau | Coleg Nyrsio Brenhinol (rcn.org.uk)]
[59] [Profiadau myfyrwyr nyrsio mewn pandemig: Astudiaeth ansoddol - PMC (nih.gov)]

gwariant, roedd y pandemig a oedd yn datblygu yn creu llawer o ansicrwydd o ran cyflawni, felly roedd y risgiau o ran gwariant yn benodol yn cynyddu.

3.134 Yn olaf, nid oedd defnyddio cronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop at ddibenion iechyd yn rhywbeth a ragwelwyd cyn y pandemig ac mae'r berthynas 'newydd' a ffurfiwyd rhwng Llywodraeth Cymru/WEFO a byrddau iechyd yn rhywbeth y gobeithir y bydd yn agor drysau yn y dyfodol. Roedd un o randdeiliaid Llywodraeth Cymru yn teimlo y bydd y math hwn o weithredu yn newid y ffordd y mae sefydliadau'n meddwl am gynlluniau wrth gefn ar gyfer pandemigau yn y dyfodol.

> *'Efallai y byddwn yn edrych yn wahanol gan ein bod wedi gweld yr hyn a weithiodd ac na weithiodd y tro hwn.'* (Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)

3.135 Yn y pen draw, roedd y prosiect hwn yn cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer cyfarpar diogelu personol a staff, a oedd yn helpu i atal y feirws rhag lledaenu, sicrhau bod gwasanaethau diogel a digonol yn cael eu darparu, ac achub bywydau. Roedd hyn yn diwallu angen brys i fynd i'r afael â'r risg i staff y GIG ac yn sicrhau y gellid parhau i ddarparu gwasanaethau mewn argyfwng. Wrth wneud hynny, roedd yn helpu i leihau effeithiau iechyd, economaidd a chymdeithasol negyddol hirdymor y pandemig (gweler y Ddamcaniaeth Newid yn Atodiad B am gynrychiolaeth weledol o hyn). Ailagorodd economi ehangach Cymru yn ystod haf 2020, gan arwain at dwf economaidd yng Nghymru yn Ch3 a Ch4 2020[60] [61].

**Gwerth am arian**

3.136 Roedd hwn yn ymateb brys i argyfwng, felly nid oedd dadansoddiad cost a budd arferol wedi'i gwblhau ar gyfer y gwaith hwn gan nad oedd amser. Er bod gwerth am arian bob amser yn bryder, roedd y ffaith bod elfennau o'r gwaith yn destun grymoedd y farchnad yn golygu bod y prosiect yn aml yn cystadlu am gyfarpar diogelu personol yn erbyn gwledydd eraill o bob cwr o'r byd. Arweiniodd hyn at farchnad fyd-eang wedi'i gorboethi gyda phris cynnyrch yn cynyddu wrth iddi ddod yn 'farchnad gwerthwyr'. Fodd bynnag, nododd adroddiad[62] Swyddfa Archwilio Cymru ar gaffael cyfarpar diogelu personol "Mewn cydweithrediad â gwasanaethau cyhoeddus eraill, roedd y Bartneriaeth Cydwasanaethau wedi goresgyn heriau

[60] Bwletin Cynnyrch Domestig Gros (ons.gov.uk)
[61] Effaith Gwarchodaeth Covid-19 yng Nghymru (llyw.cymru)
[62] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)

cynnar i ddarparu'r cyfarpar diogelu personol sy'n ofynnol gan ganllawiau i gyrff iechyd a gofal heb redeg allan o stoc ar lefel genedlaethol ... Rhoddodd Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau drefniadau da ar waith yn gyffredinol i gaffael cyfarpar diogelu personol a oedd yn helpu i reoli risg ac osgoi rhai o'r materion a nodwyd yn Lloegr", gan gynnwys cyfarpar diogelu personol nad yw'n bodloni gofynion "gan wastraffu cannoedd o filiynau o bunnoedd".[63]

3.137 Byddai'r staff a benodir drwy'r prosiect wedi bod yn ddarostyngedig i'r un graddfeydd cyflog a thelerau ac amodau â staff presennol y GIG. Byddai unrhyw benderfyniadau ar lefelau staffio angenrheidiol a sut y byddai gwaith ychwanegol yn cael ei wneud wedi bod yn benderfyniad i Fyrddau Iechyd Lleol, ond byddent wedi gweithredu o fewn y protocolau presennol, e.e. taliadau goramser, staff banc, staff asiantaeth ac ati.

**Y gwersi a ddysgwyd**

3.138 Ar gyfer tîm WEFO, roedd y gwersi allweddol a ddysgwyd yn cynnwys cadarnhad y gall fod hyblygrwydd mewn rhaglenni cyllido tymor hwy, hyd yn oed wrth iddynt ddod i ben, y gellir eu defnyddio i ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng. Mae pwysigrwydd cael cronfa o reolwyr rhaglenni profiadol ac arbenigwyr thematig i'w defnyddio wedi cael ei amlygu hefyd.

3.139 Er y credwyd bod natur ôl-weithredol y rhaglen wedi gweithio'n dda i'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd, awgrymodd un o randdeiliaid Llywodraeth Cymru, petai sefyllfa pandemig arall, y byddai'n well cael cyllid i'w ddosbarthu o'r cychwyn cyntaf, gyda phroses lywodraethu gref wedi'i llunio o'i amgylch. Teimlwyd y byddai hyn yn dangos bod gwersi wedi cael eu dysgu o bandemig Covid-19.

3.140 O safbwynt ymarferol, mae'r profiad wedi pwysleisio pwysigrwydd adolygu cynnydd yn gyson wrth i gynigion fel hyn ddatblygu, a phwysigrwydd cael gweithgor da ar waith i gynorthwyo hyn. Mae'r broses a arweiniodd at y gweithrediad hwn yn cael ei gweld fel enghraifft gadarnhaol o gydweithio ar draws sefydliadau.

> *'Dwi'n cofio grŵp da iawn o bobl yn ceisio gwneud i hyn ddigwydd gan ddefnyddio eu profiad, eu gwybodaeth a'r canllawiau a oedd ar gael.'* (Cyfwelai WEFO)

---

[63] Cyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19 (nao.org.uk)

3.141 O safbwynt cydraddoldeb, tynnodd rhanddeiliaid sylw unwaith eto at yr angen i fod yn realistig o ran yr hyn y gellid bod wedi'i gyflawni o ran Themâu Trawsbynciol oherwydd natur ôl-weithredol y rhaglen. Fodd bynnag, mewn ystyr ehangach, mae elfennau cadarnhaol i'w cymryd o ymateb Cymru i'r pandemig, fel yr adroddwyd yn yr adran gynharach ar y Themâu Trawsbynciol. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrechion i leoleiddio cadwyni cyflenwi i sicrhau eu bod yn fwy dibynadwy, moesegol ac amgylcheddol gynaliadwy; a'r ffyrdd yr oedd yr ymateb brys yn ceisio cydnabod effeithiau'r pandemig ar bobl o leiafrifoedd ethnig.

3.142 I lawer o randdeiliaid, mae gwersi allweddol wedi cael eu dysgu ynghylch pwysigrwydd cydweithio a chyd-gynhyrchu effeithiol. Roedd un rhanddeiliad, o CLILC, yn teimlo bod ymateb Covid-19 yn ficrocosm o'r ffordd y mae'r system gyfan yn gweithredu ac yn teimlo ei fod yn tynnu sylw at yr angen am well dealltwriaeth o sut mae polisi a gweithrediadau'n gweithio, o'r naill safbwynt a'r llall. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo y bu mwy o ymdrech i gyd-gynhyrchu ymdrechion cefnogi nag a welwyd cyn hyn.

3.143 Nodwyd pwysigrwydd defnyddio a meithrin perthnasoedd sefydledig o fewn y sector gan un o randdeiliaid y sector addysg uwch. Roedden nhw'n teimlo bod dibynnu ar gyfoedion fel ymarferydd rheng flaen wedi bod yn allweddol i reoli straen y pandemig ac wedi gwneud iddyn nhw annog myfyrwyr i sefydlu'r perthnasoedd hynny.

3.144 Roedd un o randdeiliaid y bwrdd iechyd hefyd yn teimlo bod yr ymdrech i ymateb i Covid-19 wedi tynnu sylw at yr angen am well cydlynu canolog a llai o gyfyngiadau ariannol, gan y gall hyn atal cynnydd.

> *'Weithiau gallwn ganolbwyntio gormod ar arian felly'r wers a ddysgwyd yw canolbwyntio llai ar yr arian ac yn meddwl mwy am y canlyniad... Canolbwyntio ar ansawdd a chanlyniad y claf yn hytrach nag arian, oherwydd bydd arian neu arbedion yn deillio o hynny yn y pen draw.'* (Rhanddeiliad bwrdd iechyd)

3.145 Teimlai'r rhanddeiliad hwn hefyd mai un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd oedd y gallu i wneud penderfyniadau'n gyflym pan oedd angen. Er enghraifft, roeddent yn dweud bod newidiadau i'w defnydd o dechnoleg ddigidol at ddibenion recriwtio, yn ogystal ag at ddibenion clinigol, wedi cynyddu yn ystod y pandemig a'u bod bellach yn gyffredin. Roedd y rhain wedi cael eu gohirio ers peth amser, ac mae eu cyflwyno wedi arwain at welliannau i'r system.

3.146 Roedd hyn yn adleisio barn rhanddeiliad arall o ddarparwr addysg uwch, a oedd yn teimlo bod cyflymder yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol ac yn rhywbeth i ddysgu ohono.

*‘Mewn gwirionedd, rwy’n meddwl mai’r gallu i ymateb yn gyflym a gwneud yn siŵr bod drws agored, er mwyn iddyn nhw wrando ar yr anghenion, maen nhw’n barod i weithredu, maen nhw’n barod i gefnogi. Dwi’n meddwl bod hynny’n rhywbeth mae pobl wedi’i wneud yn aml yn ystod Covid.’* (Rhanddeiliad addysg uwch)

**Ymarfer da**

3.147 O ganlyniad i’r gwaith a wnaethpwyd sy’n gysylltiedig â’r gweithrediadau hyn, mae arferion gorau wedi cael eu nodi a’u rhoi ar waith. Mae Adnodd Asesu Risg Gweithlu Cymru wedi cael ei ddatblygu a’i gyflwyno ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Roedd arferion da eraill a nodwyd yn ymwneud â chyflymder caffael cyfarpar diogelu personol. Fel rhan o’i adroddiad, fe wnaeth Archwilio Cymru baratoi astudiaeth achos i dynnu sylw at y gwaith o gaffael a darparu gynau llawfeddygol o Cambodia yn gynnar yn ystod y pandemig[64].

3.148 Mae rhai enghreifftiau rhagorol hefyd o ffyrdd arloesol y mae gweithgynhyrchwyr o Gymru wedi ymateb i’r pandemig, y gellir adeiladu arnynt wrth sefydlu cadwyni cyflenwi mwy lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Distyllfa Gin (In The Welsh Wind) o Geredigion, sy’n gwneud hylif diheintio dwylo sydd wedi’i gymeradwyo gan Sefydliad Iechyd y Byd o’i ganolfan.
- Grŵp Rothotherm o Fargam yn cynhyrchu gorchuddion wyneb i’w defnyddio gan staff gofal iechyd.
- Y Bathdy Brenhinol yn addasu ei weithrediadau i gynhyrchu feisorau amddiffynnol.
- Mae Alexandra (Cwmni Dillad) yn symud y gwaith o gynhyrchu sgrybs ar gyfer GIG Cymru a’r DU o Bacistan i Gymru.
- BCB International yn Llanelli yn ail-bwrpasu ei gyfleuster gweithgynhyrchu i gefnogi’r gwaith o gynhyrchu hylif diheintio dwylo, gan gynyddu’r gweithlu o 60 o staff i 90. Roedd hefyd yn cynhyrchu masgiau wyneb ar gyfer defnydd nad yw’n llawfeddygol ac yn datblygu pecyn Amddiffyn yr Heddlu.

[64] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | Archwilio Cymru (wao.gov.uk)

**Cynaliadwyedd hirdymor**

3.149 Roedd yr UE yn cydnabod yr angen am echel flaenoriaeth fel ymateb brys i bandemig Covid-19. Cafodd y gweithrediadau hyn, a ddatblygwyd o dan yr echel flaenoriaeth honno, eu dylunio fel mesur brys ac felly nid cynaliadwyedd parhaus y gweithrediadau yw'r nod. Gyda nifer o frechlynnau a thabledi llwyddiannus yn cael eu datblygu i drin y cyflwr gartref, a'r symudiad o bandemig i glefyd endemig rydyn ni'n dysgu byw gydag ef, ni ragwelir cynaliadwyedd hirdymor y triniaethau hyn gan y bydd angen i GIG Cymru addasu i'r clefyd ychwanegol hwn.

3.150 Daw gwaddol parhaus y gweithrediadau o'r gwersi a ddysgwyd ac a ymgorfforir yng ngwasanaeth ehangach y GIG. Mae hyn yn cysylltu ag Adnodd Asesu Risg Gweithlu Cymru[65] a'r canllawiau a luniwyd i helpu staff i ffitio cyfarpar diogelu personol. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r rhain yn ganlyniadau uniongyrchol i'r gweithrediad penodol hwn, yn hytrach mae'n fwy o ganlyniadau'r ymateb cyffredinol yr oedd y gweithrediad hwn yn rhan ohono.

3.151 Yn yr un modd, mantais hirdymor arall fu darparu stoc o gyfarpar diogelu personol a fydd yn sicrhau nad yw'r GIG yng Nghymru yr un mor agored i'r grymoedd marchnad a oedd yn nodweddu prynu cyfarpar diogelu personol ar ddechrau'r pandemig. Ar ben hynny, lle mae arferion gorau wedi cael eu nodi, maent wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys o ran caffael a chanllawiau newydd, sydd wedi cael eu rhannu ar draws yr holl dimau iechyd. Y fantais arall yn yr ymateb i bandemig Covid-19 fu'r gwaith partneriaeth sydd wedi dod i'r amlwg ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chyda phartneriaid ehangach gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu ac Iechyd Cyhoeddus ac ati. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi cyflymu'r broses o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru mewn ffordd na fyddai wedi digwydd heb y pandemig.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

3.152 Yn olaf, un o amcanion allweddol y gwerthusiad oedd asesu cyfraniad y gwaith at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[66]. Sef:

- Cymru lewyrchus: cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon

[65] Adnodd Asesu Risg Covid-19 ar gyfer y Gweithlu (gov.wales)
[66] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (llyw.cymru)

ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith teilwng.

- Cymru gydnerth: cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).
- Cymru iachach: cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei fanteisio i'r eithaf a lle mae dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.
- Cymru sy'n fwy cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
- Cymru o gymunedau cydlynus: cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang: cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

3.153 Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cyfrannu at rai o'r nodau hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Cymru lewyrchus: cynnig cadwyni cyflenwi cyfarpar diogelu personol byrrach, mwy lleol (a pharhau i gynnig) cyfleoedd i fusnesau Cymru; roedd gwastraff yn cael ei leihau drwy sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn addas i'r diben; roedd cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu cynnig i weithwyr gofal iechyd sydd wedi ymddeol, myfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn olaf, ac aelodau o'r cyhoedd (yr olaf yn helpu gyda rhyddhau cleifion o'r ysbyty, er enghraifft, a'r rhaglen frechu).

- Cymru gydnerth: mae cadwyni cyflenwi PPE byrrach wedi gwneud GIG Cymru yn fwy gwydn i newid, gan gynnwys pandemigau yn y dyfodol. Mae prosesau gwell hefyd wedi cael eu cyflwyno mewn ymateb i'r pandemig.
- Cymru iachach: roedd y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol a staff wedi helpu i fynd i'r afael â'r heriau iechyd a achoswyd gan y pandemig. Rhoddwyd mwy o ystyriaeth hefyd i effaith wahaniaethol y pandemig ar wahanol grwpiau demograffig.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang: mae sefydlu cadwyni cyflenwi cyfarpar diogelu personol mwy lleol a gwaredu gwastraff yn fwy effeithiol wedi lleihau ôl troed carbon.

3.154 Yn y pen draw, er bod y cymorth ESF yn ymateb brys ac nad yw'n realistig disgwyl iddo fod wedi cyflawni'r holl nodau uchod, mae'n enghraifft dda o ddefnyddio Pum Ffordd o Weithio'r Ddeddf, sef:

- Edrych tua'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Defnyddio dull integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin.
- Deall beth sy'n achosi problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd.

3.155 Mae rhai enghreifftiau a rannwyd gan gyfranogwyr sy'n ymwneud â'r pum ffordd o weithio yn cynnwys cydweithio cadarnhaol ar draws sefydliadau, edrych ar gyflenwyr lleol i gyflenwi cyfarpar diogelu personol mewn ffordd fwy cynaliadwy, ac ystyried sut mae trefniadau staffio a darparu cyfarpar diogelu personol yn effeithio ar bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn gwahanol ffyrdd.

# 4. Casgliadau

4.1 Yn y pen draw, mae'n anodd, os nad yn amhosibl, gwerthuso canlyniadau'r gweithrediad yn llawn o ran achub bywydau ac effeithiau iechyd, economaidd a chymdeithasol hirdymor am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae'n dal yn rhy gynnar i wneud hynny; ac yn ail, mae heriau methodolegol o ran asesu effaith a pha mor bell y gellir priodoli hyn yn uniongyrchol i'r gweithrediad, yn enwedig ac ystyried mai dim ond un rhan o'r ymateb ariannol i Covid-19 oedd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac nad oedd ganddo ei ddarpariaeth gweithredu ar wahân ei hun.

4.2 Fodd bynnag, wrth ystyried yr hyn y gellir ei archwilio, o ystyried bod y gweithrediad hwn wedi'i gyflawni'n ôl-weithredol ac nid o dan amgylchiadau 'arferol' defnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos bod hwn yn weithrediad a gynlluniwyd a'i roi ar waith yn ofalus, gyda rhesymeg wedi'i chynllunio'n ofalus. Rhoddwyd gofal i sicrhau bod ei gwmpas yn briodol a bod y targedau a osodwyd yn realistig. Dywedwyd bod hyblygrwydd y CE a'r eglurder a ddarparodd ar yr hyn a oedd y tu mewn a'r tu allan i gylch gwaith cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn rhan o'r rheswm y gallai tîm WEFO gael ei dargedu i'r fath raddau wrth gynllunio a'i fod yn gallu cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun busnes a fyddai'n cael ei gymeradwyo.

4.3 Mae tystiolaeth hefyd o gysylltiadau gweithio cadarnhaol rhwng WEFO, Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a phartneriaid strategol eraill yn cael eu defnyddio i roi hwb i'r gweithrediad a sicrhau bod targedau rhaglenni'n cael eu cyrraedd. Dywedwyd bod perthnasoedd gwaith eraill, mwy gweithredol, hefyd yn ffactor galluogi o ran sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol cywir yn cael ei ganfod a bod digon o staff yn cael eu recriwtio.

4.4 Yr agwedd fwyaf unigryw ar y gweithrediad oedd natur frys yr ymateb, a oedd yn golygu bod angen gwneud penderfyniadau gweithredol yn gyflym. Ategwyd hyn gan weithgarwch ôl-weithredol, ffactor pwysig arall wrth ystyried llwyddiant y gweithrediad. Er bod hyn wedi arwain at rai heriau, roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn cytuno nad oedd hyn yn rhoi byrddau iechyd dan anfantais, gan y byddai wedi bod yn rhaid dod o hyd i'r cyllid beth bynnag. Yn hytrach, roedd yr wybodaeth y byddai cymorth ariannol yn dod ar ryw ffurf yn galonogol ac yn negyddu'r angen am rai penderfyniadau anodd o ran cyllido

darpariaeth gwasanaethau yn ddiweddarach, er bod hynny yng nghyd-destun effaith cyni ehangach ar wasanaethau iechyd.

4.5 Dylid nodi bod natur ôl-weithredol y gweithrediad wedi ei gwneud yn fwy heriol ei werthuso. Gan nad oedd llawer o randdeiliaid a nodwyd yn gwybod llawer am ffynhonnell y cyllid a dderbyniwyd, roeddent yn gyndyn o gymryd rhan mewn gwaith maes, gan eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt ddim i'w gyfrannu. Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod yr ymholiad Covid-19 cenedlaethol, sy'n parhau ar yr un pryd â'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad hwn, wedi arwain at rybudd ynghylch ymgysylltu ymysg rhai rhanddeiliaid.

4.6 Roedd natur y gweithrediadau'n golygu bod ymwybyddiaeth o gyllid a ddyfarnwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn gyfyngedig ymysg rhanddeiliaid gweithredol, fel y gellid ei ddisgwyl efallai. Barn gyffredinol rhanddeiliaid gweithredol oedd, cyn belled â bod yr arian yn cael ei dalu, nad oedd y ffynhonnell yr un mor bwysig. O safbwynt strategol, roedd y gallu i dalu'r arian yn ôl-weithredol yn caniatáu ar gyfer cynllunio ac ystyried y cynllun busnes yn ofalus, a oedd, ym marn rhanddeiliaid, yn allweddol i'w lwyddiant.

4.7 Er nad oedd yn bosibl cynnwys targedau ffurfiol ar gyfer cyflawni'r Themâu Trawsbynciol, roedd rhywfaint o ystyriaeth i effeithiau cydraddoldeb yn y cynllun busnes. Roedd y gwaith hefyd yn tynnu sylw at rai o'r materion a ddaeth i'r amlwg wrth gaffael cyfarpar diogelu personol a recriwtio staff yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd defnyddio cadwyni cyflenwi moesegol a mwy lleol, cynaliadwyedd y cyfarpar diogelu personol a ddefnyddir yn y system, a sut y dylai amrywiaeth gweithlu'r GIG yng Nghymru ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

4.8 Er bod targedau a chanlyniadau gwrthrychol penodol yn fwriadol gul, roedd rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi cael eu bodloni: roedd digon o gyfarpar diogelu personol ar gael ar gyfer y sector iechyd; ac roedd capasiti staff wedi cael ei gynyddu'n ddigonol. Mae'r data'n cefnogi hyn ac yn dangos bod y gwaith hwn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr ymdrech gyffredinol i gaffael cyfarpar diogelu personol yng Nghymru; ariannu'r gwaith o brynu tua hanner yr holl eitemau o gyfarpar diogelu personol sy'n cael eu caffael yng Nghymru, a chyfrifo tua thraean o'r gwariant. Wrth gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer cynyddu nifer yr eitemau cyfarpar diogelu personol a brynwyd a'r staff a recriwtiwyd, gallwn ddweud

yn eithaf hyderus nad oedd natur ôl-weithredol y dyfarniad yn cyfyngu ar ei lwyddiant.

4.9 Mae'r data hefyd yn dangos bod y gwaith hwn wedi ariannu'r gwaith o recriwtio tua 4,000 o staff, ac mae llawer ohonynt yn dal yn eu swyddi. Yn wir, mae'n debyg mai'r budd hirdymor mwyaf o'r cyllid yw bod llawer o'r staff a gafodd eu recriwtio wedi cael eu cadw, gan leihau rhai o'r swyddi gwag ehangach yn y GIG yng Nghymru.

4.10 Yn olaf, mae rhanddeiliaid wedi arsylwi ar nifer o wersi allweddol, sy'n ymwneud ag ymateb Cymru i'r pandemig yn ehangach. Trosolwg:

- Mae gwerthfawrogiad o'r newydd o sut y gellir defnyddio hyblygrwydd mewn rhaglenni cyllido tymor hir i ymateb i argyfwng.
- Mae gweithio'n effeithiol ar draws sefydliadau wedi bod yn sbardun allweddol ar gyfer bwrw ymlaen â'r math hwn o weithredu fel rhan o ymateb brys.
- Mae datblygu perthnasoedd hefyd yn allweddol i fynd i'r afael ag argyfyngau'n llwyddiannus ar lefel weithredol.
- Mae meysydd i'w harchwilio a'u datblygu o ran gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu personol yng Nghymru.
- Mae'r ymateb i Covid-19 wedi tynnu sylw at yr angen i gefnogi rhagor o staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a nodweddion gwarchodedig eraill yn y gweithlu gofal iechyd[67].
- Mae angen gwelliannau o ran argaeledd ac ansawdd data yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol o ran nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ethnigrwydd, anabledd ac iechyd hirdymor. Byddai hyn yn arwain at nodi'n well ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar anghydraddoldeb iechyd ac yn helpu i fynd i'r afael â nhw'n fwy effeithiol[68].
- Pan fydd cyfyngiadau ariannol yn cael eu llacio, gall newid ddigwydd yn gyflym, ac mae'n debygol y bydd y newidiadau a wneir yn arwain at effeithlonrwydd ariannol yn ddiweddarach.
- Mae'n bwysig manteisio ar ddatblygiadau technolegol i wella systemau iechyd a modelau gofal, gan gynnwys symud tuag at arferion recriwtio ar-lein.

[67] Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried a'i ddatrys drwy gyflwyno safon cydraddoldeb hiliol y gweithlu – Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu – GIG Cymru

[68] Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried a'i ddatrys drwy gyflwyno safon cydraddoldeb hiliol y gweithlu – Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu – GIG Cymru

## Atodiad A: Canllawiau Pwnc Cyfweliad

*Gwerthusiad Cefnogi'r GIG drwy Covid*

### Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol (y tu allan i fyrddau iechyd)

**Cyflwyniad**

Mae Gwasanaethau Ymchwil Barn (ORS) wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o weithrediad 'Cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy COVID'. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol o rywfaint o'r wybodaeth hon, neu'r cyfan, ond byddaf yn dangos rhai sleidiau trosolwg i chi gael y cyd-destun.

**DANGOS SLEIDIAU**

Mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio i asesu'r modd y caiff y gweithrediad ei gyflawni a'r canlyniadau a gyflawnir ganddo. Y gobaith yw y bydd yr ymchwil yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am gryfderau ac unrhyw wendidau yn y gweithrediad, ac yn tynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd.

Fel rhan o'r gwerthusiad, mae ORS yn cynnal y cyfweliadau cwmpasu hyn fel man cychwyn ac yna bydd yn bwrw ymlaen i archwilio data monitro'r gweithrediad ac yn cyfweld ag amrywiaeth o randdeiliaid sy'n ymwneud â'r gweithrediadau neu sy'n ymwybodol ohonynt. Dylai'r cyfweliad gymryd tua 30-40 munud, yn dibynnu ar eich atebion.

**Gofynnwch am ganiatâd i recordio'r cyfweliad gan bwysleisio na fydd Llywodraeth Cymru yn clywed unrhyw recordiadau a'u bod at ddibenion ysgrifennu'n unig.**

Pan fyddwn wedi gorffen yr ymchwil, byddwn yn ysgrifennu adroddiad ar y canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn gwbl ddienw. Ni fyddwn yn eich enwi nac yn defnyddio unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol a allai ddatgelu pwy ydych chi yn yr adroddiad.

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi rywbryd eto yn gofyn a fyddech chi'n fodlon i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu heddiw gael ei chynnwys mewn astudiaeth achos. Byddwch yn cael cyfle i adolygu'r astudiaeth achos cyn iddi gael ei chyhoeddi a gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg yn y broses.

*Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei phrosesu gan ORS yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 y DU a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr Undeb Ewropeaidd (GDPR). Ni fydd ORS yn cadw unrhyw wybodaeth sy'n nodi pwy ydych chi fel unigolyn ar ôl mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd yn https://www.ors.org.uk/privacy_policy.php*

**ADRAN 1: Cyflwyniad / Gwybodaeth amdanoch chi**

| Cwestiynau |
|---|
| **1. Allwch chi roi trosolwg byr i mi o'ch rôl bresennol a'r sefydliad rydych chi'n gweithio ynddo?** |
| **2. Allwch chi roi trosolwg i mi o'ch rôl yn ystod y pandemig?**<br>**a) Beth oedd eich cyfrifoldebau yng nghyswllt Covid-19 yn ystod y pandemig?**<br>**b) A oedd gennych chi unrhyw gysylltiad â Llywodraeth Cymru ar yr ymateb i Covid-19? Os oedd, beth?** |

**ADRAN 2: Y rhesymeg dros y gweithredu**

| Cwestiynau |
|---|
| **3. [Yn dibynnu ar y cysylltiad] Beth yw eich barn / sut oeddech chi'n deall y rhesymeg gyffredinol dros y gweithredu (h.y. canolbwyntio ar gynyddu nifer y staff gweithredol dros dro/darparu cyfarpar diogelu personol)?**<br>**a) Ydych chi'n meddwl bod y rhesymeg hon yn gywir? Pam/pam ddim?** |
| **4. Beth yw eich barn am yr amcanion a nodwyd ar gyfer y gweithredu?**<br>**a) A oedd yr amcanion hyn yn gywir? Esboniwch eich ymateb.**<br>**b) A oes unrhyw flaenoriaethau eraill y dylid bod wedi'u hystyried? Os felly, beth ydyn nhw?**<br>**c) Pa effaith gafodd yr amcanion hyn ar eich sefydliad? [holwch am enghreifftiau o sut y gwnaethant gyfrannu atynt]** |

**ADRAN 3: Anawsterau a chyfleoedd a wynebwyd yn ystod y pandemig**

| Cwestiynau |
|---|
| **5. Wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau sylweddol yn ystod y pandemig?** ***[Holwch am enghreifftiau sy'n ymwneud â staffio a chyfarpar diogelu personol]***<br>a) **Beth oedd y rhesymau dros yr heriau hyn?**<br>b) **Sut gellid bod wedi osgoi'r heriau hyn?** |
| **6. Pryd a sut y cawsoch wybod bod cyllid yr UE yn cael ei ddarparu i dalu am gost prynu cyfarpar diogelu personol a staff a oedd newydd gael eu recriwtio yn ystod y pandemig?**<br>**a) Pa mor addas oedd y dulliau cyfathrebu/amseru hwn? Pam ydych chi'n dweud hyn?** |
| **7. Pa effaith, os o gwbl, a gafodd argaeledd y cyllid hwn ar eich sefydliad?** ***[holwch am effeithiau ar eu gallu i gefnogi byrddau iechyd a/neu eraill yn ystod y pandemig]*** |

| |
|---|
| **8. Y Themâu Trawsbynciol y cytunwyd arnynt gan yr UE yw:**<br>• **Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd, a'r Iaith Gymraeg**<br>• **Datblygu Cynaliadwy**<br>• **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**<br>**9. Ydych chi'n credu bod eich polisïau a'ch prosesau sefydliadol presennol wedi gallu cyfrannu at y Themâu Trawsbynciol yng nghyswllt caffael PPE a recriwtio staff?** ***(Holwch am enghreifftiau)***<br>**Ydych chi'n teimlo y dylai amcanion fel y Themâu Trawsbynciol gael eu cynnwys mewn ymatebion i argyfwng gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda** |

**ADRAN 4: Effeithiau a gwersi a ddysgwyd**

| **Cwestiynau** |
|---|
| **10. [gofynnwch os yw'n berthnasol] Gan feddwl am y sleidiau welsoch chi ar y dechrau, i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y cyllid wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion?** ***[Dangoswch sleid 3 eto os oes angen]***<br>**a) Pam ydych chi'n dweud hyn?** |
| **11. A fu unrhyw effeithiau anfwriadol? Os felly, beth oedden nhw?** ***[helpwch os oes angen: newid yn y ffordd mae cyfarpar diogelu personol yn cael ei gaffael, newidiadau tymor hwy i brosesau staffio, ystyriaeth bellach i themâu trawsbynciol...]*** |
| **12. Pe na bai'r cyllid wedi cael ei ddarparu, pa effaith (os o gwbl) fyddai hyn wedi'i chael ar ymateb eich sefydliad i Covid-19?** ***[holwch i weld a oedd modd defnyddio adnoddau eraill yn rhywle arall neu ar gyfer budd ychwanegol...os felly, beth/ble?]*** |
| **13. Yn eich barn chi, beth yw'r gwersi allweddol i'w dysgu o'r profiad hwn?** |
| **14. A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau eraill yr hoffech eu hesbonio?** |

## Cyfweliadau â staff byrddau iechyd / sefydliadau addysgol

**Cyflwyniad**

Mae Gwasanaethau Ymchwil Barn (ORS) wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o weithrediad 'Cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy COVID'. Rwy'n gwerthfawrogi efallai nad ydych chi'n gwybod llawer neu ddim byd am y gweithredu, felly cyn i ni ddechrau'r cyfweliad, byddaf yn dangos ychydig o sleidiau i chi sy'n rhoi trosolwg ohono.

**DANGOS SLEIDIAU**

Mae'r gwerthusiad rydym yn ei gynnal wedi'i gynllunio i archwilio canfyddiadau rhanddeiliaid o effaith y gweithrediad a'i gyllid ôl-weithredol, ac i helpu Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i dynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd.

O'r herwydd, mae ORS yn cynnal cyfweliadau ag unigolion sy'n gweithio mewn sefydliadau a oedd angen prynu cyfarpar diogelu personol ychwanegol neu recriwtio staff yn y sector iechyd yn ystod y pandemig i drafod eu profiadau o wneud hynny. Rydyn ni'n mynd i siarad am yr amser hwnnw, sut roedd eich sefydliad wedi diwallu ei anghenion o ran cyfarpar diogelu personol neu staffio, ac unrhyw ymwybyddiaeth sydd gennych o'r cyllid a fyddai ar gael i gefnogi'r gwariant ychwanegol.

[neu, **ar gyfer sefydliadau addysgol**: Mae ORS yn cynnal cyfweliadau ag unigolion sy'n gweithio mewn sefydliadau a oedd yn cefnogi'r ymdrech i recriwtio staff i'r sector iechyd yn ystod y pandemig i drafod eu profiadau o wneud hynny. Rydyn ni'n mynd i siarad am yr amser hwnnw, sut roedd eich sefydliad wedi diwallu ei anghenion o ran staffio, ac unrhyw ymwybyddiaeth sydd gennych o'r cyllid a fyddai ar gael i gefnogi'r gwariant ychwanegol.]

Dylai'r cyfweliad gymryd tua 30 munud, yn dibynnu ar eich atebion.

**Gofynnwch am ganiatâd i recordio'r cyfweliad gan bwysleisio na fydd Llywodraeth Cymru yn clywed unrhyw recordiadau a'u bod at ddibenion ysgrifennu'n unig.**

Pan fyddwn wedi gorffen yr ymchwil, byddwn yn ysgrifennu adroddiad ar y canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn gwbl ddienw. Ni fyddwn yn eich enwi nac yn defnyddio unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol a allai ddatgelu pwy ydych chi yn yr adroddiad.

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi rywbryd eto yn gofyn a fyddech chi'n fodlon i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu heddiw gael ei chynnwys mewn astudiaeth achos. Byddwch yn cael cyfle i adolygu'r astudiaeth achos cyn iddi gael ei chyhoeddi a gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg yn y broses.

*Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei phrosesu gan ORS yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 y DU a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr Undeb Ewropeaidd (GDPR). Ni fydd ORS yn cadw unrhyw wybodaeth sy'n nodi pwy ydych chi fel unigolyn ar ôl mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd yn [https://www.ors.org.uk/privacy_policy.php](https://www.ors.org.uk/privacy_policy.php)*

**ADRAN 1: Cyflwyniad / Gwybodaeth amdanoch chi**

| Cwestiynau |
|---|
| 1. Allwch chi roi trosolwg byr i mi o'ch rôl bresennol a'r sefydliad rydych chi'n gweithio ynddo? |
| 2. Allwch chi roi trosolwg i mi o'ch rôl yn ystod y pandemig?<br>a) [Os na chaiff ei grybwyll] A yw/oedd eich rôl yn cynnwys dod o hyd i gyfarpar diogelu personol neu recriwtio staff?<br>b) Pa gydweithwyr/rhanddeiliaid eraill oedd hefyd yn gysylltiedig â chael gafael ar PPE neu recriwtio staff?<br>i. Sut wnaethoch chi gydweithio i wneud hynny? |
| 3. Gan feddwl yn ôl at ddechrau'r pandemig, beth oedd prif anghenion eich sefydliad o ran naill ai cyfarpar diogelu personol neu staffio ar yr adeg honno?<br>a) A wnaeth y rhain newid wrth i'r pandemig fynd rhagddo? Os felly, sut? |
| 4. Prif flaenoriaeth y gweithrediad oedd prynu cyfarpar diogelu personol, gydag elfen eilaidd o recriwtio staff dros dro. Ydych chi'n meddwl mai dyma oedd y blaenoriaethau cywir? Pam/pam ddim?<br>a) Pa flaenoriaethau eraill ddylai fod wedi cael eu hystyried? |

**ADRAN 2: Prynu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) [Gofynnwch i'r rheini sy'n ymwneud â phrynu PPE yn unig]**

| Cwestiynau |
|---|
| 5. Sut aeth eich sefydliad ati i gael gafael ar gyfarpar diogelu personol ychwanegol yn ystod y pandemig?<br>*[Holwch am ei ymwneud â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)]*<br>a) A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau wrth wneud hynny? Os felly, beth oedd y rhesymau dros y rhain?<br>i. Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi osgoi'r heriau hyn?<br>ii. Sut, os o gwbl, y cawsant eu goresgyn?<br>b) Beth, os o gwbl, wnaeth alluogi'r broses i ddigwydd yn fwy effeithiol?<br>6. Beth oedd graddfa'r broses brynu?<br>*[Holwch faint mwy yn fras o gyfarpar diogelu personol a brynwyd dros lefelau prynu nad oeddent yn gysylltiedig â'r pandemig]*<br>a) Oeddech chi'n gallu dod o hyd i ddigon o gyfarpar diogelu personol i ddiwallu anghenion ar y pryd?<br>b) Os nad oeddech, pam ddim – a beth oedd effaith hyn? *[holwch sut y gwnaethant ymdopi neu lenwi bylchau yn yr hyn a oedd ar gael]*<br>Faint o'r hyn a gafwyd a ddefnyddiwyd yn y pen draw? *[holwch faint gafodd ei wastraffu, os o gwbl]* |

| |
|---|
| **7. Wrth ddod o hyd i gyfarpar diogelu personol, faint o ystyriaeth wnaethoch chi/oeddech chi'n gallu ei rhoi i ...? Pam?**<br>**a) Materion cynaliadwyedd/amgylcheddol**<br>**b) Pa mor addas ydyw ar gyfer gwahanol aelodau o staff**<br>**c) Ei ansawdd *[holwch a oedd yn hapus gyda'r broses wirio ansawdd allanol a reolwyd gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau]*** |
| **8. Yn gyffredinol, pa effaith gafodd y cyfarpar diogelu personol ychwanegol ar eich sefydliad?**<br>***[Holwch am ganlyniadau/effeithiau tymor byr: mwy o gapasiti i ddelio â phandemig COVID; darparu gwasanaethau'n ddiogel/digonol; achub bywydau]***<br>***[Holwch am ganlyniadau/effeithiau tymor hir: lleihau effeithiau negyddol hirdymor y pandemig ar iechyd, yr economi a chymdeithas]*** |

**ADRAN 3: Recriwtio staff [dim ond i'w gofyn i'r rhai sy'n ymwneud â recriwtio staff]**

| Cwestiynau |
|---|
| **9. Sut aeth eich sefydliad ati i recriwtio staff ychwanegol yn ystod y pandemig? [i'r rheini sy'n gweithio mewn sefydliadau e.e. prifysgolion sy'n cyflenwi staff: Sut gwnaeth eich sefydliad gefnogi'r broses o recriwtio staff ychwanegol yn ystod y pandemig? Addaswch y cwestiynau dilynol yn unol â hynny]**<br>**a) A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau wrth wneud hynny? Os felly, beth oedd y rhesymau dros y rhain?**<br>**i. Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi osgoi'r heriau hyn?**<br>**ii. Sut, os o gwbl, y cawsant eu goresgyn?**<br>**b) Beth, os o gwbl, wnaeth alluogi'r broses i redeg yn esmwyth? *(Holwch am enghreifftiau)*** |
| **10. O ble daeth y staff ychwanegol a recriwtiwyd gan eich sefydliad?**<br>***[Holwch am bobl sydd wedi ymddeol, myfyrwyr, neu rywle arall]***<br>**a) Beth oedd y cydbwysedd rhwng y grwpiau rydych chi wedi sôn amdanyn nhw (e.e. tua faint oedd yn fyfyrwyr ar gwrs dysgu carlam a faint oedd yn staff wedi ymddeol neu eraill)**<br>**b) Pa effaith gafodd recriwtio o'r grwpiau penodol hynny ar y sefydliad ar y pryd?** |
| **11. Wrth ddod o hyd [neu gyflenwi] staff, faint o ystyriaeth wnaethoch chi/oeddech chi'n gallu ei rhoi i ...? Pam?**<br>**a) Cydraddoldeb ac amrywiaeth**<br>**b) Sicrhau darpariaeth Gymraeg** |
| **12. A wnaethoch chi ddefnyddio'r adnodd asesu risg i asesu risgiau Covid-19 i staff? [dangoswch sleid ar yr adnodd]**<br>**a) Os felly, pa mor ddefnyddiol oedd hyn?** |

| |
|---|
| **13. Ar y cyfan, pa effaith a gafodd y staff ychwanegol ar eich sefydliad?**<br>***[Holwch am ganlyniadau/effeithiau tymor byr: mwy o gapasiti i ddelio â phandemig COVID; darparu gwasanaethau'n ddiogel/digonol; achub bywydau]***<br>***[Holwch am ganlyniadau/effeithiau tymor hir: lleihau effeithiau negyddol hirdymor y pandemig ar iechyd, yr economi a chymdeithas]*** |

**ADRAN 4: Effeithiau a gwersi a ddysgwyd [gofynnwch hyn i bawb]**

| Cwestiynau |
|---|
| **14. Yn ystod y pandemig, pryd, os o gwbl, y daethoch i wybod y byddai Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn darparu cyllid i dalu am gyfarpar diogelu personol ychwanegol a staff?**<br>**a) A wnaethoch chi ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru ynghylch cynllunio neu gyflwyno'r cyllid? Os felly, sut beth oedd hyn?**<br>**b) Sut oedd y negeseuon a'r dulliau cyfathrebu ynghylch hyn? Er enghraifft, sut clywsoch chi am unrhyw ddiweddariadau?**<br>**c) Beth, os unrhyw beth, oedd yn arbennig o dda am y negeseuon a'r dulliau cyfathrebu?**<br>**d) Beth, os unrhyw beth, fyddai wedi gallu bod yn well am y negeseuon a'r dulliau cyfathrebu?** |
| **15. [Os oedd ymwybodol y byddai cyllid ar gael] Sut, os o gwbl, oedd gwybod y byddai cyllid ar gael gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn effeithio ar eich penderfyniadau ynghylch cael gafael ar gyfarpar diogelu personol a/neu recriwtio staff ar y pryd?** |
| **16. Pa effaith, os o gwbl, a gafodd derbyn cyllid yn ôl-weithredol ar eich sefydliad?**<br>**a) Pa wahaniaeth, os o gwbl, fyddai cael y cyllid yn gynt wedi'i wneud?**<br>**b) Ydych chi'n teimlo bod unrhyw effeithiau anfwriadol? Os felly, beth oedden nhw?** |
| **17. Pe na bai'r cyllid wedi cael ei ddarparu, pa effaith (os o gwbl) fyddai hyn wedi'i chael ar weithrediadau a chyllideb eich sefydliad yn y dyfodol?**<br>***[Holwch i weld a oedd modd defnyddio adnoddau eraill yn rhywle arall neu ar gyfer budd ychwanegol...os felly, beth/ble?]*** |
| **18. Gan feddwl am y sleidiau welsoch chi ar y dechrau, i ba raddau ydych chi'n meddwl bod y cyllid wedi cyflawni ei nodau a'i amcanion? *(Dangoswch y sleidiau eto os oes angen)***<br>**a) Pam ydych chi'n dweud hyn?** |
| **19. Yn eich barn chi, beth yw'r gwersi allweddol i'w dysgu o'r profiad hwn?** |
| **20. A oes unrhyw safbwyntiau eraill yr hoffech eu hesbonio?** |

## Atodiad B: Damcaniaeth Newid y Gweithrediad



# Atodiad C: Astudiaethau Achos

## Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi trosolwg o Weithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i Gefnogi'r GIG drwy Covid-19 o safbwynt y tîm Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni.

### Cyflwyniad

Ar ddechrau pandemig Covid-19 yn ystod misoedd cynnar 2020, roedd graddfa a difrifoldeb y sefyllfa'n dod yn amlwg yn gyflym.

> *"Y coronafeirws yw'r bygythiad mwyaf y mae'r wlad hon wedi'i wynebu ers degawdau – ac nid yw'r wlad hon ar ei phen ei hun…*
>
> *... Heb ymdrech genedlaethol enfawr i atal y feirws hwn rhag tyfu, fe ddaw adeg pan na fydd unrhyw wasanaeth iechyd yn y byd yn gallu ymdopi; oherwydd ni fydd digon o beiriannau anadlu, ni fydd digon o welyau gofal dwys, a ni fydd digon o feddygon a nyrsys…*
>
> *... Yn syml, os bydd gormod o bobl yn mynd yn ddifrifol wael ar yr un pryd, ni fydd y GIG yn gallu delio â hyn – sy'n golygu bod mwy o bobl yn debygol o farw, nid yn unig o'r Coronafeirws ond o salwch arall hefyd."*
> *Boris Johnson, Cyn-Brif Weinidog y DU, 23 Mawrth 2020*

Arweiniodd y sefyllfa frys hon a'r ansicrwydd ynghylch cyllid a chapasiti yn y GIG, i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru archwilio a ellid defnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop, nad oedd wedi cael ei defnyddio i unrhyw raddau sylweddol o'r blaen yn y maes iechyd am resymau rheoleiddio, i leddfu'r pwysau ar fyrddau iechyd.

> *"... Mae'r pandemig wedi digwydd mor gyflym, ac nid oes gan neb unrhyw brofiad o hynny. Daeth yn amlwg yn gynnar iawn nad oedd y GIG yn gallu delio â'r diffyg cyfarpar diogelu personol a materion staffio ... Roedd yn gyfnod brawychus"*
> *Rhanddeiliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru*

### Echel Blaenoriaeth 6 Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Rhoddodd y Comisiwn Ewropeaidd wybod i Awdurdodau Rheoli y gellid defnyddio arian Cronfeydd Strwythurol i ymateb i Bandemig Covid-19. Aeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ati wedyn i adolygu'r opsiynau a oedd ar gael a nodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a chynnig Echel Blaenoriaeth newydd – 'Cyfyngu Covid drwy

Gapasiti' – a gafodd ei gynnig a'i dderbyn gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Llywodraeth Cymru[69]. Yna, cafodd y cynnig ei anfon at y Comisiwn Ewropeaidd, a'i gymeradwyo ym mis Ionawr 2021.

Amcanion allweddol Echel Blaenoriaeth 6: 'Cyfyngu Covid drwy Gapasiti' oedd:

- Cynyddu mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol drwy gynyddu capasiti'r sector iechyd a gofal yn wyneb COVID-19.
- Diogelu'r GIG rhag cael ei llethu.
- Cefnogi endidau i gyfyngu ar effaith y pandemig, er mwyn achub bywydau a lleihau effeithiau iechyd, economaidd a chymdeithasol negyddol hirdymor COVID-19.
- Darparu gwasanaeth diogel a digonol i gleifion yn ystod y pandemig.
- Rhoi cyfarpar diogelu personol priodol i staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'w hamddiffyn rhag dal a throsglwyddo'r clefyd.

Y prif flaenoriaeth oedd prynu cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector, gydag elfen eilaidd o recriwtio staff dros dro i gynyddu capasiti'r gweithlu. Roedd yr elfen eilaidd hon yn amodol ar argaeledd cyllid ac fe'i gwireddwyd wrth i'r ddarpariaeth fynd rhagddi. Yn ystod y gwerthusiad o'r gweithrediad, roedd y blaenoriaethau hyn, yn ogystal â rhesymeg ac amcanion sylfaenol y gweithrediad, yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel y rhai cywir.

Roedd cyfarpar diogelu personol a staffio yn ffyrdd effeithiol o ddod â chyllid yr UE i mewn i gynyddu capasiti, gan ryddhau cyllid domestig i gefnogi pwysau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Er bod y rheoliadau wedi'u llacio i ehangu cwmpas yr hyn y gellid ei gefnogi, nid oedd unrhyw newid i'r gofynion o ran rheolaeth ariannol. Felly, roedd yn hanfodol canolbwyntio ar bethau y gellid eu harchwilio'n gyflym.

Gan fod hwn yn ymateb brys i'r pandemig, cafodd penderfyniadau eu gwneud yn gyflym, a gyda chytundeb y Comisiwn Ewropeaidd, eu mabwysiadu gan ddefnyddio proses symlach. Defnyddiwyd cronfeydd yn ôl-weithredol, a dalwyd ddechrau 2023, i gefnogi dulliau darparu a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer darparu cyfarpar diogelu personol a staff ychwanegol.

**Gweithrediad, Heriau a Galluogwyr**

Yn naturiol, roedd rhai heriau'n gysylltiedig â'r gweithrediad.

Yr her gyntaf oedd penderfynu sut i ailgyfeirio cronfeydd a oedd eisoes wedi'u dynodi i amcan penodol, ac ar adeg gymharol hwyr yn ystod y cyfnod rhaglennu. Roedd hefyd angen datblygu cynllun busnes a oedd yn bodloni gofynion craffu ac archwilio'r Comisiwn Ewropeaidd. Byddai paratoi hyn yn cael effaith ar lwyth gwaith, a gyda staff iechyd Llywodraeth Cymru eisoes yn neilltuo llawer o amser i faterion yn ymwneud â'r pandemig, roedd hi'n anodd dod o hyd i amser ar gyfer sefydlu'r gweithrediad.

O ystyried y byddai dibyniaeth ar fyrddau iechyd unigol i ddarparu data i gefnogi'r hawliad am gyllid, roedd risg y byddai hyn yn dilyn fformat anghyson. Yn gysylltiedig

[69] Y corff sy'n gyfrifol am oruchwylio rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

â hyn roedd trafodaethau ynghylch a ddylai'r cyllid hwn hefyd gefnogi'r sector gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch yr amrywiaeth o ddarparwyr yn y sector, y cymhlethdod y gallai hyn ei achosi, ac anghysondebau posibl o ran casglu a darparu data. Dan arweiniad rhanddeiliaid y sector cymdeithasol, penderfynwyd darparu cyllid i fyrddau iechyd yn unig.

Roedd risg ariannol ar y cyd hefyd rhwng Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru o dan-ymrwymo neu or-ymrwymo cronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a oedd angen eu rheoli'n ofalus.

*"Yn y pen draw, roedd yn mynd i fod yn risg ariannol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru oherwydd... dim ond swm penodol y gallwn ei gymryd gan y Comisiwn Ewropeaidd...ac mae'n rhaid i ni barhau i roi arian i brosiectau sydd eisoes yn bodoli... Os byddwn yn gwneud pethau'n anghywir ac yn gwario mwy o arian nag sydd gennym ar y gwaith hwn...Llywodraeth Cymru sy'n gorfod talu'r bil hwnnw. Felly ... mewn gwirionedd, honno oedd ein 'llinell goch' ni." Rhanddeiliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru*

Er gwaethaf yr heriau, roedd cynllunio ac ystyriaeth ofalus yn creu cyfres o ffactorau galluogi a oedd yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r gweithrediad.

Aeth tîm Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ati'n ofalus i gwmpasu posibiliadau a chyfyngiadau ariannol y gwaith yn ystod y camau cynllunio. Fe wnaethant hefyd sicrhau bod yr achos busnes a godwyd ar gyfer yr Echel Blaenoriaeth newydd mor gynhwysfawr â phosibl, ac yn ystyried yr effeithiau ar grwpiau cydraddoldeb, cyn ei rannu â'r Comisiwn Ewropeaidd, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt gael eu cymeradwyo.

Roedd dau beth yn allweddol i'r llwyddiant hwn o safbwynt cynllunio: cael gweithgor 'cadarn', da yn ei le; a manteisio ar y bartneriaeth strategol effeithiol bresennol rhwng Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a staff iechyd Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd yr hyblygrwydd a'r eglurder a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd wrth esbonio pa gostau fyddai'n gymwys a sut y dylai hyn ddigwydd, yn hanfodol.

*"Rôl y Comisiwn ... Eglurder ac arweiniad a hyblygrwydd a'r cyflymder; rhanddeiliaid sy'n ein cefnogi ni a pheidio â bod yn diriogaethol, a thimau o fewn y Llywodraeth yn gweithio mewn ffordd glir ac adeiladol, yn ogystal â herio ei gilydd..." Rhanddeiliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru*

O safbwynt gweithredol, ystyriwyd bod cadw'r gweithrediad yn 'syml' gyda nodau ac amcanion clir yn bwysig o ran sicrhau ei lwyddiant, yn ogystal â chael yr adnoddau

a'r sgiliau staff cywir ar waith. Roedd hefyd yn hanfodol bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cymryd yr awenau o ran rheoli a chyflawni'r gweithrediad o ystyried y pwysau dwys ar staff y GIG, a'r angen i reoli risgiau ariannol a gweithredol posibl.

Roedd natur ôl-weithredol darparu cyllid yn golygu nad oedd yn ofynnol i staff byrddau iechyd ddarparu data rhifol ar gyfarpar diogelu personol a staff yn ystod cyfnod mwyaf heriol y pandemig. Roedd hyn yn golygu y gellid casglu data mwy cyson a chywir ar ôl caffael neu recriwtio. Roedd hefyd yn hanfodol er mwyn rhoi amser i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gynllunio'r gweithrediad yn briodol.

---

*"Roedd ôl-weithredu'n caniatáu i ni fwrw ymlaen â'r cysyniad gyda gofal priodol ... Pe byddem wedi cael ein gwthio ... Byddem wedi brysio oherwydd byddem un ai wedi bod yn aflwyddiannus yn ystod y cam hawlio ... neu wedi bod yn aflwyddiannus yn ddiweddarach drwy archwilio ... Rhoddodd amser i ni weithio ar hyn gam wrth gam a gwneud yn siŵr nad oedd unrhyw un ohonom yn rhoi ein hunain mewn sefyllfa amhosib..." Rhanddeiliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru*

---

**Allbynnau, effeithiau a gwersi a ddysgwyd**

---

*"... Gellid cynllunio ar gyfer yr angen brys am gyllid i ddelio ag argyfwng Covid. Yna, y gweithrediad yn parhau ac yn gwneud yr hyn a ddywedodd, rhywbeth nad yw rhai o'n prosiectau yn ei wneud. Daeth yn rhan ddefnyddiol o raglen lwyddiannus iawn…*

*... Roedd argyfwng, roedd dau beth allweddol roedd angen i ni eu gwneud ... Ac fe wnaethon ni eu gwneud nhw."*
*Rhanddeiliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru*

---

Yn ei hanfod, llwyddodd y gweithrediad i gyflawni ei nodau a'i amcanion allweddol: prynwyd mwy o gyfarpar diogelu personol a chynyddodd capasiti staff yn y sector iechyd, yn unol â'r targedau rhifol a ddangosir isod.

**Targedau Allbwn a Rhagolygon Gweithredu (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, 31/10/2022)**

| Amcan | Allbynnau | Targedau | Rhagolwg o'r Prosiect |
|---|---|---|---|
| **Gwella mynediad at wasanaethau** | Nifer y staff iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol a recriwtiwyd | 2,400 GCC*<br>1,800 DC** | 2,584 GCC<br>1,391 DC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **iechyd a chymdeithasol (SO6.1)** | Gwerth yr offer diogelu personol a brynwyd (cyfanswm y gost gyhoeddus) | €39.0m GCC<br>€30.0m DC | €71.4m GCC<br>€57.6m DC |
| | Cyfarpar Diogelu Personol (gan gynnwys masgiau tafladwy, cyfarpar diogelu'r llygaid, gorchuddion ac ati) (eitemau) | 36m GCC<br>27m DC | 165m GCC<br>134m DC |
| | Nifer yr endidau a gefnogwyd i frwydro yn erbyn neu atal effeithiau pandemig Covid-19. | 7 GCC<br>6 DC | 8 GCC<br>7 DC |

*Gorllewin Cymru a'r Cymoedd **Dwyrain Cymru

Ar ben hynny, fel elfen gwerth ychwanegol, roedd Llywodraeth Cymru (drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) yn gallu rhoi sicrwydd i fyrddau iechyd y byddai cyllid ar gael i gefnogi eu gwariant Covid-19. Wrth wneud hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd i Fyrddau Iechyd yn eu penderfyniadau cyllido a chynllunio darpariaeth.

Er ei fod yn risg uchel ei natur, roedd y gweithrediad hefyd yn adnodd defnyddiol ar gyfer rheoli'r rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Roedd opsiynau eraill ar gyfer cynnal lefelau ymrwymiad a gwariant ond roedd y pandemig yn datblygu'n gyflym ac yn creu llawer o ansicrwydd o ran cyflawni, felly roedd y risgiau o ran gwariant yn benodol yn cynyddu. Nid oedd defnyddio cronfeydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop at ddibenion iechyd yn rhywbeth a ragwelwyd cyn y pandemig, a'r gobaith yw bod y berthynas 'newydd' a ffurfiwyd fel hyn gyda'r byrddau iechyd yn rhywbeth a fydd yn hwyluso mwy o gydweithio yn y dyfodol ac yn darparu gwersi allweddol ar gyfer cynllunio cyllid rhanbarthol ar ôl Brexit.

Ar gyfer tîm Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, mae lle ac arbenigedd angenrheidiol o fewn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ymateb yn brydlon i argyfyngau, hyd yn oed wrth i raglenni ddod i ben. Mae pwysigrwydd cael cronfa o reolwyr rhaglenni profiadol ac arbenigwyr thematig i'w defnyddio wedi cael ei wneud yn glir hefyd.

O safbwynt ymarferol, mae'r profiad wedi pwysleisio pwysigrwydd adolygu cynnydd yn gyson wrth i gynigion fel hyn ddatblygu. Yn yr achos hwn, roedd yn sicrhau bod y gweithrediadau (a'r Flaenoriaeth) yn gweithio i bawb yn yr amgylchiadau anarferol. Unwaith eto, mae cael gweithgor da yn ei le yn helpu hyn, ac mae'r broses a arweiniodd at y gweithrediad hwn yn cael ei hystyried yn enghraifft gadarnhaol o gydweithio ar draws sefydliadau.

*"Yr hyn rwyf yn ei gofio yw grŵp da iawn o bobl sy'n ceisio gwneud i hyn ddigwydd gan ddefnyddio eu profiad, eu gwybodaeth a'r canllawiau a oedd ar gael."*
*Rhanddeiliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru*

**Crynodeb**

- Roedd yr Echel Blaenoriaeth 6 newydd ei chreu – 'Cyfyngu Covid drwy Gapasiti' – yn cyflawni ei nodau a'i hamcanion allweddol drwy brynu cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector iechyd; a recriwtio staff dros dro i gynyddu capasiti'r gweithlu.
- Cafodd yr heriau posibl o gyflawni'r gweithrediad eu goresgyn drwy gynllunio manwl ac ystyriaeth ofalus ar ran Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; gweithgor 'cadarn'; partneriaethau strategol effeithiol presennol; a chadw'r gweithrediad yn 'syml' o ystyried y pwysau dwys ar staff y GIG.
- Roedd natur ôl-weithredol y broses o ddarparu cyllid yn hanfodol er mwyn rhoi amser i staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gynllunio'r gweithrediad yn briodol, a pheidio â rhoi baich ar staff y byrddau iechyd i ddarparu data rhifol ar gyfarpar diogelu personol ar adeg heriol iawn.
- Mae'r gweithrediad wedi dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio effeithiol o fewn ac ar draws sefydliadau; adolygu cynnydd wrth i weithrediadau newydd ddatblygu i sicrhau eu bod yn gweithio i bawb; a chael cronfa o reolwyr rhaglenni profiadol ac arbenigwyr thematig i'w defnyddio.

## Astudiaeth Achos: Themâu Trawsbynciol

Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi trosolwg o'r ystyriaeth o themâu trawsbynciol yng Ngweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i Gefnogi'r GIG drwy Covid-19.

### Cyflwyniad

Ar ddechrau pandemig Covid-19, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd (CE) y byddai costau gofal iechyd cysylltiedig â Covid-19 yn gymwys ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sy'n rhan o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Cymeradwyodd Echel Blaenoriaeth newydd i Gymru - 'Cyfyngu Covid drwy Gapasiti' - ym mis Ionawr 2021, gyda'r flaenoriaeth allweddol o brynu PPE ar gyfer y sector, ac elfen eilaidd o recriwtio staff dros dro i gynyddu capasiti'r gweithlu gyda ffocws penodol ar fyfyrwyr Addysg Uwch (AU) a gweithwyr gofal iechyd sydd wedi ymddeol yn ddiweddar. Defnyddiwyd cronfeydd yn ôl-weithredol, a dalwyd ddechrau 2023, i gefnogi dulliau darparu a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer darparu cyfarpar diogelu personol a staff ychwanegol.

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n rheoli Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn nodi bod yn rhaid i bob gweithred integreiddio Themâu Trawsbynciol. Dyma nhw ar gyfer Cymru:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd (sy'n cynnwys y Gymraeg).
- Datblygu Cynaliadwy.
- Trechu tlodi ac allgau cymdeithasol.

Mae'r ddwy gyntaf o'r Themâu Trawsbynciol hyn yn orfodol o dan reoliadau'r UE. Mae Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol wedi cael ei chynnwys fel thema ychwanegol yn unol ag ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi.

Fel arfer, byddai'r cynllun busnes ar gyfer gweithrediad fel hwn yn destun asesiad Themâu Trawsbynciol llawn a byddai'n cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi menywod, gweithwyr hŷn a gweithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Byddai ystyriaethau hefyd ynghylch y Gymraeg, cynaliadwyedd offer, cadwyni cyflenwi moesegol, systemau cymorth i weithwyr, ac effeithiau cynhwysiant cymdeithasol.

Fodd bynnag, gan fod hwn yn ymateb brys i'r pandemig a'r angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd, cafodd penderfyniadau eu gwneud yn gyflym a heb yr holl weithdrefnau arferol, gyda chaniatâd y CE. Gan mai ffocws y prosiect oedd recriwtio cymaint o staff â phosibl, prin oedd y cyfle, os o gwbl, i flaenoriaethu grwpiau o unigolion i gynyddu eu cynrychiolaeth yn y gweithlu.

Yn y cyd-destun hwn, penderfynwyd peidio â chynnwys dangosyddion 'ffurfiol' ar gyfer Themâu Trawsbynciol yn y cynllun busnes, ac nid oedd yn bosibl cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n cael ei gynnal fel arfer wrth gynllunio rhaglenni. Fodd bynnag, roedd cydraddoldebau a Themâu Trawsbynciol yn cael eu hystyried yn y cynllun busnes, er nad oeddent yn cael eu ffurfioli drwy

ddangosyddion, ac roedd tîm Themâu Trawsbynciol WEFO yn cymryd rhan mewn arfarniadau o'r cynllun o'r dechrau.

---

*"Fy mhwynt i gydweithwyr oedd, 'Peidiwch â rhoi'r [dangosyddion] hynny yn y cynllun busnes nawr' gan nad oes ganddyn nhw unrhyw ffordd o'u cyflawni. Rhaid i ni fod yn onest ac yn agored a dweud, 'Dyna beth fydden ni wedi hoffi ei weld ond doedd dim modd eu cynnwys' gan ei fod yn brosiect ôl-weithredol"*

*Rhanddeiliad WEFO*

---

**Ystyried themâu trawsbynciol**

Wrth gynllunio'r gweithrediad, yng nghyd-destun y pandemig parhaus, roedd nifer o bryderon allweddol yn ymwneud â'r Themâu Trawsbynciol.

Recriwtio Staff

Yr oedd y cyntaf yn ymwneud â lles staff, yn enwedig y rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen. Rhan allweddol o'r gwaith oedd darparu cyllid i weithwyr gofal iechyd sydd wedi ymddeol i ddychwelyd i'r gweithlu. Gan fod pobl hŷn yn gallu bod yn arbennig o agored i effeithiau Covid-19, roedd pryderon ynghylch yr effaith ar y grŵp hwn wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Roedd pryderon hefyd ynghylch y cyfraddau uchel o weithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y GIG, gyda'r amrywiaeth hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod staff a myfyrwyr sy'n dychwelyd yn cael eu cynnwys yn y gweithlu. Roedd hi'n dod yn amlwg yn gynnar yn y pandemig bod y grwpiau hyn yn fwy agored i effeithiau Covid-19.

Prynu cyfarpar diogelu personol

Yn gysylltiedig â hyn roedd addasrwydd y cyfarpar diogelu personol y cafwyd gafael arno'n gyflym. Y brif flaenoriaeth drwy gydol y pandemig oedd sicrhau nad oedd Cymru'n mynd yn brin o gyfarpar diogelu personol. Roedd y gallu neu'r cyfle i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd moesegol ac ehangach wedi'i gyfyngu gan yr angen i sicrhau bod Cymru'n cyflawni'r flaenoriaeth hon. Ar ben hynny, oherwydd y farchnad gystadleuol ar gyfer cyfarpar diogelu personol, roedd y cyfarpar a brynwyd yn ddyluniad safonol, yn bennaf addas ar gyfer cyrff  gwrywaidd generig. Felly nid oedd y nwyddau a brynwyd yn adlewyrchu proffil amrywiaeth na rhyw gweithlu'r GIG ar y pryd (mater a adlewyrchwyd yng nghanfyddiadau nifer o astudiaethau ymchwil a gynhaliwyd ar y pryd[70] [71] [72]). Roedd pryderon hefyd ynghylch materion hygyrchedd

---

[70] BMJ: Profiadau Gweithwyr Gofal Iechyd Rheng Flaen gyda chyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 yn y DU (Ionawr 2021)

[71] Martin, C.A., Pan, D., Nazareth, J. et al.Mynediad at gyfarpar diogelu personol ymysg gweithwyr gofal iechyd yn ystod pandemig COVID-19 yn y Deyrnas Unedig: canlyniadau astudiaeth o garfan genedlaethol (UK-REACH). BMC Health Serv Res 22, 867 (2022)

[72] Robbins T, Kyrou I, Vankad M, et al.Canfyddiadau gwahaniaethol ynghylch defnydd cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y GIG yn seiliedig ar ethnigrwydd, rhyw a phrofiad proffesiynol. Infect Prev Pract. 2021;3(3):100141

cyfarpar diogelu personol: gall masgiau fod yn rhwystr cyfathrebu i bobl niwrowahanol neu'r rheini sydd â nam ar eu clyw.

Fodd bynnag, rhoddwyd prosesau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol o ansawdd digonol i fod yn effeithiol yn glinigol – cafodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru[73] ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gasglu ac adolygu cyflwyniadau gan gyflenwyr sydd eisiau gwerthu cyfarpar diogelu personol a chynhyrchion a gwasanaethau eraill. Roedd yr adolygiadau hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion ansawdd a rhai gwiriadau busnes safonol. Anfonwyd cynigion cymwys o gynnyrch ymlaen i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i symud cynigion ymlaen i'r broses gaffael. Bu Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) ym Mhen-y-bont ar Ogwr i brofi ansawdd cyfarpar diogelu personol a chanfod ardystiad twyllodrus.

Mater allweddol arall ynghylch PPE oedd ei gynaliadwyedd: roedd llawer o'r cyfarpar wedi'i wneud o blastig untro, hyd yn oed os oedd o ansawdd da. Roedd pryderon ymarferol hefyd ynghylch ei waredu, yn enwedig gan fod angen gadael rhai eitemau ar eu pen eu hunain am 72 awr cyn cael eu trin. Yn gysylltiedig â materion cynaliadwyedd roedd pryderon ynghylch pa mor foesegol oedd y cadwyni cyflenwi PPE a oedd yn cael eu defnyddio.

*"Mae'n debyg bod pryderon hefyd am gaethwasiaeth fodern a rhai o'r safonau yn y ffatrïoedd rydyn ni'n eu defnyddio dramor."*
*Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru*

**Allbynnau, effeithiau a gwersi a ddysgwyd**

Roedd angen realaeth o ran yr hyn y gellid ei gyflawni drwy weithredu o safbwynt Themâu Trawsbynciol oherwydd ei natur ôl-weithredol. Fodd bynnag, mewn ystyr ehangach, mae rhai elfennau cadarnhaol i'w dysgu o ymateb Cymru i'r pandemig, yn enwedig yr ymdrechion i wella cynaliadwyedd a datblygu cadwyni cyflenwi moesegol drwy ddod o hyd i fwy o gyflenwyr cyfarpar diogelu personol lleol. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud ar ddatblygu masgiau wyneb tryloyw i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw ac eraill. Roedd y rhain yn cael eu hystyried yn gamau cadarnhaol mewn sefyllfa oedd yn symud mor gyflym ac o ystyried maint y broses brynu.

*"... Dod â'r gadwyn gyflenwi honno yn ôl i Gymru. Felly, chwilio am weithgynhyrchwyr yng Nghymru, gan geisio sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol hwnnw'n cael ei gynhyrchu'n nes at lle'r oedd ei angen. Ac rwy'n dyfalu bod gan hynny fanteision economaidd, felly mae hynny'n cyd-fynd. Mae'n cefnogi gweithgarwch economaidd*

[73] Corff hyd braich o Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi arloesedd a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd

*yng Nghymru, mae'n fwy cynaliadwy gan fod ganddo ôl troed carbon is gan iddo deithio llai o bellter. Mae'n fwy cynaliadwy oherwydd os yw'r cyfan yng Nghymru, rydych chi'n gallu rheoli'n llawer gwell ble mae'n eich cyrraedd chi, a sut."*

*Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru*

---

Yng nghyd-destun Cyfarpar Diogelu Personol, roedd dyluniad safonol y rhan fwyaf o'r hyn a gafaelwyd yn cael ei gydnabod yn gyflym fel problem i staff, a chafodd canllawiau eu datblygu a'u rhannu â byrddau iechyd / ymddiriedolaethau er mwyn i staff allu mynd i'r afael ag unrhyw broblemau'n briodol. Er enghraifft, yn gynnar yn y pandemig, nodwyd problem gyda sut oedd math penodol o fasg yn ffitio. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddull o wella ffit a lleihau methiannau o ran profion ffitio. Rhannodd fideo ar draws GIG Cymru i helpu i wella ffit y masgiau ar gyfer ystod ehangach o staff gofal iechyd. Roedd y defnydd o beiriannau prawf ffitio hefyd yn gostwng cyfraddau methu.

O ran uchelgais yn y dyfodol, mae angen gwaith i sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn fwy moesegol ac amgylcheddol gynaliadwy yn y tymor hir, eto drwy ddibynnu mwy ar gyflenwyr lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun polisi 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru, ac mae contract fframwaith ar waith erbyn hyn sy'n edrych ar ôl troed carbon lle daw PPE yn y dyfodol (yn ogystal â materion fel caethwasiaeth fodern). Mae ystyried ffyrdd o sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn addas i'r diben ac yn addas ar gyfer gweithlu amrywiol hefyd yn hanfodol i fynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd gan brofiadau yn ystod Covid-19.

Yn y pen draw, tynnodd y pandemig sylw at y ffaith bod y GIG yn agored i amhariadau yn ei gadwyn gyflenwi. Byddai adleoli'r gadwyn gyflenwi hon i'w gwneud yn fwy lleol yn ei gwneud yn fyrrach i sicrhau darpariaeth fwy prydlon; darparu mwy o sicrwydd o ran cyflenwad; dod â'r gadwyn o dan reolaeth ddeddfwriaethol uniongyrchol y DU (sy'n bwysig ar gyfer rheoli ansawdd); a lliniaru yn erbyn oedi o ran cludiant a cheisiadau cystadleuol gelyniaethus am gynnyrch hanfodol.

---

*"Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y gellir edrych arno. A all Cymru ddod yn gynhyrchydd y math hwn o offer ar gyfer ei hun yn y dyfodol, yn ogystal â mathau eraill o offer"*

*Rhanddeiliad WEFO*

---

Er nad oedd modd cynnwys yr holl ystyriaethau cydraddoldeb arferol yn y prosesau recriwtio a ddefnyddiwyd i ddod â phobl i'r gweithlu'n gyflym, mae gwersi i'w dysgu hefyd o sut roedd yr ymateb brys yng Nghymru yn ceisio cydnabod effeithiau'r pandemig ar staff Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Cafodd effeithiau anghymesur Covid-19 ar rai mathau o ethnigrwydd eu cydnabod yn gyflym, a sefydlwyd Grŵp

Cynghori Covid-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru i edrych ar y rhesymau pam roedd Covid-19 yn effeithio'n anghymesur ar bobl o gymunedau lleiafrifol, yn ogystal â'r anghydraddoldebau iechyd sylfaenol ehangach sy'n effeithio ar gymunedau o'r fath. Arweiniodd hyn at adroddiad y Grŵp Cynghori ar effaith Covid-19 ar leiafrifoedd ethnig ac Adnodd hunanasesu Asesu Risg Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu a ddefnyddiwyd, ac sy'n dal i gael ei ddefnyddio, ar draws y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol.

Yn ddiweddarach, sefydlwyd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil[74], sy'n parhau i edrych ar amrywiaeth o ddadansoddiadau ledled Cymru ynghylch effeithiau gwahanol ffactorau economaidd-gymdeithasol ar bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a ffyrdd o wella cydraddoldeb.

---

*"Rwy'n meddwl, o ran deall amrywiaeth y gweithlu a'r gwahanol fathau o anghenion ac amgylchiadau unigol, bod llawer wedi cael ei wneud yn y maes hwn."*

*Rhanddeiliad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*

*"... Gellir dadlau a fyddem wedi cael uned Gwahaniaethau ar sail Hil pe na bai pandemig Covid wedi digwydd ac effaith hynny ar bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig."*
*Rhanddeiliad WEFO*

---

Mae'n bwysig nodi bod y datblygiadau hyn ar waith cyn i'r cyllid gael ei dalu'n ôl-weithredol, ac felly dylid ei ystyried yn ganlyniadau i'r ymateb cyffredinol i Covid-19 yng Nghymru, yn hytrach na chanlyniadau uniongyrchol y weithred hon. Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi dangos natur ymarferol a manteision uniongyrchol gweithredu'r Themâu Trawsbynciol, a'r angen i feddwl am sut mae dull un ateb i bawb yn gallu bod yn beryglus, yn enwedig mewn cyd-destun iechyd. Dylai cynllunio ymatebion i'r pandemig yn y dyfodol ymgorffori ystyriaethau Themâu Trawsbynciol wrth ddylunio ymatebion, yn enwedig o ran yr hyn sydd ei angen i fod yn fwy gwydn ac i leihau'r effaith.

**Crynodeb**

- Y prif bryderon yn ymwneud â'r Themâu Trawsbynciol oedd goblygiadau iechyd gweithio ar y 'rheng flaen' ar gyfer gweithwyr hŷn a gweithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; anaddasrwydd dull cyfarpar diogelu personol 'un ateb i bawb' ac ystyried amrywiaeth y gweithlu, cynaliadwyedd cyfarpar diogelu personol sy'n cael ei gaffael yn gyflym; a pha mor foesegol yw cadwyni cyflenwi cyfarpar diogelu personol.
- Fodd bynnag, ac ystyried natur ôl-weithredol y gweithrediad, nid oedd yn bosibl ystyried y Themâu Trawsbynciol yn y ffordd arferol, na chynnwys dangosyddion

[74] Strategaeth Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (llyw.cymru)

Themâu Trawsbynciol ‘ffurfiol’ yn y cynllun busnes. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru a WEFO yn ymwybodol o gydraddoldeb a’r Themâu Trawsbynciol drwyddi draw.

- Yng nghyd-destun y Themâu Trawsbynciol, dyma’r camau cadarnhaol allweddol i’w cymryd o ymateb Cymru i’r pandemig:
    - Yr ymdrechion a wnaethpwyd i wella hygyrchedd a chynaliadwyedd cyfarpar diogelu personol, a datblygu cadwyni cyflenwi moesegol drwy ddod o hyd i gyflenwyr cyfarpar diogelu personol mwy lleol
    - Creu Grŵp Cynghori Covid-19 Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru; datblygu Adnodd hunanasesu Asesu Risg Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu; a sefydlu’r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil.
- O ran y gwersi a ddysgwyd, mae Covid-19 wedi tynnu sylw at y perygl o ddull gweithredu addas i bawb mewn argyfwng, a’r angen i ystyried y Themâu Trawsbynciol wrth ddylunio ymatebion effeithiol. Ar ben hynny, mae’r pandemig wedi dangos pwysigrwydd cadwyni cyflenwi lleol i sicrhau ansawdd, cynaliadwyedd a dulliau moesegol; a lleihau oedi wrth ddosbarthu cyfarpar diogelu personol a tharfu.

**Cymharu dull Cymru o gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) â gwledydd eraill y DU**

Mae'r astudiaeth achos hon yn cymharu agweddau allweddol ar ddull Cymru o gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19 â rhai gwledydd eraill y DU. Mae'n tynnu'n bennaf ar adroddiadau Archwilio Cymru[75], y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)[76], Audit Scotland[77], Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon[4], ac adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU ar gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol gan y Llywodraeth[5], ac mae'n tynnu sylw at y gwersi allweddol a ddysgwyd

**Cyflwyniad**

Ac ystyried brys eithriadol yr angen i gynyddu cyflenwadau cyfarpar diogelu personol ym mis Mawrth 2020, cafodd Nodyn Polisi Caffael Swyddfa Cabinet y DU 01/2010, a oedd yn caniatáu caffael nwyddau, gwasanaethau, a gwaith heb gystadleuaeth na hysbysebu ar yr amod bod rhesymau dilys dros fod yn eithriadol o frys, ei fabwysiadu. Roedd hyn yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus y DU yn gallu caffael cyfarpar diogelu personol heb fynd drwy'r prosesau cystadleuol arferol.

Mae adroddiad Archwilio Cymru yn darparu adolygiad manwl iawn o'r broses caffael cyfarpar diogelu personol yng Nghymru yn ystod y pandemig. Mae'r cyfarpar diogelu personol a brynwyd drwy weithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi'r GIG drwy Covid-19 yn cynrychioli is-gydran o'r gwariant cyffredinol hwn ar PPE. Oherwydd natur frys y sefyllfa, gweithiodd gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy'r strwythurau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn PCGC (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) ar gyfer prynu cyfarpar diogelu personol a darparu cyllid yn ôl-weithredol. Prynodd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop dros 350 miliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol, sy'n cynrychioli dros hanner y cyfanswm a brynwyd ledled Cymru, ac roedd yn cyfrif am wariant o dros £110 miliwn, neu dros draean o gyfanswm y gwariant.

**Datblygu trefniadau caffael cyfarpar diogelu personol brys cadarn**

Ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru mewn ffordd gynyddol gydweithredol i fynd i'r afael â'r angen brys am gyfarpar diogelu personol, gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru[6] yn ymgymryd â rôl ehangach o ran cyflenwi cyfarpar diogelu personol i'r GIG yn ehangach, gan gynnwys contractwyr annibynnol ym maes gofal sylfaenol. Yna, bu'n gweithio gyda llywodraeth leol i

[75] Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19
[76] Cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ystod Pandemig COVID-19
[77] Covid-19:Cyfarpar Diogelu Personol
[4] Pandemig COVID-19:Cyflenwi a Chaffael Cyfarpar Diogelu Personol i Ddarparwyr Gofal Iechyd Lleol
[5] COVID-19:Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol y Llywodraeth
[6] Y sefydliad sy'n gyfrifol am gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol i ysbytai ledled Cymru

ddeall y galw ym maes gofal cymdeithasol ac ymgymerodd â rôl gynyddol yn cyflenwi cyfarpar diogelu personol yn y maes hwnnw.

Bryd hynny, canfu Archwilio Cymru fod Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi rhoi trefniadau da ar waith i gaffael cyfarpar diogelu personol yn gyflym, gan gydbwyso'r angen brys i gael cyflenwadau ar gyfer staff rheng flaen â'r angen i reoli risgiau llywodraethu ariannol sylweddol, gan gynnwys delio â chyflenwyr newydd, gwneud taliadau mawr ymlaen llaw, a'r cyfarpar twyllodrus ac o ansawdd gwael oedd yn cael eu cynnig. Cafodd hyn ei helpu gan fod un corff cyhoeddus eisoes yn gyfrifol am gyflenwi cyfarpar diogelu personol i lawer o'r GIG yng Nghymru, rhwydweithiau a pherthnasoedd presennol rhwng Llywodraeth Cymru, cyrff y GIG a llywodraeth leol.

I'r gwrthwyneb, dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) fod llawer mwy o sefydliadau, cyn y pandemig, yn ymwneud â'r broses hon yn Lloegr, a bod mwy o bellter rhwng y llywodraeth a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am gaffael, cyflenwi a rheoli stoc.

---

*"Rydym yn cydnabod yr ymdrech enfawr o ran unigolion ac ar y cyd gyda'r gwaith o ddod o hyd i gyfarpar diogelu personol a'i gyflenwi i staff rheng flaen"*

*Archwilio Cymru*

---

**Canfod ac asesu cyflenwyr addas**

Roedd y trefniadau a roddwyd ar waith hefyd yn helpu Cymru i osgoi materion eraill a amlygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei hadroddiad ar gaffael cyfarpar diogelu personol yn Lloegr, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â'r lôn flaenoriaeth uchel (neu 'VIP'), a sefydlwyd ochr yn ochr â lôn gyffredin i asesu a phrosesu darpar arweinwyr cyfarpar diogelu personol gan swyddogion y llywodraeth, swyddogion y gweinidogion, Aelodau Seneddol ac aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, uwch staff y GIG a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Ystyriwyd bod arweinwyr o'r ffynonellau hyn yn fwy credadwy neu fod angen eu trin yn fwy brys, a derbyniodd Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) eu bod yn cael eu trin yn well na'r rhai a broseswyd drwy'r lôn gyffredin.

Er bod y ddwy lôn yn defnyddio'r un broses i asesu a phrosesu cynigion, roedd tua un o bob deg cyflenwr  wedi'u prosesu drwy'r contractau lôn VIP o'i gymharu â llai nag un o bob cant o gyflenwyr a ddaeth drwy'r lôn gyffredin. Mae tystiolaeth ddiweddar hefyd yn dangos bod cyfarpar diogelu personol a brynwyd drwy'r lôn VIP ar gyfartaledd 80% yn ddrytach na'r hyn a gafwyd o fannau eraill. Ar ben hynny, nid oedd ffynonellau'r atgyfeiriadau i'r lôn VIP bob amser yn cael eu cofnodi ar system rheoli achosion tîm yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Nid oedd gan PCGC na Llywodraeth Cymru ddull tebyg i'r dull dwy ffordd o adnabod cyflenwyr posibl; ac ni welodd Archwilio Cymru unrhyw dystiolaeth o roi blaenoriaeth i gyflenwyr posibl yn dibynnu ar bwy wnaeth eu cyfeirio. Yn yr un modd, ni chanfu

Audit Scotland unrhyw dystiolaeth o atgyfeiriadau blaenoriaeth yn ei adolygiad o'r prosesau a sefydlwyd gan NHS National Services Scotland (NSS y GIG), ac ni wnaeth Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon hynny ychwaith mewn adolygiad o Wasanaeth Caffael a Logisteg y Sefydliad Gwasanaethau Busnes (BSO PaLS).

**Sicrhau diwydrwydd dyladwy**

Roedd Archwilio Cymru yn cydnabod na fyddai modd cynnal diwydrwydd dyladwy i'r lefel y byddai'n ei chyrraedd y tu allan i'r pandemig mewn proses dendro gystadleuol arferol, oherwydd brys eithafol y sefyllfa. Fodd bynnag, ar gyfer pob contract roedd yn adolygu, ym mhob achos roedd llwybr tystiolaeth wedi'i ddogfennu, yn nodi'r prif faterion a'r risgiau, a sut byddent yn cael eu rheoli, ac yn cynnal archwiliadau cefndir ar ddarpar gyflenwyr. Mae Archwilio Cymru yn nodi bod ei ganfyddiadau'n cadarnhau canfyddiadau adolygiad archwilio mewnol mis Hydref 2020 o drefniadau llywodraethu ariannol PCGC, a ganfu y cydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwiriadau cefndir, cymeradwyaethau a chofnodi penderfyniadau sy'n ymwneud â chyfarpar diogelu personol ym mhob achos.

Mae hyn yn wahanol i wledydd eraill y DU, lle mae archwiliadau o gontractau sampl wedi datgelu nifer o broblemau.

- Yn Lloegr, er bod proses wyth cam wedi'i sefydlu i asesu a phrosesu cynigion o gymorth i gyflenwi cyfarpar diogelu personol, nid oedd yr holl brosesau ar waith yn ystod prosesau caffael cynnar; canfuwyd anghysondebau o ran digonolrwydd dogfennau ar benderfyniadau caffael allweddol fel pam y dewiswyd cyflenwyr penodol, pam fod rhai cyflenwyr â sgoriau diwydrwydd dyladwy isel wedi cael contractau, a sut cafodd risgiau fel gwrthdaro ymddangosiadol neu wirioneddol rhwng buddiannau eu nodi neu eu rheoli; a chafodd rhai contractau eu dyfarnu'n ôl-weithredol ar ôl i rywfaint o waith gael ei wneud, gan gynyddu'r risg o danberfformiad neu ddiffyg perfformiad. Mae hyn i gyd yn cael ei gefnogi mewn adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[7], a ganfu nad oedd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddigon o wiriadau diwydrwydd dyladwy ar ddechrau'r pandemig i atal elw posibl ac i nodi gwrthdaro rhwng buddiannau.
- Yn yr Alban, ni chafodd dogfennau cymeradwyo contractau eu cwblhau i lefel gyson o fanylder; canfuwyd bod rhai contractau wedi cael eu llofnodi ar ôl dyddiad dechrau'r contract (ac un heb ei lofnodi o gwbl); ac roedd defnydd anghyson o lythyrau dyfarnu contractau. Ar ben hynny, gwariodd NSS y GIG £98 miliwn gyda 24 o gyflenwyr nad oedd ganddo berthynas flaenorol â nhw, ac er bod Scottish Enterprise[8] wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth am y cyflenwyr hyn, nid oedd canllawiau clir ar gyfer diwydrwydd dyladwy na chytundeb ffurfiol rhwng Scottish Enterprise ac NSS y GIG ar natur y gwaith sydd ei angen.
- Yng Ngogledd Iwerddon, roedd yr angen brys am offer yn golygu bod BSO PaLS yn gosod archebion gyda chwe chyflenwr 'risg uchel' ond yn gwneud hynny heb fod angen unrhyw gymeradwyaeth fewnol ychwanegol. Codwyd

[7] Management of PPE contracts - Committee of Public Accounts (parliament.uk)
[8] Asiantaeth datblygu economaidd genedlaethol yr Alban

mater arall ynghylch diffyg mesurau diogelu ychwanegol i atal gwrthdaro rhwng buddiannau ar gyfer contractau heb eu tendro.

**Cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract**

O ran y gwersi a ddysgwyd i Gymru, nododd Archwilio Cymru nad oedd PCGC yn bodloni'r gofynion o dan reolau caffael brys i gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau o fewn 30 diwrnod, yn bennaf oherwydd bod angen i staff flaenoriaethu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol ac nid oeddent yn gallu blaenoriaethu'r broses o gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau. Profwyd problemau tebyg yn Lloegr (lle mae gofyniad 90 diwrnod), yr Alban ac, i raddau llai, Gogledd Iwerddon, eto oherwydd y galw digynsail ar dimau caffael.

**Sicrhau ansawdd**

Yn nyddiau cynnar y pandemig, cyflwynodd llawer o sefydliadau gynigion i gyflenwi cyfarpar diogelu personol. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru[9] i gasglu ac adolygu cyflwyniadau gan gyflenwyr sydd eisiau gwerthu cyfarpar diogelu personol a chynnyrch a gwasanaethau eraill. Roedd yr adolygiadau hyn yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion ansawdd a rhai gwiriadau busnes safonol. Anfonwyd cynigion cymwys o gynnyrch ymlaen i Bartneriaeth Gwasanaethau GIG Cymru i symud cynigion ymlaen i'r broses gaffael.

Yn y Bartneriaeth Gwasanaethau GIG Cymru bu'r Gwasanaethau Caffael hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) ym Mhen-y-bont ar Ogwr i brofi ansawdd cyfarpar diogelu personol a chanfod ardystiad twyllodrus. Ar wahân i enghraifft ynysig o fenig wedi'u cam-labelu, ni welodd Archwilio Cymru unrhyw dystiolaeth o enghreifftiau, fel y rhai a ddisgrifiwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr, lle nad oedd cyfarpar diogelu personol a brynwyd yn ganolog yn cael ei ystyried yn addas i'r diben, "*gan wastraffu cannoedd o filiynau o bunnoedd*".

Nodwyd materion hefyd mewn adolygiad gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon (DoH), a oedd yn cydnabod bod defnyddwyr wedi nodi "*ansawdd gwael ac annerbyniol rhai cyflenwadau PPE"*. Er gwaethaf hyn, tynnodd yr Adran Iechyd sylw at y ffaith mai dim ond oherwydd pryderon diogelwch mewn nifer cymharol fach o achosion yn ystod camau cynharach y pandemig y bu'n rhaid tynnu cyfarpar yn ôl, a bod y pryderon cynnar hyn yn cael eu datrys i raddau helaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd arloesol a chydweithredol.

Mae'n bwysig nodi bod staff a grwpiau cynrychioliadol ledled y DU wedi codi'r mater o deimlo nad ydynt yn cael eu diogelu'n ddigonol oherwydd bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddylunio'n gyffredinol ar gyfer cyrff gwrywaidd generig (mater a nodwyd ymhell cyn dechrau'r pandemig). Er enghraifft, dywedodd 49% o nyrsys Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a ymatebodd i arolwg gan y Coleg Nyrsio Brenhinol ym

[9] Corff hyd braich o Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi arloesedd a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd

mis Mai 2020 eu bod wedi cael 'prawf addasrwydd'[10] digonol ar gyfer anadlydd, o'i gymharu â 74% ar gyfer nyrsys gwyn Prydeinig.

Yng Nghymru, gwnaethpwyd ymdrechion i fynd i'r afael â rhai materion yn gynnar yn ystod y pandemig; er enghraifft, pan nodwyd problem gyda ffit math penodol o fasg, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddull o wella'r ffit a lleihau methiannau o ran profion ffitio, gan rannu fideo ar draws GIG Cymru. Roedd y defnydd o beiriannau prawf ffitio hefyd yn gostwng cyfraddau methu. Ar ben hynny, ar adeg adroddiad Archwilio Cymru, roedd nifer o wneuthurwyr, gan gynnwys gweithgynhyrchwr yng Nghymru, yn datblygu cynnyrch gyda'r potensial i gynnig rhywbeth mwy pwrpasol ar gyfer gwahanol fathau o wyneb a chorff.

Mewn mannau eraill, roedd Bwrdd Strategaeth a Llywodraethu PPE Llywodraeth yr Alban yn cynnwys cam gweithredu i wella tystiolaeth ynghylch addasrwydd a chyfforddusrwydd PPE ar gyfer gwahanol grwpiau, gan gynnwys menywod a phobl o leiafrifoedd ethnig. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd diffyg profion ffitio lleol ar gyfer masgiau FFP3[11] yn fater penodol, ac roedd ymchwiliad i Ddigwyddiad Niweidiol Difrifol[12] ar ansawdd cynnar y profion ffitio yn mynd rhagddo ar adeg yr Archwiliad.

[10] Prawf i wirio bod anadlydd yn gyfforddus ac yn rhoi'r amddiffyniad disgwyliedig i'r sawl sy'n ei wisgo
[11] Masgiau anadlyddion sy'n cynnig yr amddiffyniad mwyaf rhag anadlu llygredd aer
[12] Unrhyw ddigwyddiad neu sefyllfa a arweiniodd neu a allai fod wedi arwain at niwed, colled neu ddifrod anfwriadol neu annisgwyl.

**Sicrhau gwerth am arian**

Ac ystyried y risgiau ariannol o gaffael cyfarpar diogelu personol ar frys mewn marchnad dameidiog a chystadleuol iawn, sefydlodd PCGC Grŵp Llywodraethu Cyllid traws-broffesiynol (FGG) ddechrau mis Ebrill 2020 i reoli'r risgiau hyn ar yr un pryd â galluogi gwneud penderfyniadau cyflym. Wrth gwrs, roedd yr FGG yn monitro archebion a oedd yn cynnwys taliadau ymlaen llaw i sicrhau bod cynhyrchion yn cael eu derbyn. Roedd naw archeb wedi gwneud taliadau ymlaen llaw drwy gyfrif 'ysgrow', dull a ddefnyddir ar gyfer contractau mawr neu gyflenwyr risg uwch newydd a oedd yn golygu eu bod yn gallu gweld bod y cyllid yn ei le ond nad oedd modd ei ddefnyddio nes bod y nwyddau'n cael eu derbyn a'u gwirio. Ar ben hynny, er bod y costau'n uwch na chyn y pandemig ar y cyfan, gwelodd Archwilio Cymru dystiolaeth bod PCGC yn negodi prisiau ac yn osgoi costau drwy negodi cludo nwyddau cyfarpar diogelu personol dros y môr yn hytrach na drwy'r awyr ar gyfer rhai archebion.

Nid oes sôn am drefniadau ysgrow yn Lloegr, nac yn yr Alban lle'r oedd NSS y GIG, hyd at fis Mawrth 2021, wedi talu bron i £135 miliwn ymlaen llaw, gyda £6.6 miliwn o archebion yn dal yn ddyledus erbyn mis Gorffennaf 2021. Roedd NSS y GIG yn rheoli'r risg hon drwy brosesau caffael arferol ac yn adrodd i fwrdd llywodraethu a rhaglen gaffael cenedlaethol.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd yr angen brys am offer yn golygu bod BSO PaLS yn gosod archebion gyda chwe chyflenwr 'risg uchel' ond yn gwneud hynny heb fod angen unrhyw gymeradwyaeth fewnol ychwanegol. Roedd archwiliadau hefyd yn nodi risgiau eraill sy'n ymwneud â sawl rhagdaliad i'r un cyflenwyr ac asesiadau risg annigonol o gyflenwyr sy'n gofyn am ragdaliadau. Arweiniodd taliadau ymlaen llaw at un cyflenwr (a nodwyd fel risg uchel cyn llofnodi contract) yn derbyn £0.88 miliwn o ragdaliad a methu darparu archeb am 2.5 miliwn o fasgiau Math IIR[13].

**Lefelau Stoc PPE**

Mae data Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn dangos nad oedd stociau cyfarpar diogelu personol wedi dod i ben yng Nghymru, er bod argaeledd rhai eitemau yn isel iawn. Roedd y pwysau'n arbennig o uchel ym mis Ebrill, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU: roedd cyflenwad llai nag wythnos o fasgiau Math IIR, feisorau wyneb a gynau sy'n gwrthsefyll hylif yn stoc PCGC am lawer o'r mis. Ar ar adeg honno, roedd yn rhaid i Gymru ddibynnu'n rhannol ar drefniadau cyd-gymorth gyda Lloegr a'r Alban i sicrhau cyflenwadau digonol, er ei bod wedi rhannu llawer mwy na'r hyn a gafodd yn y pen draw.

Fe wnaeth y sefyllfa wella'n raddol nes bod mwy na 14 diwrnod o gyflenwad ar gyfer pob eitem PPE erbyn mis Gorffennaf 2020 a chafodd pob categori ei nodi fel 'gwyrdd' ar system sgorio risg PCGC. Adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau arolygon a gynhaliwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)[14] a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA)[15], sy'n awgrymu bod hyder yn y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol wedi cynyddu'n fuan ar ôl dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, roedd pryderon o hyd, gyda rhai staff rheng flaen yn nodi prinder parhaus o anadlyddion FFP3 a gynau untro llewys hir. Mae Archwilio Cymru yn adlewyrchu,

---

[13] Masgiau wyneb meddygol wedi'u gwneud o bedair haen sy'n atal gronynnau mawr rhag cyrraedd y claf neu arwynebau gweithio

[14] https://www.rcn.org.uk/Professional-Development/publications/rcn-second-ppe-survey-covid-19-pub009269

[15] https://www.bma.org.uk/media/5620/20220141-bma-covid-review-report-2-the-impact-of-the-pandemic-on-the-medical-profession-final.pdf

ac ystyried y lefelau stoc cenedlaethol digonol o fis Mai 2020 ymlaen, y gallai canfyddiadau staff o PPE fod wedi adlewyrchu eu profiadau o ddosbarthu mewn safleoedd lleol yn hytrach na'r darlun cenedlaethol.

Roedd systemau ar gyfer monitro stoc Cymru hefyd wedi gwella dros amser, yn enwedig drwy sefydlu system 'StockWatch' i siopau lleol adrodd yn wythnosol ar eu daliadau stoc. Er bod PCGC yn dweud nad oedd awdurdodau lleol bob amser yn rhoi gwybod am wybodaeth yn brydlon, roedd y system yn cael ei hystyried yn ddefnyddiol.

Yn yr un modd, yn yr Alban, datblygodd NSS y GIG ddangosfyrddau goruchwylio 12 wythnos i helpu i lywio penderfyniadau caffael a dosbarthu a gwella'r broses adrodd. Roedd yn defnyddio'r data hwn i ddarparu bwletinau stoc PPE dyddiol i amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd hefyd wedi sefydlu Grŵp Pwynt Cyswllt Unigol PPE i alluogi byrddau'r GIG i godi a thrafod materion o ran cyfarpar diogelu personol ar lefel bwrdd y GIG, yn ogystal â phorth PPE ar-lein i alluogi timau caffael o fewn byrddau'r GIG i roi gwybod am unrhyw brinder PPE.

Yn Lloegr, datblygwyd prosesau i lywio dosbarthiad yn well ar sail gwybodaeth o ranbarthau'r GIG, fforymau cadernid lleol a'r Tîm Ymateb i'r Tarfu ar y Cyflenwad Cenedlaethol (llinell gymorth ar gyfer danfon cyfarpar diogelu personol mewn argyfwng i sefydliadau sy'n agos at redeg allan).

O ran datblygu cyflenwadau mwy gwydn o PPE:

- Yng Nghymru, bu'r Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Critigol (CERET), a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 i ymateb i angen brys ar ddyfeisiau meddygol, yn gweithio'n agos gyda gweithgynhyrchwyr yng Nghymru a nododd y gallent ehangu i weithgynhyrchu cyfarpar diogelu personol gyda rhywfaint o gymorth. Roedd dros 30 o gwmnïau wedi addasu eu llinellau cynhyrchu i ddarparu hylif diheintio dwylo; roedd 25 o gwmnïau wedi addasu eu llinellau cynhyrchu i wneud feisorau wyneb; ac roedd naw cwmni wedi buddsoddi mewn peiriannau i gynhyrchu masgiau wyneb a gorchuddion wyneb ar raddfa glinigol.
- Gweithiodd Llywodraeth yr Alban, NSS y GIG a phartneriaid gyda'i gilydd i sefydlu cadwyni cyflenwi newydd yn yr Alban. Erbyn mis Mehefin 2021, roedd canran y cyfarpar diogelu personol a gynhyrchwyd yn yr Alban (ac eithrio menig) wedi cynyddu i 88 y cant yn ôl gwerth cyfarpar diogelu personol.
- Yng Ngogledd Iwerddon, roedd busnesau lleol yn cael eu hannog i ddechrau gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu personol neu gynyddu'r gweithrediadau presennol. Arweiniodd hyn at saith contract dyfarnu uniongyrchol gyda chyfanswm gwerth amcangyfrifedig o £165.8 miliwn yn cael ei gymeradwyo. I gefnogi caffaeliadau cystadleuol mwy hyblyg a thymor hwy, sefydlodd BSO PaLS System Brynu Ddeinamig ar gyfer dyfarnu dau gontract cystadleuol, sef cyfanswm o £38.3 miliwn.

**Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd**

Wrth gymharu dulliau pedair gwlad y DU o brynu cyfarpar diogelu personol i amddiffyn yn erbyn Covid-19, mae'r gwersi allweddol i'w dysgu ar gyfer pandemigau yn y dyfodol yn cynnwys:

- Sicrhau bod trefniadau caffael brys cadarn ar waith ar y dechrau, a'u bod yn cydbwyso'r angen am frys â'r angen i reoli risgiau ariannol a risgiau eraill.
- Osgoi dull deuol o gaffael sy'n rhoi mwy o hygrededd a blaenoriaeth i rai arweinwyr caffael.
- Sicrhau bod diwydrwydd dyladwy'n cael ei gynnal i'r lefel uchaf bosibl, er mwyn osgoi materion sy'n ymwneud â gwrthdaro rhwng buddiannau, elw a llwybrau archwilio annigonol.
- Cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau o fewn 30 diwrnod i gydymffurfio â rheolau caffael brys a sicrhau'r tryloywder gorau posibl.
- Rhoi prosesau cynnar ar waith i gasglu ac adolygu cynigion i gyflenwi cyfarpar diogelu personol, profi ansawdd cynnyrch, a nodi ardystiadau twyllodrus.
- Lle bo'n bosibl, osgoi dyfarniadau contract ôl-weithredol i leihau'r risg o danberfformio neu ddiffyg perfformiad.
- Defnyddio trefniadau 'ysgrow' i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â thaliadau ymlaen llaw.
- Sicrhau bod y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol yn adlewyrchu amrywiaeth gweithlu GIG Cymru, a bod prosesau ar waith ar gyfer profion ffitio.
- Defnyddio system fel 'StockWatch' neu debyg i gynnal lefelau stoc digonol, symleiddio'r broses dosbarthu cyfarpar diogelu personol a sicrhau bod sefydliadau'n cael y cyflenwadau sydd eu hangen arnynt; a chynnal porth adrodd/llinell gymorth sy'n caniatáu i sefydliadau roi gwybod am brinder.
- Parhau i weithio gyda sefydliadau lleol i ddatblygu cadwyni cyflenwi mwy gwydn.

## Cyllid i Recriwtio Staff yn Ardal Bae Abertawe

Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi trosolwg o ymdrechion recriwtio staff yn ardal Bae Abertawe ar ddechrau'r pandemig o safbwynt y bwrdd iechyd, ac o safbwynt darparwyr rhaglenni addysg glinigol ym Mhrifysgol Abertawe, y cafodd staff eu recriwtio ohonynt.

Cyflwyniad

Cafodd £1,513,547 o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei ddyfarnu yn ôl weithredol i Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2023 i'w had-dalu am y cyllid a ddarparwyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i dalu'r costau recriwtio staff yn ystod pandemig Covid-19. Mae hyn yn cyfrif am 347 o staff newydd a ymunodd â'r Bwrdd Iechyd yn 2020.

**Anghenion a blaenoriaethau recriwtio cynnar**

Ar ddechrau 2020, wrth i raddfa'r pandemig ddod yn glir, roedd angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gynyddu ei gapasiti staff ar frys, yn enwedig nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd a meddygon. Daeth hyn yn ffocws allweddol i'r Bwrdd Iechyd oherwydd pryderon am fewnlifiad mawr o gleifion, a'r angen am ddigon o staff i ofalu amdanynt.

*"Roedden ni'n paratoi ar y dechrau ar gyfer y sefyllfa waethaf, a oedd ar y pryd yn edrych yn eithaf digalon, felly roedd angen i ni recriwtio cymaint o staff ag y gallem ni."*
*Rhanddeiliad y Bwrdd Iechyd*

Ar yr un pryd, cyflwynodd rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol y DU newidiadau brys i safonau addysg er mwyn gallu defnyddio myfyrwyr gofal iechyd i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Yn ogystal, ysgrifennodd y cyrff rheoleiddio at gofrestreion a oedd wedi rhoi'r gorau i weithio i annog staff a oedd wedi gadael neu wedi ymddeol yn y tair blynedd diwethaf i ddychwelyd i'r gwaith (ar yr amod nad oedd achos addasrwydd i ymarfer yn eu herbyn).

Ym Mae Abertawe, cafodd recriwtio myfyrwyr yn benodol ei gynorthwyo gan y berthynas a oedd eisoes yn bodoli rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe. Yn gynnar yn 2020, roedd tua 1,400 o fyfyrwyr ar raglenni nyrsio cyn cofrestru ym Mhrifysgol Abertawe, yn ogystal â llawer o fyfyrwyr eraill ar gyrsiau meddygaeth ôl-raddedig a mynediad. Roedd y newidiadau brys i safonau addysg yn galluogi i 700 o'r myfyrwyr nyrsio hyn, ymysg eraill, gael eu defnyddio i weithio i fyrddau iechyd ar draws de a gorllewin Cymru, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (a byrddau iechyd eraill yn y rhanbarth), un o flaenoriaethau cynnar y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd oedd paratoi myfyrwyr i ymuno â'r gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt fynediad at yr un cyfarpar diogelu personol â staff y Bwrdd Iechyd yn eu darlithoedd sgiliau clinigol, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'i ddefnyddio.

*“Dydyn ni ddim eisiau iddyn nhw ddefnyddio offer anghyfarwydd yma, a mynd i ymarfer lle mae’n wirioneddol bwysig o safbwynt rheoli heintiau, a bod yn anghyfarwydd â’r hyn sydd ganddyn nhw.”*
*Rhanddeiliad y Brifysgol*

**Heriau a phrosesau recriwtio**

Disgrifiodd staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ymgyrch recriwtio Covid-19 fel un hynod ddwys. Yn ogystal â’i gyfleusterau presennol, roedd y Bwrdd Iechyd hefyd o dan bwysau mawr i staffio ysbytai maes a fyddai’n bodloni’r safonau gofal gofynnol i ymdopi â’r mewnlifiad o gleifion.

Er mwyn sicrhau bod recriwtio’n digwydd yn gyflym, sefydlodd y Bwrdd Iechyd dîm yn gyflym a oedd yn gyfrifol am sefydlu gweithlu dros dro o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd wedi ymddeol, myfyrwyr yn eu blynyddoedd olaf o astudio, ac aelodau o’r cyhoedd a oedd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo o swyddi eraill ac a allai, er enghraifft, helpu gyda rhyddhau cleifion o’r ysbyty ac, yn ddiweddarach yn y pandemig, y rhaglen frechu.

Cyn creu’r tîm hwn, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd adran recriwtio fewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru[78] oedd yn gyfrifol am hyn. Roedd y tîm bach yn cynnwys staff a oedd wedi cael eu hadleoli o swyddi eraill yng ngweithlu cyfarwyddiaeth y Bwrdd Iechyd, a oedd yn golygu bod yn rhaid gohirio rhai agweddau ar eu gwaith arferol, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad.

Roedd lefel yr ymateb i ymgyrch recriwtio’r tîm yn uchel ac yn heriol. Roedd hefyd sawl ffrwd recriwtio i’w rheoli ar yr un pryd.

*“Roedden ni’n gwneud ein gwaith recriwtio ein hunain yn apelio at y cyhoedd, roedden ni hefyd yn ceisio annog pobl a oedd wedi ymddeol i ddod yn ôl i’r sefydliad, yn ogystal â gofyn i fyfyrwyr ymuno â ni.”*
*Rhanddeiliad y Bwrdd Iechyd*

Yn achos myfyrwyr meddygol a nyrsio, roedd angen newid o fod ar leoliad yn y Bwrdd Iechyd i fod yn staff cyflogedig, a oedd wedi arwain at heriau unigryw a goblygiadau o ran adnoddau. Fodd bynnag, roedd y cysylltiadau presennol rhwng y Bwrdd Iechyd a’r brifysgol wedi helpu i symleiddio’r broses gynefino.

*“Yn y bôn, maen nhw bron fel gweithwyr y Bwrdd Iechyd yn ogystal â bod yn fyfyrwyr prifysgol... Mae’r nyrsys cymwysedig a phroffesiynau iechyd eraill yn gweithio ochr yn ochr â nhw ac yn cael eu talu. Roedd hynny’n*

[78] Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad annibynnol, sy’n eiddo i GIG Cymru ac yn cael ei gyfarwyddo ganddo. Mae’r sefydliad yn cefnogi GIG Cymru drwy ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau a swyddogaethau cymorth o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar y cwsmer.

*fuddiol iawn."*
*Rhanddeiliad y Brifysgol*

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a ymunodd naill ai'n fyfyrwyr neu'n aelodau o'r cyhoedd. Dywedodd un o randdeiliaid y bwrdd iechyd fod nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd wedi ymddeol ac wedi dychwelyd, yn isel, er nad oes ganddynt fynediad at ystadegau'r Bwrdd Iechyd ar hyn[79].

**Effaith y cyllid**

Roedd y gallu i recriwtio staff ychwanegol y byddai eu costau'n cael eu talu gan Lywodraeth Cymrui ac yna'n ôl-weithredol o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd y gallai ateb yr her hon.

*"O safbwynt syml iawn, roedd yn effaith gadarnhaol... Fydden ni ddim yn cael ein llethu'n llwyr a methu ag ymdopi."*
*Rhanddeiliad y Bwrdd Iechyd*

Sicrwydd eu bod yn gallu cynllunio ymlaen llaw oedd yr effaith fwyaf ar y sefydliad. Er nad oedd unrhyw ymwybyddiaeth ar unwaith y byddai'r cyllid yn cael ei ddarparu drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, roedd yr ymwybyddiaeth y byddai'n dod o 'rywle' yn caniatáu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wneud penderfyniadau'n gyflym a symleiddio'r broses recriwtio i wella lefelau staffio.

Mae dyfarniad ôl-weithredol y cyllid hefyd wedi golygu bod llai o gyfaddawdu wedi gorfod cael ei wneud wedyn mewn agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau.

*"Heb os, pe bai'r arian hwnnw heb ddod i mewn, byddai'n rhaid i ni wneud penderfyniadau ynghylch sut y gallem barhau i weithredu rhai gwasanaethau, ac a fyddai hynny wedi bod yn ostyngiad yn y gwasanaethau y gallwn eu darparu. Byddai wedi cael effaith andwyol ar ofal cleifion."*
*Rhanddeiliad y Bwrdd Iechyd*

Gwelwyd rhai effeithiau annisgwyl hefyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Drwy newid ffocws y ffordd yr oedd pethau'n cael eu cynllunio – y canlyniad a ddymunwyd wedi'i ddilyn gan gyllid, yn hytrach na'r ffordd arall – gellid gwneud penderfyniadau'n gyflym a bu newid mwy cyffredinol yn dilyn hynny mewn ffyrdd o feddwl. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn achos ehangu digidol lle gwelwyd datblygiadau arloesol mewn recriwtio, apwyntiadau cleifion a chyfarfodydd. Roedd y rhain yn angenrheidiol yn ystod y pandemig, ond maent bellach yn parhau i fod yn rhan o waith y Bwrdd Iechyd.

[79] Ledled Cymru, dim ond 8% o'r holl staff a recriwtiwyd oedd yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd wedi ymddeol (h.y. dros 60 oed).

I'r brifysgol, roedd y profiad o gefnogi recriwtio staff yn cadarnhau ei pherthynas â'r Bwrdd Iechyd ac yn gwneud y broses o drosglwyddo myfyrwyr yn haws. I fyfyrwyr, er eu bod yn gweithio mewn sefyllfaoedd anodd yn aml a bod cyfaddawdu ar amser dysgu wedi bod yn heriol, roedd y profiad o weithio yn y GIG cyn graddio yn eu paratoi ar gyfer eu swyddi yn y dyfodol.

---

*"Rwy'n credu bod gennym berthynas waith agos gref gyda darparwyr gofal iechyd lleol gan ein bod wedi anfon myfyrwyr ar leoliad ac wedi buddsoddi yn ein hyfforddiant nyrsys... Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda nhw ac rwy'n credu bod y gallu i weithio'n agos a chwrdd yn rheolaidd i drafod materion yn ddefnyddiol."*
*Rhanddeiliad y Brifysgol*

---

Yn y bôn, roedd yr addewid o gyllid oedd ar gael yn gweithredu fel blanced ddiogelwch ym Mae Abertawe, gan ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd ysgogi ei ymgyrch recriwtio yn gyflym i fodloni gofynion brys pandemig Covid-19 ac achub bywydau.

---

*"Roedd hi'n amhosib i ni achub bywyd pawb, ond heb wneud yr hyn a wnaethom, byddai llawer mwy o fywydau wedi'u colli heb os. Rwy'n credu ein bod wedi cyflawni'r amcanion hynny."*
*Rhanddeiliad y Bwrdd Iechyd*

---

**Crynodeb**

- Cafodd y gwaith llwyddiannus a diogel o ddefnyddio myfyrwyr gofal iechyd i gefnogi'r ymateb i Covid-19 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei gefnogi gan y berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r berthynas hon wedi cryfhau o ganlyniad i brofiadau yn ystod y pandemig.
- Er bod ymgyrch recriwtio Covid-19 wedi bod yn hynod ddwys a heriol, rhoddodd y gallu i recriwtio staff ychwanegol gan wybod y byddai costau gwneud hynny'n cael eu talu sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd y gallai gynllunio ymlaen llaw i ymateb i'w heriau.
- Roedd yr addewid o gyllid oedd ar gael hefyd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i wneud penderfyniadau recriwtio cyflym i fodloni gofynion brys y pandemig. Mae hyn wedi arwain at newid parhaol mewn ffyrdd o feddwl a gweithio.